# Papur Testun 3A: Poblogaeth a Thai

3A











CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd & Môn

Mawrth 2016

**Cefndir**

Mae hwn yn un o gyfres o bapurau testun sydd wedi eu paratoi er mwyn darparu gwybodaeth fanylach ac i egluro'r modd y mae'r cynllun yn ymdrin â gwahanol bynciau a materion sy'n effeithio ar Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Bydd y papur hwn yn rhoi sylw penodol i **Boblogaeth a Thai**. Bydd yn egluro'r wybodaeth gefndirol sydd o gymorth wrth adnabod materion, amcanion ac opsiynau y ddogfen Cynllun Adnau.

Y Cynllun Adnau yw'r ail gam statudol paratoi y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd). Mae'r CDLl ar y Cyd yn siapio twf cymunedau o fewn Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i'r dyfodol, a bydd yn nodi'r polisïau a'r dynodiadau tir fydd yn sail i asesu ceisiadau cynllunio.

Bydd y Cynllun Adnau'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn penodi arolygydd annibynnol i asesu cadernid y Cynllun yn yr Archwiliad Cyhoeddus. Os bydd yr arolygydd yn ystyried bod y Cynllun yn un cadarn bydd yn argymell ei fabwysiadu. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CDLl ar y Cyd yn disodli Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009) ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd a Chynllun Fframwaith Gwynedd (1993) a Chynllun Lleol Ynys Môn (1996) ar gyfer Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn.

Gellir darllen y papur testun hwn ar wahân neu ar y cyd â'r Papurau Testun a'r Papurau Cefndir eraill a baratowyd er mwyn rhoi darlun cyflawn o Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Hwn yw fersiwn 3 o'r papur testun ac mae'n diweddaru fersiwn 2 gafodd ei gyflwyno efo'r Cynllun Adnau. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r newidiadau sydd i'w gweld yn y fersiwn yma:

| **Rhan** | **Crynhoad o'r Newid** |
|---|---|
| 1. Cefndir a Phwrpas y Papur | Dileu paragraff 1.6 gan mai dyma'r fersiwn sydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer yr Archwiliad Cyhoeddus |
| 2. Cyd-destun Polisi | Diweddaru'r wybodaeth er mwyn cyfleu newidiadau mewn canllawiau a dogfennau polisi – yn benodol felly o ran Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 1. |
| 7. Tai Presennol | 7.12 – Diweddaru gwybodaeth er mwyn darparu lefelau grantiau tai cymdeithasol ar gyfer 2014-15 ac ychwanegu is-ran newydd (7.12.5) sydd yn cyfeirio at Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol (YmTiC) Gwynedd arfaethedig, yn benodol felly o ran hyfywedd datblygiadau.<br><br>7.13 – Diweddaru gwybodaeth o ran y nifer unedau fforddiadwy sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio ac sydd wedi eu hadeiladu ar safleoedd eithrio gwledig yn |

| | |
|---|---|
| | 2014/15. |
| 8. Tueddiadau adeiladu | 8.4 – Diweddaru'r wybodaeth o ran y cyflenwad tir ar gyfer tai. |
| 9. Casgliadau | 9.1 – Cyfeirio at y ffaith nad oes gan ardal awdurdod cynllunio Gwynedd nac ychwaith Ynys Môn gyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai (dyddiad sail: 1af Ebrill, 2015). |

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) / Joint Planning Policy Unit
Llawr 1af Swyddfa Cyngor Dinas Bangor / 1st Floor Bangor City Council Offices
Bangor
LL57 1DT

01286 685003 neu 01766 771000

polisicynllunio@gwynedd.gov.uk

| | |
|---|---|
| Cyhoeddiad: Fersiwn 3 | Mawrth 2016 |

**CYNNWYS**

**1. CEFNDIR A PHWRPAS Y PAPUR ........ 5**
**2. CYD-DESTUN POLISI........ 6**
2.1 CENEDLAETHOL ........ 6
2.2 RHANBARTHOL ........ 14
2.3 LLEOL ........ 18
**3. Y BOBLOGAETH BRESENNOL ........ 27**
3.1 Amcangyfrif o boblogaeth canol blwyddyn (2001 ymlaen) ........ 27
3.2 Dosbarthiad gofodol y boblogaeth........ 28
3.3 Dadansoddiad o boblogaeth ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ........ 36
3.4 Dosraniad hanesyddol y boblogaeth ........ 38
3.5 Tueddiadau o ran poblogaeth ........ 40
3.6 Mudo ........ 41
3.7 Cyflenwad llafur (Gorffennaf 2013 – Mehefin 2014)........ 44
3.8 Incwm aelwydydd - 2013........ 45
**4. RHAGOLYGON POBLOGAETH ........ 47**
4.1 Amcanestyniadau poblogaeth (sail-2011) – Llywodraeth Cymru ........ 48
4.2 Amcanestyniadau o ran nifer y genedigaethau, marwolaethau a'r newid naturiol (sail-2011) – Llywodraeth Cymru........ 48
4.3 Amcanestyniadau o gyfradd ffrwythlondeb (sail-2011) – Llywodraeth Cymru........ 49
4.4 Lefelau mudo a dybieithir ar gyfer y cyfnod 2011-2036 (sail-2011) – Llywodraeth Cymru ........ 49
4.5 Newid yn y boblogaeth: Blynyddoedd allweddol a grwpiau oedran penodol (sail-2011)........ 50
4.6 Cymharu strwythur y boblogaeth yn 2011 gyda'r amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer 2026 ........ 53
**5. AELWYDYDD PRESENNOL ........ 56**
5.1 Amcangyfrifiad o nifer yr aelwydydd 1991-2013........ 56
5.2 Maint cyfartalog aelwydydd 1991-2013........ 57
5.3 Nifer yr aelwydydd o fathau penodol 1991-2013 ........ 58
**6. RHAGOLYGON AELWYDYDD........ 61**
6.1 Amcanestyniadauaelwydydd 2011-36 (sail-2011) - Llywodraeth Cymru 61
6.2 Amcanestyniadau o ran cyfartaledd maint aelwydydd 2011-36 (sail-2011) – Llywodraeth Cymru ........ 61
6.3 Amcanestyniadau o ran mathau penodol o aelwydydd 2011-36 (sail-2011) - Llywodraeth Cymru ........ 62
6.4 Cymhariaeth o'r rhagolygon blynyddol am dai sail 2006, 2008 a 2011 yng Ngwynedd ac Ynys Môn gyda'r rhagolygon sail 2003 ynghyd a'r ddarpariaeth bresennol ........ 64
**7. TAI PRESENNOL........ 67**
7.1 Deiliadaeth ........ 67

7.2 Math o dai ..... 69
7.3 Oed y stoc dai ..... 70
7.4 Cyflwr y stoc dai ..... 70
7.5 Gwerthiant tai ..... 75
7.6 Prisiau tai ..... 76
7.7 Nifer yr unedau preswyl a werthwyd fesul pris (2013) ..... 79
7.8 Cymhareb fforddiadwyedd (2013) ..... 84
7.9 Angen blynyddol am dai fforddiadwy ..... 85
7.10 Eiddo gwag ..... 85
7.11 Tai nas meddiannwyd ac ail gartrefi ..... 86
7.12 Ariannu tai fforddiadwy ..... 89
7.13 Safleoedd eithrio gwledig ..... 99

**8. TUEDDIADAU ADEILADU ..... 105**

8.1 Unedau preswyl wedi eu cwblhau: 2001-2014 ..... 105
8.2 Caniatadau cynllunio ar gyfer unedau preswyl ..... 107
8.3 Dadansoddiad o'r unedau preswyl newydd a gwblhawyd yn y cyfnod rhwng Ebrill 2012 ac Ebrill 2013 ..... 108
8.4 Argaeledd tir ar gyfer tai yn ardal Awdurdodau Cynllunio Gwynedd ac Ynys Môn ..... 109
8.5 Cyd-astudiaeth argaeledd tir ar gyfer tai – Dosbarthiad yr unedau preswyl ..... 110
8.6 Cyflenwad o dai fforddiadwy 2009-14 ..... 112

**9. CASGLIADAU ..... 114**

9.1 Y prif faterion/negeseuon sydd yn deillio o'r papur testun ..... 114
9.2 Amcanion ar gyfer tai ..... 115

# 1. CEFNDIR A PHWRPAS Y PAPUR

1.1 Bwriad y papur testun hwn ydyw darparu sail dystiolaeth ar gyfer strategaeth dai'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar y Cyd. Bydd y wybodaeth a'r casgliadau a sefydlir yn y papur hwn yn bwydo'n uniongyrchol i gynnwys y strategaeth, gan ddylanwadu felly ar bolisïau tai'r CDLl ar y Cyd.

1.2 Un o brif amcanion y CDLl ar y Cyd yw hwyluso'r ddarpariaeth o unedau preswyl ychwanegol a fydd eu hangen yn yr ardal yn ystod oes y Cynllun er mwyn cwrdd â'r galw tebygol. Mae'r papur hwn yn darparu'r sail wybodaeth ar gyfer gwaith pellach sydd yn sefydlu faint o unedau newydd fydd angen i'r CDLl ar y Cyd ei hwyluso, ynghyd â'r math penodol o unedau sydd eu hangen yn yr ardal e.e. o ran maint, daliadaeth a phris. Bydd hefyd o gymorth wrth ystyried y gwahanol opsiynau o ran sut y dylai'r unedau preswyl ychwanegol hyn gael eu darparu a'u dosbarthu. Mae'r papur hwn yn dwyn at ei gilydd sawl ffynhonnell o wybodaeth sydd wedi eu cyhoeddi'n barod, unai mewn modd ffurfiol neu anffurfiol.

1.3 Mae'r casgliadau a sefydlir yn y papur hwn wedi eu seilio ar wybodaeth a thystiolaeth benodol ar gyfer ardal Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd (neu ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd pan fo gwybodaeth benodol ar gael). Er mwyn sefydlu strategaeth dai sydd yn addas a pherthnasol bydd y papur yn asesu ac yn ystyried amrywiaeth eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar y farchnad dai leol e.e. tueddiadau o ran maint y boblogaeth, nifer a maint aelwydydd, nodweddion demograffig y boblogaeth a thueddiadau o ran cyfradd datblygu tai.

1.4 Bydd y papur hwn yn edrych ar y sefyllfa gyffredinol yn ardal y Cynllun ac yn asesu anghenion ardaloedd penodol (e.e. wardiau) o fewn ardal awdurdodau cynllunio Gwynedd ac Ynys Môn. Ar gyfer Ynys Môn, defnyddir gwybodaeth ar gyfer y wardiau a oedd yn amlwg cyn ad-drefnu'r wardiau yn 2013

1.5 Tra bod ymdrech wedi ei wneud i gasglu gwybodaeth benodol ar gyfer ardal cynllunio Gwynedd h.y. y tu allan i ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri, nid oedd hyn bob tro'n bosib. Mae'n bwysig nodi felly bod peth o'r wybodaeth ystadegol a gyflwynir yn y papur hwn yn berthnasol ar gyfer ardal Cyngor Gwynedd yn ei gyfanrwydd h.y. gan gynnwys yr ardal sydd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

# 2. CYD-DESTUN POLISI

## 2.1 CENEDLAETHOL

***Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8), Ionawr 2016 – Llywodraeth Cymru***

2.1.1 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) sydd yn gosod y sail a'r cyd-destun ar gyfer polisïau cynllunio a phenderfyniadau ar geisiadau cynllunio yng Nghymru. Mae PCC wedi ei gefnogi gan gyfres o Nodiadau Cynllunio Technegol (NCT) sydd yn ymdrin â phynciau penodol.

2.1.2 Amlinellai PCC weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer tai. Nodai fod cartrefi yn rhan allweddol o fywydau pobl. Mae'n effeithio ar iechyd a lles, ansawdd bywydau a'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl. Dull gweithredu Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y Strategaeth Dai Genedlaethol, yw (paragraff 9.1.1):

- darparu mwy o'r math cywir o dai a chynnig mwy o ddewis;
- gwella tai a chymunedau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni tai newydd a thai presennol;
- gwella'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael i ymdrin â materion sy'n ymwneud â thai, yn enwedig ar gyfer pobl sy'n agored i niwed a phobl o grwpiau lleiafrifol.

2.1.3 Mae PCC yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol, wrth gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer tai newydd, ystyried y materion canlynol (para. 9.2.1):

- Pobl, Lleoedd, Dyfodol - Cynllun Gofodol Cymru;
- Cod Ymarfer Statudol ar Gydraddoldeb Hiliol mewn Tai - Cymru;
- Amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru o aelwydydd;
- Strategaethau tai lleol;
- Strategaethau cymunedol;
- Gofynion tai lleol (yr angen a'r galw);
- Anghenion yr economi leol a chenedlaethol;
- Ystyriaethau cymdeithasol (gan gynnwys anghenion nas diwallwyd);
- Gallu'r ardal o ran ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol (gan gynnwys yr iaith Gymraeg) i ymdopi â mwy o dai;
- Goblygiadau amgylcheddol, gan gynnwys safonau adeiladau cynaliadwy, y defnydd a wneir o ynni, allyriadau nwyon tŷ gwydr a pherygl o lifogydd;
- Capasiti'r seilwaith bresennol neu'r seilwaith arfaethedig; ac
- Yr angen i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n achosi'r newid yn yr hinsawdd a goblygiadau'r newid hwnnw.

2.1.4 Nodai paragraff 9.2.2 y bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar yr anghenion o ran tai yn eu hardaloedd dros gyfnod y cynllun. Nodir y bydd amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru o aelwydydd, a gyflwynir fesul awdurdod lleol, ynghyd â'r asesiad diweddaraf o'r Farchnad Dai Leol, yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y cynllun.

2.1.5 Dywed paragraff 9.2.4 o PCC fod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisïau i gwrdd â'r heriau a'r amgylchiadau hynny sy'n benodol i fannau neilltuol o fewn eu hardaloedd. Os oes angen i'r polisïau hyn wyro o'r polisïau cenedlaethol er mwyn diwallu anghenion penodol lleol am dai ar y farchnad agored (na chyfyngir fel rheol ar feddiannaeth), nodir y bydd angen i'r awdurdodau cynllunio lleol gyfiawnhau'r gwyriad hwnnw yn ofalus gyda thystiolaeth gadarn a phriodol. Gallai'r cyfiawnhad ymwneud â chyflenwad tir, effeithiau amgylcheddol neu gymdeithasol, neu gyfuniad o ffactorau. Gallai'r dystiolaeth gynnwys astudiaethau lleol megis y rheini sy'n rhan o'r sylfaen wybodaeth ar gyfer y cynllun datblygu.

2.1.6 Mae paragraff 9.2.14 o PCC yn nodi bod angen y gymuned am dai fforddiadwy yn ystyriaeth gynllunio berthnasol y mae'n briodol i'w hystyried wrth lunio polisïau'r cynllun datblygu. Bydd yr Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn sylfaen dystiolaeth sy'n ategu polisïau i sicrhau tai fforddiadwy drwy'r system cynllunio defnydd tir.

***Polisi Cynllunio Cymru – Nodyn Cyngor Technegol 1: "Cyd-astudiaethau argaeledd tir ar gyfer tai", Llywodraeth Cymru (Ionawr 2015)***

2.1.7 Nodir mai'r Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai yw'r ffordd i awdurdodau cynllunio lleol ddangos bod ganddynt gyflenwad o dir ar gyfer tai am 5 mlynedd, drwy ddarparu datganiad am y tir sydd ar gael at ddibenion cynllunio datblygiadau a rheoli datblygu (para. 2.2).

2.1.8 Fe nodir mai un o brif ofynion polisi cynllunio Llywodraeth Cymru yw bod yn rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol sicrhau bod digon o dir sy'n barod i'w ddatblygu ar gael er mwyn darparu cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai (para. 2.1).

2.1.9 Nodir (para. 2.4) fod y Cyd-astudiaethau yn ddarnau pwysig iawn o dystiolaeth y dylid eu defnyddio wrth lunio strategaethau, polisïau a dynodiadau'r CDLl, ac yn ffordd bwysig o fonitro effeithiolrwydd y CDLl.

***Polisi Cynllunio Cymru – Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a thai fforddiadwy, Llywodraeth Cymru (Mehefin 2006)***

2.1.10 Diben y Nodyn Cyngor Technegol hwn yw cynnig canllawiau ymarferol ar rôl y system gynllunio wrth ddarparu tai fforddiadwy. Pwysleisir yr angen i gydweithio, ynghyd â'r gofyniad sydd ar yr awdurdodau tai a'r awdurdodau cynllunio i gynnal asesiadau o'r farchnad dai leol ar y cyd â'r rhanddeiliaid allweddol (para. 3.1).

2.1.11 Nodir (paragraff 3.2) ei bod yn ofynnol i'r awdurdodau cynllunio lleol:

- Gynnwys targed ar gyfer tai fforddiadwy yn y cynllun datblygu sy'n seiliedig ar yr angen am dai a nodir yn yr asesiad o'r farchnad dai leol;
- Ddangos sut y bwriedir cyrraedd y targed drwy ddefnyddio polisïau a nodwyd; a
- Monitro faint o dai fforddiadwy a ddarperir o'u cymharu â'r targed (drwy gyfrwng yr Adroddiad Blynyddol ar Fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol), a lle bo angen, cymryd camau i sicrhau bod y targed hwnnw'n cael ei gyrraedd.

***Polisi Cynllunio Cymru – Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy, Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2010)***

2.1.12 Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn amlygu'r rôl allweddol sydd gan y system gynllunio o ran sefydlu cymunedau gwledig cynaliadwy. Gallai sicrhau bod digon o dir priodol ar gael (os yw'n cael ei ddarparu yn y mannau cywir ac ar yr adegau cywir) i ddarparu cartrefi a chyfleoedd gwaith i bobl leol, gan helpu drwy hynny i gynnal gwasanaethau gwledig.

2.1.13 Nodir (paragraff 2.2.1) ei bod yn bosib datblygu mewn nifer o gymunedau gwledig, yn enwedig felly i ddiwallu anghenion lleol. Yn benodol, dylai awdurdodau cynllunio gefnogi datblygiadau a fyddai'n helpu i sicrhau cydbwysedd gwell rhwng tai a gwaith, gan annog pobl i fyw a gweithio yn yr un ardal. Byddai'n rhaid, fodd bynnag, ystyried effaith datblygiadau arfaethedig ar gynaliadwyedd y gymuned.

2.1.14 Mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig ble mae yna gyfyngiadau amgylcheddol neu ystyriaethau cymdeithasol neu ddiwylliannol, nodir (para. 4.1.2) ei bod yn bosib y bydd awdurdodau cynllunio am roi blaenoriaeth i dai fforddiadwy er mwyn diwallu anghenion lleol. Gallant wneud hyn drwy glustnodi clystyrau a phentrefi llai ble bydd datblygiadau tai yn y dyfodol yn gyfyngedig i rai fforddiadwy ar gyfer angen lleol. Dylid darparu ar gyfer yr angen am dai fforddiadwy cyffredinol a thai'r farchnad agored mewn mannau eraill o fewn ardal yr awdurdod cynllunio.

2.1.15 Mewn ardaloedd sydd o dan bwysau oherwydd prinder tai, nodir y gellir clustnodi safleoedd bach ar gyfer tai fforddiadwy'n unig, yn enwedig felly ble nad yw tai a adeiladwyd yn y gorffennol wedi diwallu anghenion y gymuned e.e. lle'r oedd y tai'n rhy fawr neu'n rhy ddrud.

***Local Housing Market Assessment Guide (Saesneg yn unig), Llywodraeth Cymru, Mawrth 2006***

2.1.16 Amcan y canllaw hwn ydyw i sicrhau bod awdurdodau lleol yn datblygu dealltwriaeth o lefel a natur y galw a'r angen am dai yn eu marchnadoedd tai lleol. Mae'n sefydlu sut y gall awdurdodau lleol asesu'r angen am dai ynghyd a'r galw a ddaw o'u cymunedau. Mae'r canllaw yn galluogi awdurdodau i sefydlu ffigyrau ar gyfer y nifer o unedau preswyl ychwanegol sydd eu hangen mewn ardal ac i ystyried beth y golygai hyn yn nhermau'r ddarpariaeth o dai marchnad agored a thai fforddiadwy.

***Getting started with your Local Housing Market Assessment (Saesneg yn unig), Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2014***

2.1.17 Prif amcanion y canllaw hwn yw i:

- Gefnogi (ond nid i gymryd lle) canllaw 2006 Llywodraeth Cynulliad Cymru (a nodir uchod)
- Darparu man cychwyn ar gyfer cyfrifiad meintiol o anghenion tai ac asesiad o'r farchnad dai leol
- Cyflwyno mwy o gysondeb mewn dulliau ar draws Cymru wrth gydnabod gwahaniaethau rhwng marchnadoedd tai a mynediad i ffynonellau data
- Hwyluso awdurdodau lleol i ymgymryd â Astudiaeth Marchnad Tai Lleol eu hunain a chynyddu capasiti a sgiliau lleol
- Darparu man cychwyn ar gyfer datblygu dealltwriaeth fwy soffistigedig o farchnadoedd tai

***Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru, Llywodraeth Cymru (Diweddariad 2008)***

2.1.18 Diben Cynllun Gofodol Cymru yw sicrhau bod yr hyn a wneir yn y sector gyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru yn integredig ac yn gynaliadwy, a bod y camau gweithredu o fewn ardal yn ategu ei gilydd ac yn symud ar y cyd at weledigaeth a rennir ar gyfer Cymru gyfan ynghyd a gwahanol ranbarthau o'r wlad. Mae rôl, diben ac egwyddorion y Cynllun Gofodol (agenda 20 mlynedd) fel y ganlyn:

- Sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud gan ystyried eu heffaith y tu hwnt i ffiniau uniongyrchol sectoraidd neu weinyddol a bod gwerthoedd craidd datblygu cynaliadwy yn llywio popeth a wneir;
- Gosod y cyd-destun ar gyfer cynllunio lleol a chymunedol;
- Dylanwadu ar ble y mae Llywodraeth Cymru yn gwario arian drwy ddealltwriaeth o rolau lleoedd a'r rhyngweithio rhyngddynt;
- Darparu sail dystiolaeth glir ar gyfer y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ddatblygu polisïau a chamau gweithredu.

2.1.19 Un o'r egwyddorion mae'r Cynllun Gofodol ei hyrwyddo yw 'Creu Cymunedau Cynaliadwy'. Yn hyn o beth, nodir bod diffyg tai o safon yn effeithio ar iechyd a lles pobl ac yn dylanwadu ar eu cyfleoedd hirdymor mewn bywyd. Bydd yn her darparu cartrefi ar gyfer y twf disgwyliedig mewn poblogaeth (rhagamcanion poblogaeth sail-2008 Llywodraeth y Cynulliad yn nodi y bydd twf o 357,000 o bobl ledled Cymru rhwng 2008 a 2033). Nodir bod cynnal amrywiaeth o dai o safbwynt eu daliadaeth a'u maint yn bwysig ar gyfer sicrhau cymunedau cytbwys. Nodwyd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo (fel rhan o gytundeb 'Cymru'n Un') i gyflenwi 6,500 o dai fforddiadwy newydd yn y cyfnod rhwng 2007-2011.

2.1.20 Nodai'r Cynllun Gofodol mai'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer twf tai newydd yw:

- Dylent fod yn gysylltiedig â nodau trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys rhwydweithiau cerdded a beicio;
- Dylid ystyried cyfyngiadau amgylcheddol, gan gynnwys y perygl o lifogydd; a
- Dylid cyrraedd safonau uchel o ran effeithlonrwydd ynni.

2.1.21 Mae'r Cynllun Gofodol hefyd yn datgan y dylai tai ger nodau trafnidiaeth gyhoeddus gael eu datblygu ar lefelau dwysedd sydd yn uwch na'r hyn sydd yn amlwg ar hyn o bryd er mwyn hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a chynyddu cyfleoedd ar gyfer systemau gwres a phŵer cyfun. Nodir hefyd bod datblygiadau priodol mewn aneddiadau llai ac ardaloedd gwledig yn hanfodol i gefnogi datblygiad cymunedau mwy gwledig.

2.1.22 Mae'r Cynllun Gofodol yn rhannu Cymru i wahanol ranbarthau. Mae Ynys Môn ynghyd â rhan ogleddol Gwynedd o fewn rhanbarth 'Gogledd - Orllewin Cymru', tra bod de Gwynedd yn ffurfio rhan o ranbarth 'Canol Cymru'.

2.1.23 Gweledigaeth y Cynllun ar gyfer rhanbarth Gogledd-Orllewin Cymru yw:

*"Amgylchedd ffisegol a naturiol o ansawdd uchel yn cynnal economi sy'n seiliedig ar wybodaeth a diwylliant, a fydd yn gymorth i'r ardal gynnal ei chymeriad unigryw, i gadw a denu pobl ifanc yn ôl, ac i gynnal yr iaith Gymraeg".*

2.1.24 Wrth geisio gwireddu'r weledigaeth hon, mae'r Cynllun Gofodol yn cydnabod pwysigrwydd y clwstwr o drefi o amgylch Afon Menai (y cyfeirir ato fel ffocws Menai) fel ffocws cadarn ar gyfer gweithgarwch economaidd. Nodir, yn ogystal, bod dau ffocws eilaidd sef 'Caergybi' a 'Porthmadog-Pwllheli-Penrhyndeudraeth' yn aneddiadau twf allweddol cydnabyddedig sy'n darparu gwasanaethau a chyfleon cyflogaeth i gefnogi a lledaenu ffyniant i'r ardaloedd o'u cwmpas.

2.1.25 Nodai'r Cynllun Gofodol y datganiad canlynol mewn perthynas â'r maes tai yng Ngogledd-Orllewin Cymru:

*"Er mwyn sicrhau ein bod yn creu lleoedd cynaliadwy gyda chymunedau dwyieithog bywiog ar gyfer y gweithlu presennol, yn ogystal â denu pobl ifanc sydd â sgiliau yn ôl i ardal Gogledd Orllewin Cymru, ymhlith ymyriadau eraill rhaid i ni wneud yn siŵr bod digon o dai fforddiadwy o safon ar gael iddynt mewn ardaloedd trefol a gwledig".*

2.1.26 Gweledigaeth y Cynllun Gofodol ar gyfer rhanbarth Canol Cymru yw:

*"Safon byw a gweithio uchel mewn aneddiadau llai eu maint o fewn amgylchedd gwych, gan ddarparu modelau deinamig o ddatblygu gwledig cynaliadwy, gan symud pob sector i weithgareddau sy'n cynnig gwerth ychwanegol".*

2.1.27 Nodai'r Cynllun Gofodol y gall demograffeg y rhanbarth gael ei nodweddu gan gyfran gynyddol o bobl hŷn ac mae prinder tai fforddiadwy'n cynnig nifer o heriau mewn perthynas â gallu'r rhanbarth i gadw neu ddenu pobl ifanc. Nodir yn ogystal bod amddifadedd tai yn parhau i effeithio ar lawer o gymunedau'r rhanbarth. Yn benodol nodir mai "blaenoriaeth allweddol yw sicrhau mynediad at dai fforddiadwy (i'w prynu neu eu rhentu) mewn lleoliadau sy'n gyfleus ar gyfer gwaith a gwasanaethau lleol a thrwy sicrhau bod amrediad o wahanol fathau o dai ar gael mewn dewis o amgylcheddau ansawdd uchel".

***Y Strategaeth Dai Genedlaethol – Gwella bywydau a chymunedau: Cartrefi yng Nghymru, Llywodraeth Cymru (Ebrill 2010)***

2.1.28 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r sialensiau o ran bodloni'r galw am dai yng Nghymru, y blaenoriaethau ynghyd â'r camau y dylid eu cymryd. Mae'n tynnu ynghyd manylion nifer o strategaethau sydd yn ymwneud â cheisio bodloni anghenion tai, digartrefedd a gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai.

2.1.29 Mae'r ddogfen yn amlygu nifer o sialensiau sydd angen ymdrin â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys y ffaith fod y galw am dai yn parhau i fod yn fwy na'r cyflenwad, bod y wasgfa gredyd wedi cynyddu'r galw am dai fforddiadwy, poblogaeth sy'n

heneiddio, oedran ac ansawdd y stoc dai cymdeithasol a bod y cyllid cyhoeddus yn dynn iawn.

2.1.30 Mae'r dull gweithredu o ran y ddogfen hon yn ymwneud â gwella bywydau pobl. Nodir, er enghraifft, y bydd yn darparu rhagor o dai o'r math iawn ynghyd a chynnig mwy o ddewis. Dylid gwario'r cyllid cyhoeddus sydd ar gael yn ddoeth ac mae cydweithredu agos rhwng sefydliadau'n hynod o bwysig.

2.1.31 Nodir bod "buddsoddi mewn gwasanaethau cymorth tai a thai-gysylltiedig nid yn unig yn bodloni anghenion pobl am gartref. Yn ei sgil daw manteision i'r economi, i swyddi a chyfleoedd hyfforddiant, i iechyd a lles pobl, ac i'r amgylchedd. Mae hefyd yn helpu i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau ac mae'n agor cyfleoedd newydd i bobl".

***Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023, Llywodraeth Cymru (2013)***

2.1.32 Yr her sy'n wynebu Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2013-23 yw:

- creu Cymru lle mae cyfranogiad llawn o fewn cyrraedd pob person hyˆn a lle mae ei gyfraniad yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi;
- datblygu cymunedau sy'n ystyriol o oedran tra'n sicrhau bod gan bobl hyˆn yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i fyw;
- sicrhau bod cenedlaethau o bobl hyˆn yn y dyfodol yn barod ar gyfer cyfnod hwyrach yn eu bywydau drwy eu hannog i gydnabod y newidiadau a'r gofynion y gallant eu hwynebu a pharatoi ar gyfer hynny ymlaen llaw.

2.1.33 Yn nhermau tai, mae'r strategaeth yn nodi mai'r amcan yw bod "pobl hŷn yn gallu cael gafael ar dai a gwasanaethau sy'n cefnogi eu hanghenion ac yn hyrwyddo annibyniaeth".

***Y Pecyn Cymorth Tai Fforddiadwy, Llywodraeth Cymru (Mehefin 2006)***

2.1.34 Cynlluniwyd y pecyn cymorth hwn i gynorthwyo awdurdodau lleol ac eraill i ddiwallu anghenion tai fforddiadwy ar lawr gwlad (para. 2.6).

2.1.35 Mae'r pecyn yn ymdrin â'r agweddau canlynol:

- Y cyd-destun polisi cenedlaethol;
- Asesu gofynion tai;
- Datblygu strategaethau tai lleol;
- Y dulliau o ddarparu tai fforddiadwy;

- Gwaith hwyluswyr tai gwledig;
- Y defnydd o bwerau statudol wrth gydosod tir;
- Cynllunio tai cynaliadwy o ansawdd da.

***Canllaw Arferion Da ar Gartrefi Gwag, Llywodraeth Cymru (2010)***

2.1.36 Paratowyd y canllaw hwn i gynorthwyo awdurdodau lleol i baratoi strategaethau cartrefi gwag ac i ddatblygu dulliau effeithiol i fynd i'r afael â chartrefi gwag. Mae'n cynnig enghreifftiau o arferion da ynghyd â strategaethau effeithiol sydd ar waith ar hyn o bryd. Mae'r canllaw'n canolbwyntio ar gartrefi gwag yn y sector preifat gan fod cyfraddau eiddo gwag yn y sector tai cymdeithasol yn gymharol isel.

2.1.37 Nodir fod cartrefi gwag yn gallu achosi niwsans a phroblemau amgylcheddol. Gallant hefyd fod yn adnodd tai posib nad oes defnydd llawn yn cael ei wneud ohonynt. Gall ail-ddefnyddio cartrefi gwag gynyddu'r cyflenwad mewn ardaloedd lle mae prinder tai neu bwysau ar y cyflenwad presennol. Mae hynny felly'n gyfle i gyplysu cartrefi gwag addas gyda'r angen am dai.

2.1.38 Dylid edrych ar y problemau a'r cyfleoedd sy'n bodoli o fewn ardal awdurdodau lleol, gan ystyried y mannau hynny lle gallai cartrefi gwag helpu i leddfu'r angen am dai.

**MATERION SYDD YN DEILLIO O BOLISÏAU/CANLLAWIAU CENEDLAETHOL**

- Mae'n angenrheidiol asesu'r angen o fewn ardal y Cynllun am dai marchnad agored a thai fforddiadwy.
- Nodir pwysigrwydd amcanestyniadau aelwydydd cenedlaethol ac is-genedlaethol Llywodraeth Cymru (o ran asesu'r angen am dai) fel y man cychwyn ar gyfer adnabod beth yw'r angen tebygol am dai newydd.
- Mae'r cydastudiaethau argaeledd tir ar gyfer tai yn bwysig o ran sicrhau dealltwriaeth o lefel a natur y galw a'r angen am dai o fewn ardaloedd penodol.
- Mae'n hollbwysig sicrhau fod yna gyflenwad digonol o dir ar gyfer tai.
- Gellir datblygu polisïau i gwrdd â'r heriau a'r amgylchiadau hynny sy'n benodol i fannau neilltuol o fewn ardal y Cynllun. Os oes angen i'r polisïau hyn wyro o'r polisïau cenedlaethol er mwyn diwallu anghenion penodol lleol am dai ar y farchnad agored, bydd angen cyfiawnhau'r gwyriad hwnnw yn ofalus gyda thystiolaeth gadarn a phriodol.
- Y rôl sydd gan dai fforddiadwy mewn hybu cymunedau gwledig cynaliadwy.
- Ail-ddefnyddio cartrefi gwag yn fodd o gwrdd â pheth o'r angen am dai.

- Rhaid sicrhau cyflenwad digonol ac addas o unedau preswyl er mwyn cwrdd ag anghenion grwpiau penodol mewn cymdeithas e.e. pobl hŷn.
- Mae gan Gynllun Gofodol Cymru rôl bwysig wrth lunio strategaeth dai'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n bwysig ystyried yr effaith ar ardal sydd y tu hwnt i ffiniau ardal y Cynllun a materion sydd yn ehangach na'r rhai hynny sy'n ymdrin â'r maes tai yn uniongyrchol.
- Amlygir hefyd y rôl bwysig a roddir yn y Cynllun Gofodol i glystyrau penodol (h.y. o amgylch Afon Menai, Caergybi a Porthmadog-Pwllheli-Penrhyndeudraeth) ac anheddau twf allweddol.
- Mae diffyg tai o safon yn effeithio ar iechyd a lles ac yn dylanwadu ar gyfleoedd hirdymor mewn bywyd. Mae tai fforddiadwy yn cael ei amlygu fel mater pwysig o fewn y Cynllun Gofodol gan ei fod yn fodd o greu lleoedd cynaliadwy gyda chymunedau dwyieithog.

## 2.2 RHANBARTHOL

***Asesiad Marchnad Dai Lleol Gogledd Orllewin Cymru***

2.2.1 Mae asesiad o'r farchnad dai leol wedi ei gynnal ar y cyd gan awdurdodau cynllunio Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Pharc Cenedlaethol Eryri mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor.

2.2.2 Mae gwaith wedi ei gynnal ar baratoi Asesiad Marchnad Dai Leol unigol ar gyfer Ynys Môn, tra bo Cyngor Gwynedd wedi paratoi gwybodaeth gychwynnol ar ffurf Astudiaeth Anghenion Tai.

2.2.3 Mae'r Asesiad Marchnad Dai Lleol Gogledd Orllewin Cymru yn ystyried:

- Patrymau adleoli gan denantiaid a pherchenogion cartrefi mewn ardaloedd lleol ac i ba raddau y maent yn hunangynhwysol;
- Patrymau teithio i'r gwaith a dadansoddiad o'r berthynas rhwng man gwaith a chartref;
- Ardaloedd sydd â galw uchel ac isel am dai;
- Tai fforddiadwy e.e. er mwyn cynorthwyo i gadw pobl ifanc yn y rhanbarth.

2.2.4 Cyhoeddwyd drafft ymgynghorol o Adroddiad Gwaelodlin ar gyfer yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yng Ngogledd Orllewin Cymru ym mis Mawrth 2008 h.y. asesiad llinell sylfaen o'r farchnad dai lleol yng Ngogledd Orllewin Cymru. Tra bod yr adroddiad hwn yn ystyried yr angen a'r galw am dai yn y rhanbarth, nodir nad yw'n asesiad llawn ond yn hytrach yn lwyfan ar gyfer gwaith pellach i'r dyfodol.

2.2.5 Yn y casgliadau i'r Adroddiad hwn, fe awgrymir y prif yrwyr ar gyfer marchnadoedd tai drwy Ogledd Orllewin Cymru. Mae'r gyrwyr hyn yn cynnwys:

- Newid demograffig yn adlewyrchu'r berthynas rhwng newid naturiol yn nifer trigolion yr ardal yn erbyn ymfudo net i'r ardal; effeithiau allfudo; strwythur y boblogaeth leol sy'n heneiddio; a'r symudiad tuag at niferoedd cynyddol o aelwydydd person sengl a'r pwysau y mae hyn yn ei roi ar gyflenwad y farchnad dai.
- Bydd economi'r ardal yn agored i nifer o newidiadau a bydd yn derbyn cymorth ariannol cydgyfeirio o Ewrop am y blynyddoedd i ddod. Rhagwelir y bydd y newidiadau yn y sectorau economaidd lleol yn effeithio ar gadernid rhai marchnadoedd tai lleol. Mae newid demograffig hefyd yn effeithio ar y boblogaeth sydd o oed gweithio.

2.2.6 Mae tri ar ddeg o ardaloedd marchnad dai wedi eu hadnabod yn rhanbarth Gogledd Orllewin Cymru. Tra bod rhai o'r ardaloedd hyn wedi eu lleoli yn eu cyfanrwydd o fewn ffiniau un awdurdod (e.e. Llŷn yng Ngwynedd), mae rhai o'r ardaloedd eraill yn draws ffiniol (e.e. ardal marchnad dai Menai - o fewn Gwynedd ac Ynys Môn). Yn rhannol neu yn eu cyfanrwydd, mae yna 8 ardal marchnad tai yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

2.2.7 Nodai'r Adroddiad Gwaelodlin bod yna nifer o sialensiau o bwys yn wynebu marchnadoedd tai Gogledd Orllewin Cymru. Maent yn gysylltiedig â materion o ran fforddiadwyedd a chyflenwad a chyflwr yr economi yn y dyfodol. Nodir bod sialens hefyd yn bodoli mewn perthynas â diwylliant y system gynllunio a'i allu i sicrhau'r newidiadau angenrheidiol mewn marchnadoedd tai.

**Asesiad Marchnad Dai Lleol Ynys Môn (2013)**

2.2.8 Mae'r adroddiad Asesiad Marchnad Dai Lleol hwn yn ddadansoddiad cynhwysfawr o Farchnad Dai Ynys Môn. Mae'n cynnwys adolygiad o'r sefyllfa leol gyfredol, trafodaeth ynglŷn â deinameg y farchnad dai ac asesiad o'r anghenion tai. Yn ogystal ag edrych ar anghenion y boblogaeth leol bresennol, mae'r astudiaeth hon yn ystyried yr anghenion hirdymor ar gyfer tai yn Ynys Môn.

2.2.9 Mae'r adroddiad yn ystyried y canlynol:

- *Llety sydd ei angen i ddarparu balans yn y farchnad dai yn yr hirdymor:* Mae hyn yn cyfeirio at ddarparu'r math cywir o lety i gyd-fynd â newidiadau yn strwythur oedran y boblogaeth a'r math o aelwydydd. Mae hefyd yn asesu'r gymysgedd o ddeiliadaeth a ddylid ei ddarparu a maint yr unedau tai sydd eu hangen o fewn pob deiliadaeth.

- *Llety sydd ei angen i ddarparu balans yn y farchnad dai yn y byrdymor:* Mae hyn yn nodi'r angen net ar gyfer tai fforddiadwy ar gyfer y 5 mlynedd ddilynol ac yn cynnig rhai atebion i ddatrys yr anghenion tai.

**Astudiaeth Anghenion Tai Gwynedd (2014)**

2.2.10 Mae'r astudiaeth hon wedi ei rannu i'r tri rhan canlynol:

i. Anghenion a Chyflenwad Tai Presennol
ii. Cyfrifo Anghenion Tai Newydd
iii. Dod a pob dim at ei gilydd

2.2.11 Mae'r ffigwr anghenion tai wedi ei ddosrannu yn erbyn yr ardaloedd marchnad canlynol yng Ngwynedd (fel nodwyd yn Asesiad Marchnad Dai Lleol Gogledd Orllewin Cymru):

- LHMA 03 - Menai (Gwynedd)
- LHMA 04 - Caernarfon
- LHMA 05 – Pen Llŷn
- LHMA 06 - Porthmadog
- LHMA 07 – Arfordir Deheuol Gwynedd
- LHMA 08 - Machynlleth
- LHMA 09 - Bala

2.2.12 Mae'r adroddiad yn nodi bod yr Astudiaeth Anghenion Tai yn giplun o'r farchnad dai ar amser penodol sydd yn cael ei ragamcanu ymlaen 5 mlynedd.

***Cau'r Bwlch: Strategaeth Ddatblygu Gofodol Gogledd Orllewin Cymru, (Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth Cymru) – Gorffennaf 2009***

2.2.13 Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar gynnwys Cynllun Gofodol Cymru ac yn ei ddatblygu ymhellach. Mae'n amlinellu sut caiff polisïau a bwriadau bras Cynllun Gofodol Cymru eu cyflawni yng Ngogledd Orllewin Cymru gan ddarparu'r sail ar gyfer ymateb i heriau lleol a chyfleoedd newydd.

2.2.14 O'r 4 thema benodol a gyflwynir, 'Llefydd: datblygu gofodol' sydd yn fwyaf perthnasol o ran materion tai. Un o'r agweddau a nodir o ran 'yr angen' yn hyn o beth yw: "Ymateb i her allfudo'r ifanc a phoblogaeth sy'n heneiddio gan sicrhau cyfleoedd i bobl fyw a gweithio ar draws Gogledd Orllewin Cymru, yn arbennig yng nghefn gwlad".

2.2.15 Y nod, o safbwynt y thema hon, yw "lledu cyfleoedd ar draws Gogledd Orllewin Cymru a lleihau'r gwahaniaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn arbennig rhwng ardaloedd gwledig a threfol". Dau o'r 'ymatebion' a nodir o ran hyn yw:

- Cynllunio i wneud trefi ar draws Gogledd Orllewin Cymru yn fyrlymus a chyfoes gan sicrhau eu bod yn fannau deniadol i fyw, gweithio, mentro a hamddena; a
- Dosbarthu a lledu cyfleoedd tu hwnt i'r trefi, gan ddatblygu amrywiaeth o unedau byw, tai fforddiadwy a safleoedd gwaith addas yng nghefn gwlad.

2.2.16 Mae'r strategaeth yn nodi targedau penodol mewn perthynas â phrif ddangosyddion detholedig e.e. 'y boblogaeth mewn oed gwaith', 'amddifadedd cyffredinol'.

***North Wales Regional Housing Apportionment, Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru (23ain Hydref, 2009)***

2.2.17 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno datganiad ar y cyd ynghyd â Chofnod o Ddealltwriaeth rhwng Awdurdodau Cynllunio Gogledd Cymru o safbwynt dosrannu rhagamcanion aelwydydd Llywodraeth y Cynulliad fel y sail ar gyfer hysbysu'r gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol.

2.2.18 Ceir datganiad a chytundeb mewn perthynas â'r canllawiau a nodwyd yn Natganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog (MIPPS) 01/2006 ('Tai') o safbwynt 'asesu anghenion tai' mewn cynlluniau datblygu (sydd bellach yn ffurfio rhan o Bolisi Cynllunio Cymru - Argraffiad 5). Mae'r datganiad yn nodi pryderon arwyddocaol ynglŷn â rhagamcanion aelwydydd sail-2006, yn benodol felly o ran y dull a'r tybiaethau a ddefnyddir i'w cyfrifo o'u cymharu â rhagamcanion blaenorol. Nodir fod hyn wedi achosi cynnydd arwyddocaol mewn ffigyrau tueddiad. Yn benodol, mae'r datganiad yn cwestiynu pa mor ddibynadwy yw'r data a ddefnyddiwyd mewn perthynas â chyfrifo tueddiadau mudo.

2.2.19 Nodir bod y Cofnod o Ddealltwriaeth (dyddiedig Rhagfyr 2008) wedi ei seilio ar ragamcanion aelwydydd sail-2003 Llywodraeth Cymru. Mae'r Gytundeb yn cadarnhau dosraniad tai'r dyfodol i bob awdurdod cynllunio lleol, nid fel targed, ond yn hytrach fel hypothesis gweithredol er mwyn darparu cyd-destun rhanbarthol ar gyfer y gwaith o baratoi'r Cynlluniau Datblygu Lleol.

**MATERION SYDD YN DEILLIO O BOLISÏAU/CANLLAWIAU RHANBARTHOL**

- Mae Asesiad Marchnad Dai Lleol Gogledd Orllewin Cymru yn fodd o sefydlu'r anghenion tai ar draws y rhanbarth gyfan. Mae hyn yn fuddiol o ran ystyried effaith y Cynllun Datblygu Lleol ar yr ardal ehangach (fel sydd yn cael ei annog yn y Cynllun Gofodol). Mae'r "North Wales Regional Housing Apportionment" hefyd yn nodi pwysigrwydd cyd-weithio yn y maes hwn.
- Mae gwaith pellach wedi ei wneud i sefydlu'r anghenion tai yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
- Mae 8 ardal marchnad tai penodol wedi ei hadnabod yng Ngwynedd ac Ynys Môn (unai wedi eu lleoli yn gyfan neu yn rhannol o fewn ardal y Cynllun). Mae nifer o sialensiau yn wynebu'r marchnadoedd tai hyn, gan gynnwys materion yn gysylltiedig â materion o ran fforddiadwyedd, cyflenwad a chyflwr yr economi yn y dyfodol.
- Noder pwysigrwydd tai o ran hybu bywiogrwydd canolfannau o fewn ardal y Cynllun ac er mwyn dosbarthu a lledaenu cyfleoedd i ardaloedd yng nghefn gwlad.

## 2.3 LLEOL

***Cryfhau Cymunedau yng Ngwynedd ac Ynys Môn – Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd 2013-17***

2.3.1 Diben y Cynllun hwn yw gweithio ynghyd er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol dros gyfnod o 12 mlynedd. Mae'r Cynllun yn amlinellu'r weledigaeth a'r camau blaenoriaeth ar gyfer y 4 blynedd gyntaf.

2.3.2 Mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â materion cymhleth na fyddai modd i un sefydliad eu datrys yn gweithio ar ei ben ei hun, felly cafodd y cynllun ei greu mewn partneriaeth, gan gymryd mewnbwn gan bartneriaid, defnyddwyr gwasanaeth, cymunedau a thrigolion.

2.3.3 Nododd arolygon preswylwyr, a oedd yn darparu mewnbwn i'r broses o asesu beth oedd y ffactorau pwysicaf er mwyn gwella bywyd yn y ddwy sir, y ffactorau canlynol:

- swyddi a chyfleoedd gwaith
- gwasanaethau iechyd
- lefelau isel o droseddu
- cyfleoedd addysg
- mynd i'r afael â thlodi
- tai fforddiadwy

- cefnogi pobl sy'n agored i niwed

2.3.4 Y weledigaeth yw: "*Gweithio gyda'n gilydd i Gryfhau cymunedau Gwynedd ac Ynys Môn".*

2.3.5 Y brif nod yw: "*Yn ystod y 10-15 mlynedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar wneud Gwynedd ac Ynys Môn yn llefydd iach, diogel a llewyrchus i fyw a gweithio ynddynt".*

2.3.6 Nodir mai un o'r agweddau sydd angen cael ei gyflawni yw "Bod pobl yn Ynys Môn a Gwynedd yn byw mewn tai diogel priodol mewn cymunedau llewyrchus a chydlynol". Nodir y bwriad i wneud y canlynol i gyflawni hyn:

- Cynyddu'r cyflenwad - darparu tai sy'n fwy fforddiadwy, yn fwy priodol ar gyfer tueddiadau demograffig sy'n newid, gan wneud gwell defnydd o'n perthynas â'r sector rhentu preifat i ddiwallu anghenion cynyddol, a dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd
- Ansawdd a gwelliant - gwella ansawdd llety sector preifat
- Lliniaru effaith diwygio'r gyfundrefn les - gwrthdlodi, mynd i'r afael ag anghenion sy'n amlygu eu hunain gogyfer â llety llai neu lety a rennir
- Gweithio ar y cyd gyda chymunedau i gyflawni camau gweithredu o ran adfywio tai ac adfywio cymunedol; gan gynnwys cael pobl i fyw o'r newydd mewn eiddo gwag mewn ardaloedd a dargedwyd a datblygu mannau cyhoeddus sy'n ddiogel, yn ddeniadol ac sy'n annog rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniad cymunedol.
- Galluogi cyflenwad o dai gyda chefnogaeth sy'n ymateb i anghenion grwpiau dynodedig sy'n agored i niwed.
- Ystyried iechyd a datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu pob datblygiad cynllunio, polisi a strategaeth i annog a hyrwyddo amgylcheddau ac ymddygiad iach a chynaliadwy.
- Rhoi cefnogaeth i gymunedau ddod yn fwy cynaliadwy. Er enghraifft, drwy fod yn fwy effeithlon o ran ynni, drwy gynhyrchu llai o wastraff a defnyddio llai o adnoddau naturiol.

2.3.7 Er mwyn gwybod fod gwahaniaeth yn cael ei wneud o ran cefnogi pobl i fynd i'r afael â'u hanghenion tai ac i fyw mewn cymunedau cynaliadwy a llewyrchus fe ystyrir y wybodaeth ganlynol:

- Nifer yr eiddo gwag
- Yr angen am dai fforddiadwy.
- Nifer yr unedau tai (fforddiadwy a marchnad) a ddatblygwyd fesul blwyddyn.

- Canran (%) yr ymatebwyr a oedd yn fodlon â glendid eu cymuned
- Canran (%) yr ymatebwyr sy'n credu bod modd iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol

## GWYNEDD

***Strategaeth Partneriaeth Tai Gwynedd 2013-2017, Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid***

2.3.8 Mae'r Strategaeth yn nodi ystod o ymyraethau fydd yn helpu pobl allu cael mynediad i dai, gwella ansawdd tai presennol a'r gallu i ymateb i anghenion cymdeithas yn lleol. Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar yr hyn sydd yn realistig ond hefyd yn cydnabod bod angen edrych ar ddulliau newydd o weithio a modelau ariannu gwahanol i'r hyn sydd wedi bod mewn lle yn hanesyddol.

2.3.9 Y weledigaeth ar gyfer Strategaeth Tai Gwynedd:

- rhoi dewis i bobl allu byw mewn cartrefi sy'n addas ar eu cyfer o ran fforddiadwyedd a mathau gwahanol o ddaliadaeth
- Cyflwyno cynlluniau fydd yn helpu gwella effeithlonrwydd ynni yn y cartref a thrwy hynny fod yn rhagweithiol i leihau tlodi tanwydd
- Bod llety a gwasanaethau cefnogol yn cael eu cydlynu'n effeithiol er mwyn helpu pobl fregus
- Cydlynu rôl Strategol i faterion tai yng Ngwynedd

2.3.10 Nodir mai pwrpas cael Strategaeth Tai ydyw sicrhau bod swyddogaethau'r Cyngor a phartneriaid allweddol yn gweithio mewn unsain i:

- gyfrannu at farchnad dai lleol sy'n gweithio'n effeithlon
- datblygu ystod briodol o atebion i alluogi aelwydydd gael mynediad at dai addas a chynaliadwy.

***Strategaeth Tai Gwag 2009-2012, Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid (Hydref 2009)***

2.3.11 Mae'r Strategaeth Tai Gwag yn is-strategaeth sy'n gorwedd o dan brif Strategaeth Tai Lleol Gwynedd (2009 - 2012).

2.3.12 Mae prinder tai yn genedlaethol yn arwain at gynnydd mewn digartrefedd a phroblemau o ran fforddiadwyedd. Nod y strategaeth hon yw annog perchnogion eiddo gwag (gwag am fwy na chwe mis), a lle y bo'n briodol, rhoi rheidrwydd arnynt, i ryddhau potensial yr adnoddau hyn sy'n cael eu gwastraffu.

2.3.13 Nid oes cyflenwad digonol o dai i fodloni'r galw am eiddo ar draws pob deiliadaeth a dosbarth pris. Gall dychwelyd eiddo gwag yn ôl i ddefnydd wneud cyfraniad sylweddol i gynyddu'r cyflenwad cyffredinol a bodloni'r galw am dai.

***Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-17***

2.3.14 Y Cynllun Strategol yw prif gynllun Cyngor Gwynedd. Pwrpas y cynllun yw gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor hyd at 2017 a disgrifio'r hyn bydd y Cyngor yn ei wneud er mwyn eu cyflawni. Mae'r cynllun hefyd yn disgrifio'r gwahaniaeth mae'r Cyngor eisiau'i gyflawni i bobl Gwynedd.

2.3.15 Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer 2013 – 17 ydi: "*Cefnogi Pobl Gwynedd i Ffynnu Mewn Cyfnod Anodd".*

2.3.16 Bydd y Cyngor yn cefnogi pobl Gwynedd i ffynnu drwy ganolbwyntio ar gyfres o flaenoriaethau ar draws meysydd penodol fel y maes plant a phobl ifanc; y maes gofal; maes yr economi a maes yr amgylchedd.

2.3.17 Nodir mai un o'r blaenoriaethau o fewn y maes 'Amgylchedd' yw i 'Hybu Cyflenwad Addas o Dai ar gyfer Pobl Leol'.

***Strategaeth Llety a Phobl Hŷn, Cyngor Gwynedd***

2.3.18 Mae gweledigaeth y strategaeth hon fel y ganlyn:

> "Er mwyn i lefelau iechyd a lles pobl hŷn Gwynedd fod cystal â'r gorau yn Ewrop erbyn 2018, nod Gwynedd a'i bartneriaid yw darparu dewis o lety, gofal a chefnogaeth i bobl hŷn, fydd yn eu galluogi i gael cartref diogel, cysurus a chynaliadwy - mewn awyrgylch braf - sy'n addas ar gyfer eu cyfnod hwy mewn bywyd".

***Polisi Tai Sector Breifat 2014, Cyngor Gwynedd***

2.3.19 Gweledigaeth Gwasanaeth Dai Sector Breifat Cyngor Gwynedd yw "I wella'r cyflenwad o dai addas i gwrdd ag anghenion lleol ynghyd â safonau iechyd a lles drwy ddarparu ymyrraeth effeithiol yn y stoc dai sector breifat, ble yn rhesymol ac yn ymarferol, i gyfarch dirywiad strwythurol a pheryglon eraill i iechyd a diogelwch y preswylwyr".

2.3.20 Y chwe prif egwyddor arweiniol sydd yn cael eu hadlewyrchu yn y Polisi yw:

- Bod y mentrau yn darparu budd ar gyfer y nifer mwyaf o bobl
- Bod y mentrau yn cael effaith uniongyrchol a phositif ar iechyd.

- Bod mentrau yn cynhyrchu arbedion ynni ble'n bosib.
- Bod mentrau gyda'r potensial i ddenu ariannu ychwanegol.
- Bod mentrau yn cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a cynaliadwy.
- Bod mentrau yn uchafu cyfleoedd i gydweithio gyda phartneriaid, asiantaethau eraill, a Gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor.

***Strategaeth Adfywio Gwynedd 2007-2013 - Rhan o Fframwaith Adfywio Gwynedd, Cyngor Gwynedd***

2.3.21 Bwriad y strategaeth yw gosod cyd-destun clir ar gyfer ymdrechion adfywio yng Ngwynedd o 2007 hyd at 2013.

2.3.22 Y weledigaeth yw "datblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy sy'n iach, byrlymus a hyfyw, gyda'r hyder i fentro, a gyda'r awydd a'r gallu i gyfrannu eu hatebion eu hunain i'r heriau ac i fanteisio ar gyfleoedd newydd". Un o brif heriau a nodir yn y strategaeth yw "Cwrdd â'r angen lleol am dai, gan ystyried y nifer uchel o dai gwag o fewn y sir, a sicrhau bod cartrefi addas a fforddiadwy ar gael".

***Datganiad Cyflenwi Tai Fforddiadwy 2007 – 2011, Cyngor Gwynedd***

2.3.23 Nod cyffredinol Datganiad Cyflenwi Tai Fforddiadwy Cyngor Gwynedd yw rhoi datganiad swyddogol ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn bwriadu gwella'r modd y cyflenwir tai fforddiadwy fel rhan o'i swyddogaethau tai a chynllunio strategol o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn y cyfnod 2007-2011.

2.3.24 Bydd y Datganiad Cyflenwi yn adeiladu ar y sail gwaith a wnaed eisoes i gyflenwi tai fforddiadwy yng Ngwynedd. Ers 2004, mae Cyngor Gwynedd wedi gosod blaenoriaeth gorfforaethol i gynyddu'r nifer a gwella ansawdd tai fforddiadwy yn y Sir.

**<u>YNYS MÔN</u>**

***Strategaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn 2004-2015***

2.3.25 Gweledigaeth y Strategaeth yw i 'greu dyfodol llewyrchus i Ynys Môn trwy Adfywio Economaidd Cynaliadwy'. Ymysg nodweddion eraill, nodir, erbyn 2015, mai'r gobaith yw y bydd gan Ynys Môn:

- Economi ffyniannus a llewyrchus a chyfleon gwaith o ansawdd yn cael eu creu gan gyflogwyr arloesol gyda gwasanaethau cefnogol effeithiol a gweithlu sgilgar a hyblyg;
- Cymunedau bywiog a chynaliadwy o fewn economi wledig amrywiol;

- Trefydd llewyrchus a llwyddiannus yn gweithredu fel gyrwyr i dwf economaidd.

***Strategaeth Dai Leol Ynys Môn 2014-19***

2.3.26 Pwrpas y Strategaeth Dai 5 mlynedd yw cyflwyno gweledigaeth o welliant parhaus o ran tai a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai ar Ynys Môn. Mae'n disgrifio'r hyn a geisir ei gyflawni ym Môn erbyn 2019. Wrth osod y canlyniadau pwysicaf ar gyfer tai, fe ganiateir i adnoddau a ffrydiau gwaith gael eu cyfeirio tuag at y nodau hyn a diffinnir sut y bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i'w cyflawni.

2.3.27 Yn aml iawn, nodai'r Strategaeth, mai rhywbeth i'w gael yn y tymor canolig i'r tymor hir yw newid yn y sector tai. Dyna un rheswm pam ei bod o'r pwys mwyaf cael strategaeth dai sy'n edrych ymlaen bum mlynedd a thu draw i hynny. Wrth edrych ar batrymau tymor hir poblogaeth, yr economi a newid cymdeithasol mae modd dod i'r penderfyniadau cywir ar godi tai fforddiadwy, targedu arian cyhoeddus sydd ar gael ar gyfer tai a sefydlu'r partneriaethau cywir sydd i'w rhoi yn eu lle i ymateb i hyn.

2.3.28 Y prif ganlyniadau i'w cyflawni erbyn 2019 yw:

- Codi'r cartrefi cywir ar gyfer dyfodol yr ynys
- Stoc dai a chymunedau wedi'u gwella
- Atal argyfwng tai a chynyddu'r dewisiadau tai
- Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai
- Cartrefi ar gyfer byw'n hirach
- Gwireddu'n llawn y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach

***Strategaeth Cartrefi Gweigion (Gorffennaf 2010)***

2.3.29 Amcan y Strategaeth yw ceisio ailddefnyddio cartrefi sydd wedi bod yn wag am gyfnod o dros 6 mis er mwyn:

- Cynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy
- Gwella cynaliadwyedd cymunedau a'r amgylchedd adeiledig
- Gwneud y defnydd mwyaf posib o'r stoc dai cyfredol

2.3.30 Nodir fod y galw am gartrefi fforddiadwy yn parhau i gynyddu er y cwymp diweddar yn y farchnad. Nodai Strategaeth Dai Genedlaethol Llywodraeth Cymru, 'Gwella Bywydau a Chymunedau' (Ebrill 2010), fod y "'galw am dai yn parhau i fod yn uwch na'r cyflenwad sydd ar gael, rhaid cwrdd â'r galw trwy

adeiladu cartrefi newydd ac ailddefnyddio eiddo gweigion''. Fel blaenoriaeth dywed bod rhaid, "gwneud y defnydd gorau o gartrefi nad oes neb yn byw ynddynt".

***Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn 2013 – 2017***

2.3.31 Y blaenoriaethau sydd yn sail y Cynllun Corfforaethol yw:

- Cefnogi'r mwyaf bregus
- Datblygu'r economi
- Codi safonau a moderneiddio ein hysgolion

2.3.32 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn gwneud yr addewidion canlynol ar gyfer y cyfnod 2013-17:

- Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn
- Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
- Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion
- Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau tlodi
- Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd
- Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Bro
- Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

2.3.33 O ran yr amcan 'Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau tlodi' nodir mai'r nôd yw "sicrhau cyflenwad o gartrefi diogel a phriodol fel y gall unigolion gael y budd mwyaf ar gyfer mynediad i swyddi, hamdden, mwynderau ac addysg ac i gael y manteision cymdeithasol ac economaidd yn sgil hynny".

2.3.34 Mae'r Cyngor yn nodi y byddant yn gweithio'n galed i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol gyda phwyslais arbennig ar weithio gyda phartneriaid i gynllunio, datblygu a sefydlu mwy o opsiynau tai fforddiadwy ar gyfer ei ddinasyddion. Fodd bynnag, gyda chwmnïau ynni mawr byd-eang yn edrych ar fuddsoddi'n sylweddol yn Ynys Mon, maent yn nodi y byddant yn gweithio gyda landlordiaid yn y sector cymdeithasol / preifat er mwyn gwneud y gorau o nifer ac ansawdd y cartrefi ar gyfer contractwyr a cheisio lleihau unrhyw effeithiau negyddol y gallai'r mewnlifiad hwn ei gael ar bobl leol.

***Datganiad cyflenwi tai fforddiadwy 2007-11, Cyngor Sir Ynys Môn***

2.3.35 O ran amcan y Datganiad, nodir fod Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i gael y ddarpariaeth fwyaf bosib o gartrefi fforddiadwy i'w breswylwyr ac, yn y broses, creu cymunedau integredig cynaliadwy.

2.3.36 Mae'r Datganiad hwn yn ceisio gwneud y gofynion ar gyfer tai fforddiadwy yn glir, gan amlinellu dull rhesymol a phragmataidd o'u darparu. Bydd y Cyngor yn ceisio cydbwyso fforddiadwyedd o safbwynt y datblygwyr a'r prynwyr.

***Strategaeth Pobl Hŷn Ynys Môn 2007-2010***

2.3.37 O ran y maes tai, nodir fod y strategaeth hon yn edrych ar ddarparu gwasanaethau o safon fel bod pobl hŷn yn gallu byw mor annibynnol â phosib mewn tai sy'n addas a diogel.

2.3.38 Rhai o'r camau a nodir yn y strategaeth yw sicrhau fod pobl hŷn yn cael byw yn eu cartrefi am y cyfnod hwyaf posib; bod astudiaeth yn cael ei gynnal ar batrymau poblogaeth yr ardal, yn awr ac yn y dyfodol; a bod strategaeth glir yn cael ei ddatblygu ar gyfer darparu llety i bobl hŷn.

**Ynys Ynni - Cefndir**

2.3.39 Mae Rhaglen Ynys Ynni Môn yn ymdrech gyfunol gan amryw o randdeiliaid o fewn y sector gyhoeddus a phreifat i gydweithio er mwyn rhoi Ynys Môn ar flaen y gad o safbwynt ymchwil a datblygu yn y maes ynni, ei gynhyrchiant ac o ran y gwasanaethau cysylltiedig, gan hynny yn arwain o bosib at fanteision economaidd arwyddocaol iawn. Nodir y gallai Rhaglen Ynys Ynni gyfrannu bron i £12 biliwn at economi Ynys Môn a Gogledd Cymru dros gyfnod o 15 mlynedd nesaf.

2.3.40 Mae'r rhaglen yn anelu i fod yn fodd o fanteisio ar gyfleoedd datblygu a thwf cyflogaeth. Drwy ddefnyddio cyfoeth o ffrydiau ynni gan gynnwys niwclear, gwynt, llanw, biomas a haul ar y cyd â phrosiectau gwasanaethol cysylltiedig, yr amcan yw sicrhau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar gyfer Ynys Môn a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru.

2.3.41 Mae Rhaglen Ynys Ynni yn ymwneud â mwy na'r diwydiant ynni yn unig. Mae hefyd yn ymwneud, er enghraifft, gyda chysylltiadau cludiant, tai, twristiaeth a chyfleusterau hamdden.

*Atomfa newydd Yr Wylfa: Darparu llefydd aros ar gyfer gweithwyr adeiladu - Canfyddiadau allweddol yr astudiaeth a Safbwynt y Cyngor Sir (Mawrth 2011)*

2.3.42 Ym Mawrth 2010 cyhoeddodd Horizon Nuclear Power mai safle Wylfa oedd eu dewis ar gyfer datblygu atomfa niwclear. (Yn dilyn hyn, mae Horizon Nuclear Power wedi cael ei brynu gan gwmni Hitachi Ltd. Maent hwy wedi cynnal eu hymrwymiad i ddatblygu atomfa newydd yn Wylfa).

2.3.43 Mae'r datganiad hon yn nodi y byddai'r atomfa newydd yn diogelu sgiliau'n lleol gyda'i ddylanwad yn rhaeadru i ddiwydiannau cysylltiedig (e.e. diwydiant adeiladu) er lles economi Ynys Môn, Gogledd Cymru a Chymru gyfan. Y bwriad yw y byddai'r atomfa yn weithredol erbyn 2020.

2.3.44 Mae diwallu anghenion llety'r gweithwyr fyddai'n adeiladu'r atomfa newydd arfaethedig yn rhan annatod o gyflawni amcanion y rhaglen Ynys Ynni. Disgwylir y bydd nifer y swyddi (h.y. mewn perthynas â adeiladu'r atomfa) ar ei anterth yn 2017 pan gyflogir oddeutu 6,000 o bobl. Wrth gymharu'r gwaith adeiladu gyda datblygiad Sizewell B (sy'n cymharu agosaf â sefyllfa Wylfa), rhagdybir y byddai angen tua 419 o dai parhaol a 1,600 o unedau dros dro yn anterth y cyfnod adeiladu.

2.3.45 Y dewis sy'n cael ei ffafrio gan Gyngor Sir Ynys Môn o ran lletya'r gweithwyr yw darparu cymysgedd o wahanol fathau o lefydd aros. Y cydbwysedd a argymhellir yw:

- 1/3 o'r gweithwyr yn cael eu lleoli mewn adeiladau a godwyd yn bwrpasol (nifer fach ar y safle i gwrdd ag anghenion gweithredol ond y mwyafrif ymaith o'r safle)
- 1/3 mewn tai preifat ar rent (cymysgedd o dai newydd a thai sydd eisoes yn bodoli)
- 1/3 mewn llety twristaidd (cymysgedd o lefydd newydd a llefydd sydd eisoes yn bodoli)

**MATERION SYDD YN DEILLIO O BOLISÏAU/CANLLAWIAU LLEOL**

- Angen gwella cyflenwad, ansawdd, fforddiadwyedd, cynaliadwyedd ac addasrwydd y stoc dai.
- Mae gan dai rôl bwysig o ran gwella ansawdd bywyd ac iechyd y boblogaeth ac i alluogi pobl i aros yn eu cymunedau.
- Cysylltiad rhwng tai ac adfywio economaidd.
- Pwysigrwydd tai gwag o ran cynorthwyo i gynyddu'r cyflenwad ac i fodloni'r galw am dai.
- Mae angen cwrdd â gofynion preswyl grwpiau penodol o fewn cymdeithas e.e. pobl hŷn, sipsiwn a theithwyr, myfyrwyr.
- Her amlwg mewn perthynas â chartrefu gweithwyr a fyddai'n gyfrifol am adeiladu atomfa niwclear newydd ar safle Wylfa.

# 3. Y BOBLOGAETH BRESENNOL

## 3.1 Amcangyfrif o boblogaeth canol blwyddyn (2001 ymlaen)

| Blwyddyn | Poblogaeth Gwynedd | Poblogaeth Ynys Môn |
|---|---|---|
| 2001 | 116,844 | 67,806 |
| 2002 | 117,344 | 67,879 |
| 2003 | 118,022 | 68,140 |
| 2004 | 118,721 | 68,753 |
| 2005 | 118,641 | 69,095 |
| 2006 | 119,070 | 69,388 |
| 2007 | 119,398 | 69,700 |
| 2008 | 119,746 | 69,916 |
| 2009 | 120,344 | 69,884 |
| 2010 | 121,155 | 69,833 |
| 2011[1] | 121,523 | 69,913 |

Ffynhonnell: Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cymru

- Cynnydd o 4.0% (sef 4,679 o bobl) ym mhoblogaeth Gwynedd yn y cyfnod rhwng 2001 a 2011.
- Cynnydd o 3.1% (sef 2,107 o bobl) ym mhoblogaeth Ynys Môn yn y cyfnod rhwng 2001 a 2011.
- Cynnydd blynyddol parhaus ym mhoblogaeth Gwynedd yn ystod y cyfnod hwn ar wahân i'r flwyddyn 2004-2005.
- Cynnydd blynyddol parhaus ym mhoblogaeth Ynys Môn hyd nes 2008. Wedi hynny gwelir lleihad dwy flynedd yn olynol yn lefel y boblogaeth cyn codi eto yn 2011.

[1] Mae'r ffigwr ar gyfer 2011 yn seiliedig ar amcanestyniadau o Gyfrifiad 2011 sydd wedi eu diweddaru er mwyn bod yn gyson gyda'r cyfres blynyddol o amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (Noder gwir ffigwr poblogaeth Gwynedd a Ynys Môn yng Ngyfrifiad 2011 oedd: Gwynedd 121,874; Ynys Môn: 69,751). Mae'r ffigyrau canol blwyddyn ar gyfer y blynyddoedd blaenorol wedi eu diwygio er mwyn cymryd i ystyriaeth Cyfrifiad 2011.

## 3.2 Dosbarthiad gofodol y boblogaeth

### 3.2.1 Dosraniad y boblogaeth – Ardaloedd trefol a gwledig[2]

Gwynedd

| Categori | Math o ardal (wardiau) | Is-gategori | Nifer o wardiau | Maint y boblogaeth | | Canran y boblogaeth | | Canran y boblogaeth (Trefol/ Gwledig) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Trefol** | Trefol | Llai gwasgarog | 9 | 18,808 | | 17.7% | | **17.7%** |
| **Gwledig** | Tref ac ymyl tref | Llai gwasgarog | 10 | 22,485 | 43,529 | 21.2% | 41.1% | **82.3%** |
| | | Gwasgarog | 11 | 21,044 | | 19.9% | | |
| | Pentrefi, pentrefannau a thai arunig | Llai gwasgarog | 8 | 12,606 | 43,669 | 11.9% | 41.2% | |
| | | Gwasgarog | 22 | 31,063 | | 29.3% | | |


Ynys Môn

| Categori | Math o ardal (wardiau) | Is-gategori | Nifer o wardiau | Maint y boblogaeth | | Canran y boblogaeth | | Canran y boblogaeth (Trefol/ Gwledig) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Trefol** | Trefol | Gwasgarog | 7 | 11,431 | | 16.4% | | **16.4%** |
| **Gwledig** | Tref ac ymyl tref | Llai gwasgarog | 5 | 8,421 | 22,283 | 12.1% | 31.9% | **83.6%** |
| | | Gwasgarog | 8 | 13,862 | | 19.9% | | |
| | Pentrefi, pentrefannau a thai arunig | Llai gwasgarog | 6 | 11,445 | 36,037 | 16.4% | 51.7% | |
| | | Gwasgarog | 14 | 24,592 | | 35.3% | | |

[2] Yn seiliedig ar y diffiniad o ardaloedd 'trefol' a 'gwledig' fel nodwyd ym mhrosiect ar y cyd rhwng DEFRA, Swyddfa Ystadegau Gwladol, Asiantaeth Cefn Gwlad a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004). Cafodd y diffiniad ei ddosbarthu'n derfynol gan y 'Rural Evidence Research Centre' yng Ngholeg Birkbeck.

Mae'r tablau yn y rhan hwn yn seiliedig ar y modd y mae wardiau unigol wedi eu diffinio yn unol â'r prosiect hwn.

- Mae’r ffigyrau o ran maint y boblogaeth wedi ei seilio ar wybodaeth o Gyfrifiad 2011 ar gyfer poblogaeth wardiau Gwynedd ac Ynys Môn.
- Nodir bod ardal ‘drefol’ yn cael ei ddiffinio fel man gyda phoblogaeth sydd dros 10,000 o bobl. Dim ond ardal Bangor (Gwynedd) ac ardal Caergybi (Ynys Môn) sydd yn cwrdd â’r diffiniad hwn.
- Diffinnir y ddau fath arall o ardal h.y. ‘tref ac ymyl tref’ a ‘pentrefi, pentrefannau a thai arunig’, fel mannau ‘gwledig’.
- Mae’r wybodaeth yn y tabl ar gyfer Gwynedd ond yn cyfeirio at wardiau sydd un ai wedi eu lleoli yn gyfan neu gan fwyaf o fewn ardal cynllunio Gwynedd. Noder nad yw gwybodaeth ar gyfer ward Llanuwchllyn wedi ei gynnwys yn y tabl uchod gan fod y mwyafrif helaeth o’r ward wedi ei leoli o fewn Parc Cenedlaethol Eryri gydag ond rhan fechan iawn ohono wedi ei leoli y tu allan i ardal y Parc.



- Mwyafrif helaeth o boblogaeth ardal Awdurdodau Cynllunio Gwynedd (h.y. y wardiau sydd wedi eu lleoli yn gyfan neu yn rhannol o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd) ac Ynys Môn yn byw mewn ardaloedd a ddiffinnir fel rhai 'gwledig'.
- Y canran uchaf o boblogaeth y ddau awdurdod yn byw mewn wardiau a ddiffinnir fel 'Pentrefi, pentrefannau a thai arunig gwasgarog' (29.3% yng Ngwynedd a 35.3% yn Ynys Môn), sef y wardiau a ddiffinnir fel y rhai mwyaf gwledig.
- Y math amlycaf o 'ardal', o safbwynt nifer y wardiau o fewn ardal Awdurdodau Cynllunio Gwynedd ac Ynys Môn, yw 'Pentrefi, pentrefannau a thai arunig gwasgarog'.

3.2.2 Canran y boblogaeth sydd yn byw ym mhrif ganolfannau Gwynedd ac Ynys Môn[3]

Gwynedd

| Anheddle | Math o anheddiad | | Poblogaeth |
|---|---|---|---|
| | **Diffiniad yn CDLl ar y Cyd** | **Diffiniad yng Nghynllun Gofodol Cymru** | |
| Bangor | Canolfan Is-ranbarthol | Anheddiad allweddol o bwys cenedlaethol | 16,358 |
| Caernarfon | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Prif anheddiad allweddol | 9,615 |
| Blaenau Ffestiniog | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Anheddiad trawsffiniol | 4,875 |
| Pwllheli | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Prif anheddiad allweddol | 4,076 |
| Porthmadog | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Prif anheddiad allweddol | 3,507 |
| **CYFANSWM** | | | **38,431** |
| Poblogaeth Gwynedd (Cyfrifiad 2011) | | | 121,523 |
| **Canran o boblogaeth Gwynedd sydd yn byw yn y prif ganolfannau** (yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011) | | | **31.6%** |


[3] Fel y'i diffinnir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Ynys Môn

| Anheddle | Math o anheddiad | | Poblogaeth |
|---|---|---|---|
| | **Diffiniad yn CDLl ar y Cyd** | **Diffiniad yng Nghynllun Gofodol Cymru** | |
| Amlwch | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Anheddiad allweddol | 3,789 |
| Caergybi | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Prif anheddiad allweddol | 11,431 |
| Llangefni | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Prif anheddiad allweddol | 5,116 |
| **CYFANSWM** | | | **20,336** |
| Poblogaeth Ynys Môn (Cyfrifiad 2011) | | | 69,913 |
| **Canran o boblogaeth Ynys Môn sydd yn byw yn y prif ganolfannau** (yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011) | | | **29.1%** |

- Mwyafrif helaeth o boblogaeth Gwynedd yn byw y tu allan i'r Ganolfan Isranbarthol a'r pedwar Canolfan Gwasanaeth Trefol (fel y'u diffinnir yn y CDLl ar y Cyd). Mae hyn yn tanlinellu'r wybodaeth a nodir yn rhan 3.2.1 sydd yn dangos, mai yn ei hanfod, ardal wledig yw Gwynedd.
- Yn yr un modd, mae mwyafrif helaeth o boblogaeth Ynys Môn yn byw y tu allan i'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol (fel y'u diffiniwyd yn y CDLl ar y Cyd). Nodir eto, mai yn ei hanfod, ardal wledig yw Ynys Môn.
- O gofio'r rôl bwysig sydd ganddynt o fewn ardal y Cynllun (ac yn y rhanbarth ehangach yn achos Bangor), poblogaeth gymharol isel sydd gan y canolfannau diffiniedig uchod. Mae gan bedwar o'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol boblogaeth o lai na 5,000. Mae hyn yn pwysleisio natur wledig ardal y Cynllun.

### 3.2.3 Dosbarthiad aneddleoedd o fewn yr hierarchaeth aneddleoedd[4]



- Mae nifer helaeth o aneddleoedd wedi eu hadnabod o fewn strategaeth aneddleoedd Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd a Chynllun Datblygu Unedol wedi'i stopio Ynys Môn (205 anheddle: 95 yn Ynys Môn a 110 yn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd).
- Mae nifer helaeth o'r aneddleoedd diffiniedig hyn yn rhai bychan o ran maint h.y. 'pentrefi' a 'phentrefi gwledig'/'pentrefi bach a chlystyrau gwledig'. Mae 91 o'r aneddleoedd hyn wedi eu diffinio fel 'pentrefi' (44.4%) gyda 87 anheddle wedi eu diffinio fel 'pentrefi gwledig'/'pentrefi bach a chlystyrau gwledig' (42.4%).
- Tra bod llawer o'r aneddleoedd llai wedi eu clystyru o amgylch prif ganolfannau'r ardal, nodir fod rhai eraill yn fwy anghysbell eu natur.
- Gweler fod llawer o gyfleon yn bodoli o ran yr ystod o aneddleoedd ble y gellir, mewn theori, leoli tai newydd. Mae'r cyfleon hyn yn wasgaredig iawn.

[4] Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd a Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn wedi'i stopio

- Er mwyn arddangos y cyswllt rhwng aneddleoedd yn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd a'r canolfannau a leolir o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, mae aneddleoedd a ddiffinnir fel Canolfannau Gwasanaethau Lleol (Bala a Dolgellau) ac Aneddiadau Gwasanaethau (Harlech a Trawsfynydd) yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri wedi eu nodi. (Nodyn: Mae Llanberis yn Anheddiad Gwasanaeth yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri, ond fe'i dangosir ar y map uchod ar y sail ei fod wedi ei ddiffinio fel Canolfan Leol yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd).

3.2.4 Aneddleoedd sydd wedi eu diffinio fel 'pentrefi[5]' yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd ac yng Nghynllun Datblygu Unedol Ynys Môn wedi'i stopio sydd yn cynnwys llai na 120 o dai[6]

Mae'r trothwy o 120 o dai wedi ei ddewis er mwyn cyfleu maint bychan rhai o'r aneddleoedd sydd wedi eu diffinio fel 'pentrefi' yn CDU Gwynedd a CDU Ynys Môn sydd wedi'i stopio. Mae hyn yn arwyddocaol o gofio eu statws o fewn hierarchaeth aneddleoedd y cynlluniau hyn a'r rôl gydnabyddedig a phwysig sydd ganddynt o fewn cymunedau Gwynedd ac Ynys Môn.

Gwynedd

| Anheddle | Nifer o dai | Poblogaeth (amcangyfrif) | Anheddle | Nifer o dai | Poblogaeth (amcangyfrif) |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhoshirwaun | 20 | 46 | Y Garreg/ Llanfrothen | 85 | 196 |
| Llanwnda | 24 | 59 | Brynrefail | 85 | 208 |
| Dinas Dinlle | 30 | 70 | Tudweiliog | 90 | 218 |
| Sarn Mellteyrn | 50 | 123 | Llandwrog | 90 | 209 |
| Llanengan | 54 | 117 | Clynnog Fawr | 93 | 222 |
| Botwnnog | 56 | 137 | Pentrefelin | 105 | 250 |
| Rhydyclafdy | 64 | 150 | Edern | 110 | 236 |
| Pontllyfni | 75 | 179 | Nantlle | 115 | 270 |

[5] **Pentrefi** (Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd) - Fel arfer, mae cyfleusterau neu wasanaethau elfennol ar gael ynddynt megis siop, swyddfa bost neu ysgol ac mewn rhai ceir tafarn neu fodurdy. Yn gyffredinol bydd y trigolion yn teithio i un o ganolfannau'r ardal i siopa neu ar gyfer gwasanaethau mwy arbenigol.
**Pentrefi** (Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn wedi'i stopio) - Draw oddi wrth y prif ganolfannau a'r canolfannau eilaidd mae nifer o bentrefi sy'n bwysig i batrwm bywyd ar Ynys Môn. Bydd y pentrefi yn dibynnu'n aml ar y prif ganolfannau a'r canolfannau eilaidd am wasanaethau.

[6] Mae nifer y tai wedi ei sefydlu drwy arolwg desg (h.y. drwy edrych ar nifer yr unedau preswyl o fewn ffiniau datblygu aneddleoedd) ac felly amcangyfrif ydyw. Mae'r boblogaeth wedi ei sefydlu drwy luosi nifer y tai gyda maint cyfartalog aelwydydd o fewn y ward ble leolir y pentref (gwybodaeth o Gyfrifiad 2011).

| Anheddle | Nifer o dai | Poblogaeth (amcangyfrif) | Anheddle | Nifer o dai | Poblogaeth (amcangyfrif) |
|---|---|---|---|---|---|
| Caeathro | 75 | 176 | Efailnewydd | 120 | 282 |
| Dinas | 75 | 183 | Garndolbenmaen | 120 | 285 |
| Llandygai | 76 | 183 | Llandderfel | 120 | 299 |
| Aberdaron | 78 | 179 | Penisarwaun | 120 | 293 |

Ynys Môn

| Anheddle | Nifer o dai | Poblogaeth (amcangyfrif) | Anheddle | Nifer o dai | Poblogaeth (amcangyfrif) |
|---|---|---|---|---|---|
| Llanddeusant | 42 | 102 | Brynteg | 110 | 227 |
| Bethel | 83 | 197 | Llangristiolus | 118 | 280 |
| Rhydwyn | 87 | 208 | Malltraeth | 119 | 283 |
| Pentre Berw | 103 | 242 | | | |

Ffynhonnell: Gwybodaeth gefndirol sydd wedi ei gasglu gan yr Uned Bolisi Cynllunio ar y Cyd, Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd), Cyngor Gwynedd

3.2.5 Aneddleoedd sydd wedi eu diffinio fel 'pentrefi gwledig[7]' yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd ac fel 'pentrefi bach a chlystyrau gwledig[8]' yng Nghynllun Datblygu Unedol Ynys Môn wedi'i stopio sydd yn cynnwys llai na 30 o dai[9]

Mae'r trothwy o 30 o dai wedi ei ddewis er mwyn cyfleu maint bychan rhai o'r aneddleoedd sydd wedi eu diffinio fel 'pentrefi gwledig'/'pentrefi bach a chlystyrau gwledig' yn CDU Gwynedd a CDU Ynys Môn wedi'i stopio. Mae hyn yn arwyddocaol o gofio eu statws o fewn hierarchaeth aneddleoedd y cynlluniau hyn a'r rôl benodol sydd ganddynt o fewn cymunedau yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

[7] **Pentrefi Gwledig -** Dim ond datblygiad cyfyngedig fydd yn wirioneddol angenrheidiol i ddiwallu anghenion yn codi o fewn y gymuned leol a ganiateir. Yn ogystal bydd yn ofynnol i unrhyw ddatblygiad weddu i gymeriad a ffurf y Pentref Gwledig dan sylw o ran lleoliad, maint, graddfa, dyluniad a deunyddiau.

[8] **Pentrefi bach a chlystyrau gwledig** - Diffiniwyd y pentrefannau a'r clystyrau trwy gyfeirio at gynllun adeileddol yr anheddiad dan sylw ac a oes modd gweld casgliad amlwg o ddeg neu fwy o anheddau ar fap yr ordnans. Hefyd dylai'r annedd roi'r argraff o fod yn gasgliad yn hytrach na thai wedi eu gwasgaru dros gylch ehangach.

[9] Mae nifer y tai wedi ei sefydlu drwy arolwg desg (h.y. drwy edrych ar nifer yr unedau preswyl sydd wedi eu nodi ar y mapiau mewnosod perthnasol) ac felly amcangyfrif ydyw. Mae'r boblogaeth wedi ei sefydlu drwy luosi nifer y tai gyda maint cyfartalog aelwydydd o fewn y ward ble lleolir y pentref gwledig/pentref bach a clwstwr gwledig (gwybodaeth o Gyfrifiad 2011).

Gwynedd

| Anheddle | Nifer o dai | Poblogaeth (amcangyfrif) | Anheddle | Nifer o dai | Poblogaeth (amcangyfrif) |
|---|---|---|---|---|---|
| Boduan | 15 | 35 | Rhosfawr | 24 | 55 |
| Llanarmon | 15 | 37 | Penrhos | 24 | 56 |
| Pentreuchaf | 20 | 47 | Bryncroes | 25 | 61 |
| Llanfaglan | 20 | 49 | Llaniestyn | 26 | 63 |
| Llangian | 22 | 48 | Saron | 29 | 71 |
| Pant Glas | 22 | 53 | | | |

Ynys Môn

| Anheddle | Nifer o dai | Poblogaeth (amcangyfrif) | Anheddle | Nifer o dai | Poblogaeth (amcangyfrif) |
|---|---|---|---|---|---|
| Hebron | 14 | 33 | Ty'n Lon (Glan yr Afon) | 20 | 47 |
| Maenaddwyn | 14 | 33 | Capel Mawr | 23 | 55 |
| Bachau | 16 | 39 | Capel Parc | 23 | 54 |
| Trefor | 18 | 42 | Llanynghenedl | 24 | 55 |
| Rhosgoch | 18 | 42 | Penygroes | 25 | 61 |
| Penygraigwen | 19 | 44 | Llangwyllog | 27 | 64 |
| Llangadwaladr | 20 | 48 | Cerrigman | 28 | 65 |

Ffynhonnell: Gwybodaeth gefndirol sydd wedi ei gasglu gan yr Uned Bolisi Cynllunio ar y Cyd, Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd), Cyngor Gwynedd

- Mae natur wledig ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael ei ddangos gan y nifer sylweddol o aneddleoedd bychan (o ran nifer y tai a maint y boblogaeth) sydd wedi eu diffinio fel 'pentrefi' neu 'bentrefi gwledig'/'pentrefi bach a chlystyrau gwledig' yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd a Chynllun Datblygu Unedol Ynys Môn wedi'i stopio.
- Amlygir natur wledig yr ardal gan y ffaith fod gan aneddleoedd o'r maint hyn rôl gydnabyddedig o fewn cymunedau Gwynedd ac Ynys Môn (ar sail y modd y cafodd aneddleoedd eu diffinio yn y cynlluniau datblygu).
- Mae 24 anheddle sydd yn cynnwys llai na 120 o dai wedi eu diffinio fel 'pentref' yn ardal cynllunio Gwynedd gyda 7 anheddle wedi eu diffinio yn y modd hwn yn Ynys Môn.
- Mae 11 anheddle sydd â llai na 30 tŷ wedi eu diffinio fel 'pentrefi gwledig' yn ardal cynllunio Gwynedd gyda 15 anheddle (sydd â llai na 30 tŷ) wedi ei diffinio fel 'pentrefi bach a chlystyrau gwledig' yn Ynys Môn.

## 3.3 Dadansoddiad o boblogaeth ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

### 3.3.1 Dadansoddiad o boblogaeth Gwynedd fesul oedran a rhyw (canol-2011)

| Oedran | Dynion | Merched | Pawb | Oedran | Dynion | Merched | Pawb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **0-4** | 3,428 | 3,318 | 6,746 | **50-54** | 3,879 | 3,951 | 7,830 |
| **5-9** | 3,223 | 3,014 | 6,237 | **55-59** | 3,627 | 3,735 | 7,362 |
| **10-14** | 3,370 | 3,241 | 6,611 | **60-64** | 4,274 | 4,185 | 8,459 |
| **15-19** | 3,890 | 4,048 | 7,938 | **65-69** | 3,746 | 3,781 | 7,527 |
| **20-24** | 5,065 | 4,842 | 9,907 | **70-74** | 2,770 | 2,949 | 5,719 |
| **25-29** | 3,360 | 3,008 | 6,368 | **75-79** | 2,153 | 2,638 | 4,791 |
| **30-34** | 3,160 | 2,921 | 6,081 | **80-84** | 1,510 | 2,268 | 3,778 |
| **35-39** | 3,285 | 3,322 | 6,607 | **85-89** | 804 | 1,467 | 2,271 |
| **40-44** | 3,839 | 4,022 | 7,861 | **90+** | 285 | 948 | 1,233 |
| **45-49** | 4,072 | 4,125 | 8,197 | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | 59,740 | 61,783 | 121,523 |


Ffynhonnell: Stats Wales

Dadansoddiad o boblogaeth Ynys Môn fesul oedran a rhyw (canol-2011)


| Oedran | Dynion | Merched | Pawb | Oedran | Dynion | Merched | Pawb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **0-4** | 2,030 | 1,866 | 3,896 | **50-54** | 2,388 | 2,372 | 4,760 |
| **5-9** | 1,782 | 1,685 | 3,467 | **55-59** | 2,361 | 2,334 | 4,695 |
| **10-14** | 1,915 | 1,846 | 3,761 | **60-64** | 2,636 | 2,827 | 5,463 |
| **15-19** | 1,999 | 1,877 | 3,876 | **65-69** | 2,342 | 2,442 | 4,784 |
| **20-24** | 2,028 | 1,808 | 3,836 | **70-74** | 1,894 | 1,931 | 3,825 |
| **25-29** | 1,839 | 1,803 | 3,642 | **75-79** | 1,301 | 1,583 | 2,884 |
| **30-34** | 1,827 | 1,742 | 3,569 | **80-84** | 894 | 1,310 | 2,204 |
| **35-39** | 1,917 | 1,893 | 3,810 | **85-89** | 430 | 797 | 1,227 |
| **40-44** | 2,272 | 2,378 | 4,650 | **90+** | 198 | 607 | 805 |
| **45-49** | 2,313 | 2,446 | 4,759 | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | 34,366 | 35,547 | 69,913 |

Ffynhonnell: Stats Wales

3.3.2 Pyramid poblogaeth – Gwynedd (canol-2011)




Pyramid poblogaeth – Ynys Môn (canol-2011)




Ffynhonnell: Stats Wales

Gwynedd

- Mwy o bobl yng ngrŵp oedran 20-24 yng Ngwynedd yn 2011 nag unrhyw grŵp oedran arall. Mae'n debygol mai ffactor pwysig mewn perthynas â hyn yw'r myfyrwyr sydd yn mynychu Prifysgol Bangor.
- Wedi hynny, y ddau gategori oedran mwyaf poblog oedd 60-64 a 45-49.
- Canran y boblogaeth yn y grŵp oedran 30-34 yn 2011 yn gymharol isel o'i gymharu â rhai o'r categorïau oedran eraill naill ochr iddo.

Ynys Môn

- Mae patrwm y pyramid poblogaeth ar gyfer Ynys Môn yn 2011 ychydig yn wahanol i byramid poblogaeth Gwynedd.
- Mae cyfran y boblogaeth sydd yn y categori oedran 20-24 yn is yn Ynys Môn nag ydyw yng Ngwynedd.
- Mwy o bobl yng ngrŵp oedran 60-64 yn Ynys Môn yn 2011 nag unrhyw grŵp oedran arall.
- Wedi hynny nodir mai'r categorïau oedran 65-69, 50-54, 55-59, 45-49, 40-44 a 15-19 oedd y rhai mwyaf poblog (oll yn fwy na 4,000 o bobl).
- Nodir fod y nifer o bobl yn y pedwar categori oedran rhwng 20 a 39 mlwydd oed, oll yn is na 4,000.

## 3.4 Dosraniad hanesyddol y boblogaeth

Gwynedd

| Blwyddyn | Yr holl boblogaeth | 0-15 mlwydd oed (nifer a chanran o'r boblogaeth) | 16-64 mlwydd oed (nifer a chanran o'r boblogaeth) | 65+ mlwydd oed (nifer a chanran o'r boblogaeth) |
|---|---|---|---|---|
| 2001 | 116,844 | 22,603 *(19.3%)* | 72,016 *(61.6%)* | 22,225 *(19.0%)* |
| 2002 | 117,231 | 22,578 *(19.3 %)* | 72,236 *(61.6%)* | 22,417 *(19.1%)* |
| 2003 | 117,787 | 22,477 *(19.1%)* | 72,696 *(61.7%)* | 22,614 *(19.2%)* |
| 2004 | 118,340 | 22,170 *(18.7%)* | 73,463 *(62.1%)* | 22,707 *(19.2%)* |
| 2005 | 118,100 | 21,825 *(18.5%)* | 73,450 *(62.2%)* | 22,825 *(19.3%)* |
| 2006 | 118,370 | 21,718 *(18.3%)* | 73,672 *(62.2%)* | 22,980 *(19.4%)* |
| 2007 | 118,585 | 21,517 *(18.1%)* | 73,890 *(62.3%)* | 23,178 *(19.5%)* |
| 2008 | 118,590 | 21,170 *(17.9%)* | 73,893 *(62.3%)* | 23,527 *(19.8%)* |
| 2009 | 118,767 | 20,946 *(17.6%)* | 73,908 *(62.2%)* | 23,913 *(20.1%)* |
| 2010 | 119,007 | 20,765 *(17.4%)* | 74,108 *(62.3%)* | 24,134 *(20.3%)* |
| 2011 | 121,523 | 20,868 *(17.2%)* | 75,336 *(62.0%)* | 25,319 *(20.8%)* |
| **Gwahaniaeth 2001-11 (canran)** | +4.0% | -7.7% | +4.6% | +13.9% |

Ynys Môn

| Blwyddyn | Yr holl boblogaeth | 0-15 mlwydd oed (nifer a chanran o'r boblogaeth) | 16-64 mlwydd oed (nifer a chanran o'r boblogaeth) | 65+ mlwydd oed (nifer a chanran o'r boblogaeth) |
|---|---|---|---|---|
| 2001 | 67,806 | 13,219 *(19.5%)* | 41,775 *(61.6%)* | 12,812 *(18.9%)* |
| 2002 | 67,862 | 13,099 *(19.3 %)* | 41,782 *(61.6%)* | 12,981 *(19.1%)* |
| 2003 | 68,050 | 12,947 *(19.0%)* | 41,935 *(61.6%)* | 13,168 *(19.4%)* |
| 2004 | 68,271 | 12,880 *(18.9%)* | 42,013 *(61.5%)* | 13,378 *(19.6%)* |
| 2005 | 68,483 | 12,772 *(18.6%)* | 42,120 *(61.5%)* | 13,591 *(19.8%)* |
| 2006 | 68,647 | 12,666 *(18.5%)* | 42,225 *(61.5%)* | 13,756 *(20.0%)* |
| 2007 | 68,763 | 12,526 *(18.2%)* | 42,205 *(61.4%)* | 14,032 *(20.4%)* |
| 2008 | 68,799 | 12,369 *(18.0%)* | 42,017 *(61.1%)* | 14,413 *(20.9%)* |
| 2009 | 68,768 | 12,328 *(17.9%)* | 41,732 *(60.7%)* | 14,708 *(21.4%)* |
| 2010 | 68,592 | 12,289 *(17.9%)* | 41,286 *(60.2%)* | 15,017 *(21.9%)* |
| 2011 | 69,913 | 11,890 *(17.0%)* | 42,294 *(60.5%)* | 15,729 *(22.5%)* |
| **Gwahaniaeth 2001-11 (canran)** | +3.1% | -10.0% | -1.2% | +22.8% |

Ffynhonnell: Stats Wales

- Canran o'r boblogaeth sydd o dan 16 mlwydd oed wedi lleihau pob blwyddyn rhwng 2001 a 2011 yng Ngwynedd ac yn Ynys Môn. Lleihad arwyddocaol yn nifer yr unigolion o fewn y categori oedran hwn yn y ddwy ardal awdurdod lleol rhwng 2001 a 2011.
- Nifer y boblogaeth sydd dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu yn flynyddol yng Ngwynedd ac yn Ynys Môn rhwng 2001 a 2011. Cynnydd arwyddocaol yn nifer yr unigolion yn y categori oedran hwn yn y ddwy ardal awdurdod lleol rhwng 2001 a 2011.
- Canran o'r boblogaeth sydd dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu yn flynyddol yng Ngwynedd ac Ynys Môn rhwng 2001 a 2011 (ar wahân i 2003-04 yng Ngwynedd, ble roedd y ffigwr yn gyson).
- Mae'r un tueddiadau i'w gweld yng Ngwynedd ac yn Ynys Môn o ran yr agweddau hyn.

## 3.5 Tueddiadau o ran poblogaeth

Gwynedd

| Blwyddyn | Poblogaeth dechrau canol blwyddyn | Genedig-aethau (1) | Marwol-aethau (2) | Newid naturiol (3) | Mudo (net) (4) | Cyfanswm newid yn y boblogaeth | Poblogaeth diwedd canol blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2000-01 | 116,699 | 1,202 | 1,382 | -180 | 325 | 145 | 116,844 |
| 2001-02 | 116,844 | 1,189 | 1,385 | -196 | 696 | 500 | 117,344 |
| 2002-03 | 117,344 | 1,158 | 1,316 | -158 | 836 | 678 | 118,022 |
| 2003-04 | 118,022 | 1,160 | 1,406 | -246 | 945 | 699 | 118,721 |
| 2004-05 | 118,721 | 1,190 | 1,336 | -146 | 66 | -80 | 118,641 |
| 2005-06 | 118,641 | 1,316 | 1,275 | 41 | 388 | 429 | 119,070 |
| 2006-07 | 119,070 | 1,279 | 1,282 | -3 | 331 | 328 | 119,398 |
| 2007-08 | 119,398 | 1,253 | 1,343 | -90 | 438 | 348 | 119,746 |
| 2008-09 | 119,746 | 1,298 | 1,340 | -42 | 640 | 598 | 120,344 |
| 2009-10 | 120,344 | 1,355 | 1,350 | 5 | 806 | 811 | 121,155 |
| 2010-11 | 121,155 | 1,232 | 1,283 | -51 | 419 | 368 | 121,523 |

Ynys Môn

| Blwyddyn | Poblogaeth dechrau canol blwyddyn | Genedig-aethau (1) | Marwol-aethau (2) | Newid naturiol (3) | Mudo (net) (4) | Cyfanswm newid yn y boblogaeth | Poblogaeth diwedd canol blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2000-01 | 67,898 | 652 | 835 | -183 | 91 | -92 | 67,806 |
| 2001-02 | 67,806 | 639 | 750 | -111 | 184 | 73 | 67,879 |
| 2002-03 | 67,879 | 652 | 804 | -152 | 413 | 261 | 68,140 |
| 2003-04 | 68,140 | 717 | 777 | -60 | 673 | 613 | 68,753 |
| 2004-05 | 68,753 | 656 | 789 | -133 | 475 | 342 | 69,095 |
| 2005-06 | 69,095 | 727 | 775 | -48 | 341 | 293 | 69,388 |
| 2006-07 | 69,388 | 704 | 741 | -37 | 349 | 312 | 69,700 |
| 2007-08 | 69,700 | 763 | 775 | -12 | 228 | 216 | 69,916 |
| 2008-09 | 69,916 | 795 | 836 | -41 | 9 | -32 | 69,884 |
| 2009-10 | 69,884 | 778 | 858 | -80 | 29 | -51 | 69,833 |
| 2010-11 | 69,833 | 817 | 781 | 36 | 44 | 80 | 69,913 |

Ffynhonnell: Stats Wales

**(1)** Nifer y genedigaethau byw yn ystod y cyfnod penodol
**(2)** Nifer y marwolaethau yn ystod y cyfnod penodol
**(3)** (Genedigaethau minws Marwolaethau): yn ystod y cyfnod penodol
**(4)** (Mudo mewnol minws Mudo allanol). **Mae'r ffigyrau hyn yn cyfeirio at fudo mewnol (oddi mewn i'r DU) a mudo rhyngwladol.**

- Fel y nodwyd yn rhan 3.1, mae poblogaeth Gwynedd wedi cynyddu'n flynyddol ers 2001, gyda'r eithriad o 2004-05. Cafwyd cynnydd blynyddol cyson ym mhoblogaeth Ynys Môn hyd at 2008. Wedi hynny gwelwyd lleihad dwy flynedd yn olynol yn lefel y boblogaeth, cyn codi eto yn 2011. Mae cwestiwn os oedd cysylltiad rhwng y tueddiad hwn a'r dirwasgiad economaidd?
- Nodir bod y newid naturiol yn y boblogaeth wedi bod yn negyddol ym mhob un o'r blynyddoedd a nodir yn Ynys Môn. O ran Gwynedd, mae'r ffigwr hwn yn negyddol ym mhob blwyddyn ar wahan i 2005-06 a 2009-10 pan y cafwyd cynnydd bychan.
- Mae'r gyfradd mudo wedi bod yn bositif yng Ngwynedd ac Ynys Môn ym mhob un o'r blynyddoedd a nodir uchod.
- O'r wybodaeth a nodir yn y tablau, gellir dehongli mai mudo, yn hytrach na newid naturiol, yw'r rheswm dros y cynnydd cyffredinol yn y boblogaeth yn ystod y cyfnod hwn.
- O ran y pwynt hwn, mae cwestiwn os gwnaeth colli cyflogwyr amlwg (e.e. Alwminiwm Môn a Eaton Electrical) a'r dirwasgiad yn ehangach arwain at gynnydd mewn allfudo economaidd o Ynys Môn yn ystod y blynyddoedd diweddar gan arwain at leihad yn y boblogaeth?

## 3.6 Mudo

**Noder: Data yn cyfeirio at fudo mewnol (o fewn y DU) yn unig. Nid yw'r ffigyrau hyn yn ystyried mudo rhyngwladol.**

3.6.1 <u>Gwynedd: Mudo o fewn y Deyrnas Unedig 2007 - 2013 (ffigyrau mewn miloedd)</u>

| Blwyddyn | 2012-13 | 2011-12 | 2010-11 | 2009-10 | 2008-09 | 2007-08 | 2006-07 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedran | Net | Net | Net | Net | Net | Net | Net |
| Pob oed | **-380** | **-80** | **-100** | **580** | **190** | **-270** | **-130** |
| 0-4 | -30 | 10 | -10 | 30 | 30 | -50 | 0 |
| 5-9 | 10 | 30 | 0 | -30 | -20 | 10 | -30 |
| 10-14 | -40 | -10 | -10 | -10 | -20 | 30 | 30 |
| 15-19 | 790 | 940 | 840 | 1,190 | 910 | 610 | 700 |
| 20-24 | -1,080 | -740 | -650 | -460 | -470 | -780 | -750 |
| 25-29 | -340 | -180 | -230 | -170 | -220 | -230 | -170 |
| 30-34 | -90 | -150 | -40 | -40 | -40 | -60 | -80 |
| 35-39 | -50 | 20 | -40 | 20 | 10 | 0 | 40 |
| 40-44 | -10 | -50 | 0 | 10 | 10 | 30 | 10 |

| Blwyddyn | 2012-13 | 2011-12 | 2010-11 | 2009-10 | 2008-09 | 2007-08 | 2006-07 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedran | Net | Net | Net | Net | Net | Net | Net |
| 45-49 | -20 | 0 | 30 | 0 | 20 | 40 | 50 |
| 50-54 | 0 | 40 | 20 | -10 | 40 | 70 | 70 |
| 55-59 | 60 | 10 | 20 | 70 | 50 | 70 | 60 |
| 60-64 | 30 | 40 | 20 | -10 | -10 | 40 | 60 |
| 65-69 | -10 | 30 | -20 | -10 | 80 | 90 | 90 |
| 70-74 | -40 | -30 | -10 | -40 | -20 | 0 | -50 |
| 75+ | -20 | -40 | -20 | -50 | -60 | -30 | -50 |
| | | | | | | | |
| 0-14 | -50 | 30 | -30 | -10 | -20 | -10 | 0 |
| 15-29 | -630 | 10 | -40 | 570 | 220 | -410 | -210 |
| 30-44 | -150 | -180 | -70 | -10 | -30 | -20 | -30 |
| 45-64 | 70 | 90 | 90 | 130 | 90 | 220 | 240 |
| 65+ | -80 | -40 | -50 | -100 | -80 | -50 | -120 |

Ynys Môn: Mudo o fewn y Deyrnas Unedig 2007 - 2013 (ffigyrau mewn miloedd)

| Blwyddyn | 2012-13 | 2011-12 | 2010-11 | 2009-10 | 2008-09 | 2007-08 | 2006-07 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedran | Net | Net | Net | Net | Net | Net | Net |
| **Pob oed** | **50** | **70** | **-60** | **-10** | **-20** | **80** | **150** |
| 0-4 | 0 | 30 | -10 | 20 | 50 | 50 | 20 |
| 5-9 | 10 | 20 | -10 | 20 | 30 | 0 | 40 |
| 10-14 | 0 | 10 | 10 | 10 | -10 | -10 | 10 |
| 15-19 | -170 | -220 | -200 | -240 | -220 | -190 | -220 |
| 20-24 | 140 | 100 | 30 | 50 | 50 | 50 | 80 |
| 25-29 | -20 | -20 | 40 | 0 | -30 | 20 | -20 |
| 30-34 | 0 | -10 | -30 | 10 | 30 | 20 | 10 |
| 35-39 | -30 | 40 | 10 | 10 | 0 | -20 | 30 |
| 40-44 | 10 | 20 | 10 | 0 | 10 | 0 | 40 |
| 45-49 | 10 | 20 | 20 | 20 | 20 | 10 | 20 |
| 50-54 | 60 | 40 | 30 | 40 | 10 | 20 | 30 |
| 55-59 | 50 | 40 | 40 | 50 | 30 | 40 | 80 |
| 60-64 | 40 | 70 | 40 | 40 | 10 | 40 | 50 |
| 65-69 | 30 | 10 | 20 | 0 | 20 | 30 | 40 |
| 70-74 | -20 | -30 | -10 | -20 | -20 | 10 | -10 |
| 75+ | -70 | -40 | -30 | -20 | -10 | -10 | -40 |
| | | | | | | | |
| 0-14 | 20 | 70 | -20 | 40 | 70 | 40 | 70 |
| 15-29 | -50 | -150 | -130 | -190 | -200 | -110 | -160 |
| 30-44 | -20 | 60 | -20 | 20 | 40 | 0 | 80 |
| 45-64 | 160 | 160 | 140 | 150 | 70 | 110 | 180 |
| 65+ | -60 | -70 | -30 | -30 | -10 | 40 | -10 |

u

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

Niwtral – Dim cynnydd na lleihad | Cynnydd net | Lleihad net

3.6.2 Gwynedd ac Ynys Môn: Y sefyllfa gyffredinol o safbwynt mudo o fewn y Deyrnas Unedig 1998-99 i 2009-10 (ffigyrau mewn miloedd)

| | Gwynedd | Ynys Môn |
|---|---|---|
| Blwyddyn | Net | Net |
| 2012-13 | -380 | 50 |
| 2011-12 | -80 | 70 |
| 2010-11 | -100 | -60 |
| 2009-10 | 580 | -10 |
| 2008-09 | 190 | -20 |
| 2007-08 | -270 | 80 |
| 2006-07 | -130 | 150 |
| 2005-06 | 120 | 230 |
| 2004-05 | 170 | 400 |
| 2003-04 | 840 | 220 |
| 2002-03 | 670 | 350 |
| 2001-02 | 520 | 130 |

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

- Gwynedd - Ffigyrau net negyddol o ran y gwahaniaeth rhwng pobl sydd yn symud i mewn ac allan o Wynedd (o weddill y Deyrnas Unedig) yn y blynyddoedd diweddaraf (2010-11 ymlaen) h.y. mwy o bobl yn symud allan o ardal yr awdurdod lleol nag oedd yn symud i mewn. Ffigyrau positif ar y cyfan yn y blynyddoedd cyn hynny.
- Ynys Môn – Ar y cyfan gweler fod y gwahaniaeth net rhwng pobl sydd yn symud i mewn ac allan o Ynys Môn (o weddill y Deyrnas Unedig) wedi bod yn bositif h.y. mwy o bobl yn symud i mewn i ardal yr awdurdod lleol nag oedd yn symud allan. Cynnydd net wedi bod yn is yn y ddwy flynedd ddiweddaraf ar y rhestr. Yn y cyfnod rhwng 2008-09 a 2010-11 noder bod mwy o bobl wedi symud allan o Ynys Môn nag y gwnaeth symud i mewn.

Gwynedd

- Yn gyffredinol, gweler lleihad net, ar sail mudo, yn y boblogaeth sydd yn eu hugeiniau, tra bod peth cynnydd net yn y boblogaeth o fewn y grwpiau oedran rhwng 45-64.
- Gweler cynnydd net arwyddocaol, ar sail mudo, yn y boblogaeth sydd yn y grŵp oedran 15-19 ym mhob un o'r blynyddoedd dan sylw. Mae'n debygol

mai un o'r prif resymau dros hyn yw'r myfyrwyr sydd yn symud i Fangor er mwyn astudio yn y Brifysgol yno. Yn yr un modd, mae'n debygol fod elfen o'r lleihad net ar gyfer pobl yn eu hugeiniau yn ymwneud â'r ffaith fod myfyrwyr yn symud allan o Fangor wedi iddynt gwblhau eu cyrsiau.

- Ym mhob blwyddyn dan sylw, gweler fod lleihad net, ar sail mudo, yn y boblogaeth yn y categorïau oedran 20-24, 25-29 a 30-34. Roedd unai cynnydd net, dim newid neu leihad bychan o ran y categorïau oedran 50-54, 55-59 a 60-64. Noder bod lleihad net wedi bod pob blwyddyn o ran y boblogaeth yn y grŵp oedran dros 65 mlwydd oed.

Ynys Môn

- Gweler lleihad net, ar sail mudo, ym mhoblogaeth y grŵp 15-19 mlwydd oed ym mhob un o'r blynyddoedd dan sylw. Tra bod cynnydd bychan wedi bod yn y gyfradd net pob blwyddyn ar gyfer y boblogaeth yn y grŵp oedran 20-24. Ar y cyfan noder fod lleihad ym mhob blwyddyn dan sylw ar gyfer y boblogaeth yng ngrŵp oedran 15-29.
- Cynnydd ym mhob un o'r blynyddoedd dan sylw yn y boblogaeth yn y categorïau oedran 45-49, 50-54, 55-59 a 60-64. Lleihad yn y boblogaeth dros 65 mlwydd oed ym mhob blwyddyn ar wahân i un.

## 3.7 Cyflenwad llafur (Gorffennaf 2013 – Mehefin 2014)

Gwynedd

| | Nifer | Gwynedd | Cymru | Prydain Fawr |
|---|---|---|---|---|
| Economaidd weithgar[10] | 56,700 | 74.5% | 75.0% | 77.5% |
| Mewn gwaith | 53,400 | 69.9% | 69.5% | 72.1% |
| Gweithwyr cyflogedig | 40,300 | 54.2% | 59.5% | 61.6% |
| Hunangyflogaeth | 12,400 | 15.0% | 9.1% | 9.9% |
| Di-waith[11] | 3,700 | 6.4% | 7.1% | 6.8% |

[10] Mae'r niferoedd a nodir yn berthnasol ar gyfer unigolion sydd yn 16 mlwydd oed a trosodd. Mae'r canrannau yn berthnasol ar gyfer unigolion sydd rhwng 16-64 mlwydd oed.

[11] Mae'r niferoedd a chanrannau yn berthnasol ar gyfer unigolion sydd yn 16 mlwydd oed a trosodd. Mae'r canrannau yn cyfeirio at gyfrannedd o'r rhai sy'n economaidd weithgar.

Ynys Môn

| | | Nifer | Ynys Môn | Cymru | Prydain Fawr |
| Ynys Môn | 30,594 | 30,577 (Sail y canrannau) | 28,229 (92.3%) | 14,534 (47.5%) | 6,783 (22.2%) | 6,912 (22.6%) | 2,136 (7.0%) | 1,437 (4.7%) | 413 (1.4%) | 286 (0.9%) | 212 (0.7%) | 17 |
| Cymru | 1,302,676 | 1,300,696 (Sail y canrannau) | 1,136,208 (87.4%) | 361,141 (27.8%) | 414,386 (31.9%) | 360,681 (27.7%) | 160,486 (12.3%) | 123,580 (9.5%) | 26,124 (2.0%) | 10,782 (0.8%) | 4,002 (0.3%) | 1,980 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 (Tabl QS402EW)

<u>Gwynedd</u> (Gwybodaeth wedi ei seilio ar anheddau nad sydd yn cael eu rhannu)

- 35.0% o aelwydydd yn byw mewn tai neu fyngalos sengl.
- 31.4% o aelwydydd yn byw mewn tai teras. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru (27.7%).
- Y canran o aelwydydd sy'n byw mewn tai pâr yng Ngwynedd (24.4%) yn llawer is na'r canran gyfatebol ar gyfer Cymru gyfan (31.9%).

- Mae'r canran o aelwydydd sy'n byw mewn fflatiau yng Ngwynedd (9.8%) ychydig yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan (12.3%).

Ynys Môn (Gwybodaeth wedi ei seilio ar anheddau nad sydd yn cael eu rhannu)

- 47.5% o aelwydydd yn byw mewn tai neu fyngalos sengl. Mae hyn yn llawer uwch na'r ffigwr cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan (27.8%).
- Y canran o aelwydydd sy'n byw mewn tai pâr (22.1%) yn llawer is na'r canran cyfatebol ar gyfer Cymru gyfan (31.9%).
- 22.6% o'r holl aelwydydd yn byw mewn tai teras, sy'n is na chyfartaledd Cymru (27.7%).
- Mae'r canran o aelwydydd sy'n byw mewn fflatiau yn Ynys Môn (7.0%) yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan (12.3%).

## 7.3 Oed y stoc dai

Gwynedd

- Nodai Arolwg Cyflwr Tai Cymru 1998 (Llywodraeth Cymru) fod y stoc dai yng Ngwynedd yn llawer hŷn na'r stoc dai gyffredinol yng Nghymru gyfan. Nododd yr Arolwg fod bron i hanner y stoc yng Ngwynedd (47%) wedi'u hadeiladu cyn 1919, o'i gymharu â 32% yng Nghymru. Ymysg Awdurdodau Unedol Cymru, dim ond Rhondda Cynon Taf (54%) oedd â chyfran uwch o dai a adeiladwyd cyn 1919, tra bod gan awdurdodau cyffiniol Ynys Môn a Chonwy gyfrannau o 32% a 28% yr un.

Ynys Môn

- Nodai Arolwg Cyflwr Tai Cymru 1998 (Llywodraeth Cymru), fod 32% o stoc dai Ynys Môn wedi'u hadeiladu cyn 1919 (sef yr un canran â Chymru gyfan).
- Mewn arolwg o gyflwr stoc tai sector breifat Ynys Môn (Mehefin 2008) [sampl o 1812 annedd], nodwyd bod oddeutu 24.3% o dai yn y sampl hon wedi'u hadeiladu cyn 1919.

## 7.4 Cyflwr y stoc dai

* Noder nad oes gwybodaeth gymharol yn bodoli ar gyfer y ddwy ardal awdurdod cynllunio o ran y maes hwn. Cynhaliwyd arolwg o gyflwr tai yng Ngwynedd yn 2003. Mae'r wybodaeth ar gyfer Ynys Môn fodd bynnag yn berthnasol ar gyfer tai sector breifat yn unig (Arolwg Safon Tai Sector Breifat 2008). Mae Arolwg Cyflwr Tai Cymru, a gynhaliwyd yn 1998, yn darparu gwybodaeth am gyflwr y stoc dai yn y ddau awdurdod.

Gwynedd

7.4.1 Anaddasrwydd tai yn ôl daliadaeth

| Daliadaeth | Canran o unedau sydd yn anaddas o fewn y ddaliadaeth | Canran o'r holl unedau anaddas sydd yn perthyn i'r ddaliadaeth benodol |
|---|---|---|
| Perchen-feddiannwyd | 8.6 | 73.5 |
| Tai cymdeithasol | 3.2 | 4.1 |
| Rhentu'n breifat | 17.6 | 22.1 |
| Cyfanswm stoc Gwynedd | 9.0 | 100.0 |

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Gwynedd, 2003

7.4.2 Tai diffygiol yn ôl daliadaeth

Nodyn: Mae tai diffygiol yn cyfeirio at unedau a all waethygu o ran eu safon a chael eu dosbarthu yn y categori 'anaddas'.

| Daliadaeth | Canran o unedau sydd yn ddiffygiol o fewn y ddaliadaeth | Canran o'r holl unedau diffygiol sydd yn perthyn i'r ddaliadaeth benodol |
|---|---|---|
| Perchen-feddiannwyd | 18.0 | 76.0 |
| Tai cymdeithasol | 16.3 | 10.9 |
| Rhentu'n breifat | 21.2 | 13.1 |
| Cyfanswm stoc Gwynedd | 18.2 | 100.0 |

Ffynhonnell: Arolwg Cyflwr Tai Gwynedd, 2003

7.4.3 Adolygiad o Dai Sector Breifat, Prifysgol Glyndŵr, 2014

Fel dilyniant i'r arolwg tai a wnaed yn 2003 mae Adran Strategol Tai Cyngor Gwynedd wedi comisiynu arolwg o'r sector tai breifat yng Ngwynedd. Nid arolwg traddodiadol o gyflwr stoc tai yw hwn ond adolygiad pen desg o'r gwaith sydd wedi cymryd lle yn y Sir yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn adnabod os oes gwelliant wedi bod.

Fe nodir bod y sector breifat, yng nghyd- destun rhentu yn breifat wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar draul hunan berchnogaeth.

Ar sail adolygiad o dystiolaeth o waith sydd wedi ei wneud yn y Sir gellir dweud nad yw cyflwr eiddo wedi gwella yn syfrdanol. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod tua 4,500 o eiddo wedi eu gwella, yn bennaf drwy waith sydd wedi ei gydlynu / ymyrraeth gan y Cyngor. Mae hyn yn golygu, ar gyfartaledd bod 410 o eiddo yn cael eu gwella bob blwyddyn. Mae'r ffigyrau hyn yn seiliedig ar nifer o wahanol ffynonellau gwybodaeth.

Gwynedd ac Ynys Môn

7.4.4 Anheddau anffit yn ôl daliadaeth (Arolwg Cyflwr Tai Cymru 1998, Llywodraeth Cymru)

| Daliadaeth | Canran o unedau sydd yn 'anffit' | | |
|---|---|---|---|
| | **Cymru** | **Gwynedd** | **Ynys Môn** |
| Perchen-feddiannwyd | 7.6% | 11.3% | 3.9% |
| Tai cymdeithasol | 8.2% | 5.6% | 3.1% |
| Tai rhent preifat | 18.4% | 15.5% | 10.2% |
| Pob math o uned | 8.5% | 10.5% | 4.4% |

Ynys Môn [Arolwg Safon Tai Sector Breifat 2008 - sampl o 1812 o anheddau preswyl preifat]

7.4.5 Dosraniad o beryglon categori 1[22] fesul ardaloedd

| Ardaloedd[23] | Canran o unedau ble mae risg categori 1 yn amlwg |
|---|---|
| Ynys Môn | 22.3% |
| Cybi | 11.5% |
| Alaw | 18.2% |
| Eilian | 19.8% |
| Eleth | 41.7% |
| Cefni | 18.1% |
| Menai | 16.2% |
| Aethwy | 33.4% |

Ffynhonnell: Arolwg Safon Tai Sector Breifat Ynys Môn 2008

7.4.6 Dosraniad o beryglon categori 1 fesul daliadaeth

| Daliadaeth | Canran o unedau ble mae risg categori 1 yn amlwg |
|---|---|
| Perchen-feddiannwyd | 21.0% |
| Rhentu'n breifat | 35.4% |
| Gwag/eraill | 22.6% |

Ffynhonnell: Arolwg Safon Tai Sector Breifat Ynys Môn 2008

[22] Mae peryglon Categori 1 wedi eu hadnabod ar sail gwerthusiad o'r risgiau posib i iechyd a diogelwch o unrhyw ddiffygion sydd wedi eu hadnabod mewn anheddau (ar sail y System 'Housing Health and Safety Rating'). Mae 29 o beryglon wedi eu hadnabod, sydd wedi eu rhannu i bedwar prif grŵp, sydd yn adlewyrchu anghenion iechyd sylfaenol. Mae Deddf Tai 2004 yn rhoi dyletswydd cyffredinol ar Awdurdodau Lleol i weithredu'n briodol mewn perthynas â pherygl Categori 1.

[23] Mae'r is-ardaloedd wedi eu rhannu fel y ganlyn:
**Cybi:** Wardiau Tref Caergybi, Kingsland, Ffordd Llundain, Maeshyfryd, Morawelon, Parc a'r Mynydd, Porthyfelin
**Alaw:** Wardiau Llanfaethlu, Llanfair yn Neubwll, Trearddur, Trewalchmai, Y Fali
**Eilian:** Wardiau Porth Amlwch, Amlwch Wledig, Llanbadrig, Llaneilian, Mechell
**Eleth:** Wardiau Brynteg, Llanbedrgoch, Llanddyfnan, Llanerch-y-medd, Moelfre, Pentraeth
**Cefni:** Wardiau Bodffordd, Cefni, Cyngar, Llanfihangel Esgeifiog, Tudur
**Menai:** Wardiau Biwmares, Braint, Cadnant, Cwm Cadnant, Gwyngyll, Llangoed, Tysilio
**Aethwy:** Wardiau Aberffraw, Bodorgan, Llanidan, Rhosneigr, Rhosyr

7.4.7 Anheddau anffit[24] fesul ardaloedd

| Ardaloedd | Canran o anheddau anffit |
|---|---|
| Ynys Môn | 2.0% |
| Cybi | 1.2% |
| Alaw | 1.3% |
| Eilian | 1.2% |
| Eleth | 0.8% |
| Cefni | 4.2% |
| Menai | 2.5% |
| Aethwy | 3.4% |

Ffynhonnell: Arolwg Safon Tai Sector Breifat Ynys Môn 2008

7.4.8 Anheddau anffit fesul daliadaeth

| Daliadaeth | Canran o anheddau anffit |
|---|---|
| Perchen-feddiannwyd | 1.4% |
| Rhentu'n breifat | 5.7% |
| Gwag/eraill | 3.3% |

Ffynhonnell: Arolwg Safon Tai Sector Breifat Ynys Môn 2008

- Yng Ngwynedd, nodir fod mwyafrif o'r tai 'anaddas' neu 'ddiffygiol' yn rhai a'u 'perchen-feddiannwyd' (sef y ddeiliadaeth tai amlycaf).
- O safbwynt y tair math o ddaliadaeth tai, nodir mai'r sector 'rhentu'n breifat' sydd â'r problemau mwyaf o ran y canran o unedau sydd yn 'anaddas'/ 'diffygiol'/ 'anffit' yng Ngwynedd ac yn Ynys Môn.
- Mae Arolwg 1998 yn nodi fod cyflwr anheddau, ar y cyfan, yn waeth yng Ngwynedd o'i gymharu ag Ynys Môn. O bosib fod hyn yn ymwneud yn rhannol â'r ffaith fod stoc dai Gwynedd yn hŷn na stoc dai Ynys Môn (Gweler rhan 7.3).
- Tra nodir fod y wybodaeth sy'n benodol ar gyfer Ynys Môn yn canolbwyntio ar dai preifat yn unig, gweler fod problemau (h.y. unedau sy'n anffit neu

[24] Y pedair prif elfen sy'n golygu fod anheddau'n cael eu hadnabod fel bod yn anffit yw:

- Atgyweirio (250 annedd neu 47.4% o'r holl anheddau sy'n anffit);
- Cyfleusterau coginio a pharatoi bwyd (169 annedd neu 32.1% o'r holl anheddau sy'n anffit);
- Cawod/bath a basn ymolchi dwylo (129 annedd neu 24.5% o'r holl anheddau sy'n anffit); a
- Gwlybaniaeth (113 annedd neu 21.4% o'r holl anheddau sy'n anffit).

unedau sydd yn cynnwys peryglon categori 1) yn fwy amlwg yn y sector rhentu'n breifat o'i gymharu â'r sectorau preifat eraill (wrth ystyried y canrannau).

- Mae gwahaniaethau amlwg rhwng gwahanol ardaloedd o Ynys Môn mewn perthynas â safon y stoc dai preifat (o fewn y sampl hwn).

## 7.5 Gwerthiant tai

### 7.5.1 Gwerthiant blynyddol unedau preswyl o ran math


Gwynedd

| Blwyddyn | Gwerthiannau tai 2il law | Gwerthiannau fflatiau 2il law | Gwerthiannau tai sydd wedi eu hadeiladu o'r newydd | Gwerthiannau fflatiau sydd wedi eu hadeiladu o'r newydd | Cyfanswm y gwerthiannau |
|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | 1,661 (92.8%) | 89 (5.0%) | 23 (1.3%) | 16 (0.9%) | 1,789 |
| 2008 | 951 (92.1%) | 58 (5.6%) | 16 (1.5%) | 8 (0.8%) | 1,033 |
| 2009 | 1,074 (93.5%) | 44 (3.8%) | 16 (1.4%) | 15 (1.3%) | 1,149 |
| 2010 | 1,158 (92.3%) | 52 (4.1%) | 25 (2.0%) | 19 (1.5%) | 1,254 |
| 2011 | 1,175 (93.8%) | 55 (4.4%) | 18 (1.4%) | 4 (0.3%) | 1,252 |
| 2012 | 1,055 (94.2%) | 46 (4.1%) | 13 (1.2%) | 6 (0.5%) | 1,120 |
| 2013 | 1,133 (92.1%) | 55 (4.5%) | 31 (2.5%) | 11 (0.9%) | 1,230 |

Ynys Môn

| Blwyddyn | Gwerthiannau tai 2il law | Gwerthiannau fflatiau 2il law | Gwerthiannau tai sydd wedi eu hadeiladu o'r newydd | Gwerthiannau fflatiau sydd wedi eu hadeiladu o'r newydd | Cyfanswm y gwerthiannau |
|---|---|---|---|---|---|
| 2007 | 1,000 (92.5%) | 19 (1.8%) | 58 (5.4%) | 4 (0.4%) | 1,081 |
| 2008 | 529 (85.7%) | 21 (3.4%) | 65 (10.5%) | 2 (0.3%) | 617 |
| 2009 | 561 (87.7%) | 17 (2.7%) | 62 (9.7%) | - (0.0%) | 640 |
| 2010 | 582 (93.0%) | 14 (2.2%) | 28 (4.5%) | 2 (0.3%) | 626 |
| 2011 | 667 (92.6%) | 22 (3.1%) | 21 (2.9%) | 10 (1.4%) | 720 |
| 2012 | 614 (87.5%) | 27 (3.8%) | 42 (6.0%) | 19 (2.7%) | 702 |
| 2013 | 728 (92.0%) | 27 (3.4%) | 26 (3.3%) | 10 (1.3%) | 791 |

Ffynhonnell: Y Gofrestrfa Dir




- Unedau tai ail law (h.y. unedau tai nad sydd wedi eu hadeiladu o'r newydd) sy'n ffurfio'r mwyafrif helaeth o werthiannau preswyl yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Mae'r canrannau hyn wedi bod ychydig yn uwch yng Ngwynedd (rhwng 92.1% a 94.2% o'r holl werthiannau yn ystod y blynyddoedd dethol) o'i gymharu ag Ynys Môn (rhwng 85.7% a 93.0% o'r holl werthiannau yn ystod y blynyddoedd dethol).
- Mae gwerthiannau tai sydd wedi eu hadeiladu o'r newydd (h.y. fel canran o gyfanswm yr holl werthiannau) wedi bod yn fwy amlwg yn Ynys Môn nag yng Ngwynedd.
- Gostyngiad amlwg yng nghyfanswm y gwerthiannau rhwng 2007 a 2008 (lleihad o 42.3% yng Ngwynedd a 42.9% yn Ynys Môn). Mae'n debygol bod hyn yn adlewyrchu'r problemau economaidd a ddaeth i'r amlwg ym Mhrydain yn 2008. Peth cynnydd mewn gwerthiannau wedi hynny gyda'r sefyllfa yn fwy cyson (gyda nifer y gwerthiannau yn llawer is na lefel 2007).


## 7.6 Prisiau tai

7.6.1 <u>Prisiau unedau preswyl – Canolrif yn seiliedig ar werthiannau</u>

| Blwyddyn | Gwynedd | | Ynys Môn | |
|---|---|---|---|---|
| | Pris (£) | Nifer o werthiannau | Pris (£) | Nifer o werthiannau |
| 2001 | £55,000 | 2,429 | £59,995 | 1,261 |
| 2002 | £63,000 | 2,480 | £70,000 | 1,490 |
| 2003 | £85,000 | 2,268 | £87,000 | 1,359 |

| Blwyddyn | Gwynedd | | Ynys Môn | |
|---|---|---|---|---|
| | Pris (£) | Nifer o werthiannau | Pris (£) | Nifer o werthiannau |
| 2004 | £113,500 | 1,875 | £120,000 | 663 |
| 2005 | £135,000 | 847 | £142,500 | 466 |
| 2006 | £140,000 | 1,792 | £145,250 | 1,090 |
| 2007 | £145,000 | 1,807 | £155,000 | 1,197 |
| 2008 | £140,000 | 1,097 | £150,250 | 641 |
| 2009 | £139,000 | 1,205 | £149,999 | 667 |
| 2010 | £136,000 | 1,311 | £150,000 | 665 |
| 2011 | £132,000 | 1,252 | £140,000 | 719 |
| 2012 | £136,000 | 1,120 | £150,000 | 702 |
| 2013 | £135,750 | 1,228 | £144,000 | 787 |

Ffynhonnell: Y Gofrestrfa Tir




- Prisiau tai yng Ngwynedd wedi cynyddu ym mhob blwyddyn hyd at 2007 (cynnydd o 163.6% yng nghanolrif prisiau tai yng Ngwynedd rhwng 2001 a 2007). Wedi hynny gwelwyd lleihad amlwg yn y prisiau tai. Cafwyd

gostyngiad ym mhrisiau tai pob blwyddyn rhwng 2008 a 2011 cyn codi ychydig yn 2012. Mae'n debygol bod y tueddiad hwn yn adlewyrchu'r problemau economaidd a ddaeth i'r amlwg ym Mhrydain yn 2008.


- Gweler patrwm tebyg yn Ynys Môn, gyda chynnydd parhaus hyd at 2007 a gostyngiad wedi hynny. Gwelwyd cynnydd yn 2012 cyn gostyngiad atal yn 2013. Cafwyd cynnydd o 158.4% yng nghanolrif prisiau tai yn Ynys Môn rhwng 2001 a 2007.
- Gwelwyd gostyngiad amlwg yn y nifer o eiddo a werthwyd yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn y flwyddyn rhwng 2007 a 2008. Yn gyffredinol, mae gwerthiannau wedi cynyddu ychydig ers hynny. Rhagdybir fod hyn yn adlewyrchiad o effaith y dirwasgiad ar y farchnad dai, gan nad oedd pobl yn fodlon/gallu fforddio gwerthu eu tai am bris sydd yn is na'r hyn y gwnaethant brynu eu tai amdano. Golygai hyn fod llai o dai ar gael ar gyfer eu gwerthu.

7.6.2 Prisiau tai chwartel isaf[25]

| Cyfnod | Gwynedd | | Ynys Môn | |
|---|---|---|---|---|
| | Pris (£) | Nifer o werthiannau | Pris (£) | Nifer o werthiannau |
| 2001 | £37,000 | 2,429 | £41,000 | 1,261 |
| 2002 | £44,963 | 2,480 | £47,000 | 1,490 |
| 2003 | £57,000 | 2,268 | £59,000 | 1,359 |
| 2004 | £75,500 | 1,875 | £78,950 | 663 |
| 2005 | £95,000 | 847 | £99,500 | 466 |
| 2006 | £102,500 | 1,792 | £100,000 | 1,090 |
| 2007 | £113,000 | 1,807 | £113,750 | 1,197 |
| 2008 | £104,500 | 1,097 | £110,000 | 641 |
| 2009 | £98,500 | 1,205 | £110,000 | 667 |
| 2010 | £102,000 | 1,311 | £103,000 | 665 |
| 2011 | £100,000 | 1,252 | £100,000 | 719 |
| 2012 | £95,625 | 1,120 | £110,000 | 702 |
| 2013 | £100,000 | 1,228 | £105,000 | 787 |

Ffynhonnell: Y Gofrestrfa Tir

[25] Os yn rhestru'r holl unedau preswyl o fewn y sampl mewn cyfnod penodol o ran gwerth (gwerth uchaf i'r gwerth isaf), mae'r 'pris tai chwartel isaf' yn cyfeirio at werth yr eiddo sydd union 75% o'r ffordd i lawr y rhestr.




- Gwynedd: Cynyddodd prisiau tai chwartel isaf ym mhob blwyddyn rhwng 2001 a 2007. Cafwyd gostyngiad amlwg erbyn 2008, cyn iddo gysoni wedi hynny.
- Ynys Môn: Cynyddodd prisiau tai chwartel isaf ym mhob blwyddyn rhwng 2001 a 2007. Cafwyd gostyngiad cyson ym mhob blwyddyn wedi hynny cyn cynyddu yn 2012.

## 7.7 Nifer yr unedau preswyl a werthwyd fesul pris (2013)


Gwynedd

| | Pris (£ miloedd) | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o uned** | **<50** | **50-75** | **75-100** | **100-125** | **125-150** | **150-175** | **175-200** | **200-225** | **225-250** | **250-275** | **275-300** |
| Teras | 16 | 76 | 115 | 135 | 78 | 36 | 20 | 14 | 11 | 4 | 2 |
| Pâr | 1 | 12 | 29 | 47 | 56 | 50 | 33 | 13 | 8 | 2 | 4 |
| Sengl | 5 | 7 | 10 | 21 | 39 | 51 | 62 | 49 | 54 | 25 | 19 |
| Fflatiau | 4 | 16 | 11 | 6 | 11 | 7 | 4 | 3 | 3 | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **26** | **111** | **165** | **209** | **184** | **144** | **119** | **79** | **76** | **32** | **25** |


| Math o uned | 300-325 | 325-350 | 350-375 | 375-400 | 400-450 | 450-500 | 500-550 | 550-600 | 600-800 | 800-1.0M | 1.0M+ | Cyfan swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Teras | 2 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 511 |
| Pâr | 3 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 261 |
| Sengl | 15 | 4 | 5 | 7 | 9 | 3 | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | 392 |
| Fflatiau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 66 |
| **Cyfanswm** | **20** | **5** | **6** | **8** | **10** | **3** | **2** | **3** | **1** | **1** | **1** | **1230** |

Ffynhonnell: Y Gofrestrfa Tir, 2013

*Nifer o werthiannau fesul pris – Pob math o unedau preswyl*



*Nifer o werthiannau fesul pris – Mathau penodol o unedau preswyl*





Ynys Môn


| | Pris (£ miloedd) | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o uned** | **<50** | **50-75** | **75-100** | **100-125** | **125-150** | **150-175** | **175-200** | **200-225** | **225-250** | **250-275** | **275-300** | |
| Teras | 9 | 46 | 67 | 38 | 29 | 17 | 2 | 2 | 2 | 0 | 2 | |
| Pâr | 0 | 7 | 24 | 40 | 38 | 28 | 5 | 3 | 5 | 2 | 1 | |
| Sengl | 0 | 3 | 9 | 39 | 54 | 91 | 47 | 29 | 25 | 19 | 15 | |
| Fflatiau | 4 | 6 | 3 | 2 | 5 | 6 | 4 | 2 | 4 | 0 | 0 | |
| **Cyfanswm** | **13** | **62** | **103** | **119** | **126** | **142** | **58** | **36** | **36** | **21** | **18** | |
| **Math o uned** | **300-325** | **325-350** | **350-375** | **375-400** | **400-450** | **450-500** | **500-550** | **550-600** | **600-800** | **800-1.0M** | **1.0M+** | **Cyfan swm** |
| Teras | 1 | 1 | 0 | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 220 |
| Pâr | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 155 |
| Sengl | 17 | 7 | 8 | 1 | 5 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 | 0 | 379 |
| Fflatiau | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 37 |
| **Cyfanswm** | **19** | **8** | **8** | **4** | **6** | **4** | **3** | **2** | **2** | **1** | **0** | **791** |

Ffynhonnell: Y Gofrestrfa Tir, 2013

*Nifer o werthiannau fesul pris – Pob math o unedau preswyl*




*Nifer o werthiannau fesul pris – Mathau penodol o unedau preswyl*



Gwynedd

- Gwerthwyd mwy o dai teras yng Ngwynedd yn 2013 nag unrhyw fath arall o uned breswyl.
- Gwerthwyd mwy o unedau preswyl (h.y. pob math o uned breswyl) yng Ngwynedd am bris o fewn y categori £100,000-125,000 yn 2013 nag unrhyw gategori pris arall. Yr ail gategori pris mwyaf amlwg oedd £125,000-150,000 gyda £75,000-100,000 yn drydydd.
- Y categori pris amlycaf ar gyfer tai teras oedd £100,000-£125,000, gyda nifer sylweddol hefyd wedi eu gwerthu am bris rhwng £75,000 a £100,000.
- Y categori pris amlycaf ar gyfer gwerthiannau tai pâr oedd £125,000-£150,000 gyda nifer sylweddol hefyd wedi eu gwerthu rhwng £100,000-125,000 a £150,000-175,000.
- £175,000-£200,000 oedd y categori pris amlycaf ar gyfer gwerthiannau tai sengl yng Ngwynedd.

Ynys Môn

- Gwerthwyd mwy o dai sengl yn Ynys Môn yn 2013 nag unrhyw fath arall o uned breswyl.
- Gwerthwyd mwy o unedau preswyl (h.y. pob math o uned breswyl) yn Ynys Môn am bris o fewn y categori £150,000-175,000 yn 2013 nag unrhyw gategori pris arall. Wedi hynny'r categorïau pris mwyaf amlwg oedd £125,000-150,000 a £75,000-100,000.
- Y categori pris amlycaf ar gyfer tai teras oedd £75,000-£100,000.
- Y categori pris amlycaf ar gyfer gwerthiannau tai pâr oedd £100,000-125,000, gyda nifer sylweddol hefyd wedi eu gwerthu rhwng £125,000-150,000.
- £150,000-175,000 oedd y categori pris amlycaf ar gyfer gwerthiannau tai sengl yn Ynys Môn.

## 7.8 Cymhareb Fforddiadwyedd (2013)[26]

| Awdurdod Lleol | | Cymhareb fforddiadwyaeth | Awdurdod Lleol | Cymhareb fforddiadwyaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | | **6.1** | **Ynys Môn** | **6.0** |
| **Detholiad o wardiau penodol** | | **Cymhareb fforddiadwyaeth** | **Detholiad o wardiau penodol** | **Cymhareb fforddiadwyaeth** |
| Wardiau gyda'r gymhareb fforddiadwyedd uchaf | Llanbedrog | 15.3 | Rhosneigr | 9.9 |
| | Abersoch | 13.0 | Cadnant | 8.7 |
| | Llanengan | 10.3 | Biwmares | 8.3 |
| | Aberdaron | 9.6 | Aberffraw | 7.9 |
| | De Pwllheli | 9.4 | Llanddyfnan | 7.8 |
| Wardiau gyda'r gymhareb fforddiadwyedd isaf | Diffwys & Maenofferen (Blaenau Ffestiniog) | 3.3 | Llanfair-yn-Neubwll | 3.3 |
| | Cwm y Glo | 3.6 | Kingsland, Caergybi | 3.7 |
| | Penygroes | 3.9 | Braint | 3.7 |
| | Llanllyfni | 4.1 | Tref Caergybi | 4.0 |
| | Bowydd & Rhiw (Blaenau Ffestiniog) | 4.1 | Porthyfelin | 4.1 |
| | | | Ffordd Llundain, Caergybi | 4.1 |

Ffynhonnell: Y Gofrestrfa Tir a CACI PayCheck

- Yn 2013 roedd canolrif prisiau tai yng Ngwynedd yn 6.1 gwaith yn fwy na'r canolrif incwm. Yn Ynys Môn, roedd y ffigwr hwn yn 6.0. Noder fod y ffigyrau hyn yn uwch na'r gyfradd ddelfrydol, sef 2.9 o ran incwm unigol a 3.5 ar gyfer incwm deuol.
- Mae gwahaniaethau amlwg yn y gymhareb fforddiadwyedd rhwng gwahanol wardiau yn awdurdodau cynllunio Gwynedd ac Ynys Môn.
- Yng Ngwynedd, mae canolrif prisiau tai yn llawer uwch na'r canolrif incwm mewn rhai wardiau ym Mhen Llŷn.

[26] Mae'r gymhareb fforddiadwyedd wedi ei seilio ar y gymhareb rhwng canolrif prisiau tai (y Gofrestrfa Dir) a chanolrif incwm (CACI PayCheck)

- Tra bod gwerth y cymarebau fforddiadwyedd uchaf o ran wardiau Ynys Môn ar y cyfan yn is na'r gwerthoedd cyfatebol yng Ngwynedd, gweler gwahaniaethau clir rhwng gwerth y cymarebau uchaf ac isaf.

## 7.9 Angen blynyddol am dai fforddiadwy

- Mae Asesiad Marchnad Dai Leol Ynys Môn ac Astudiaeth Anghenion Tai Gwynedd wedi darparu braslun o faint o dai fforddiadwy sy'n debygol fyddai eu hangen yn Ynys Môn a Gwynedd. Noder fod y ffigwr hyn oddeutu 1,344 o unedau tai bob blwyddyn am bum mlynedd i fodloni'r anghenion sydd wedi cronni dros y blynyddoedd a'r anghenion sy'n dod i'r amlwg.
- Mae hyn wedi ei seilio ar oddeutu 709 uned fforddiadwy'r flwyddyn yng Ngwynedd a 635 uned fforddiadwy'r flwyddyn yn Ynys Môn.
- Mae'r ffigyrau hyn wedi eu seilio ar rannu'r angen am dai fforddiadwy dros gyfnod o 5 mlynedd ac maent yn seiliedig ar fethodoleg Llywodraeth Cymru sydd yn amcangyfrif 25% o incwm aelwydydd tuag at gostau tai.
- Roedd yr asesiadau yn dangos, ar draws ardal y Cynllun, bod yr angen mwyaf am unedau rhent cymdeithasol yn hytrach nag aneddleoedd lle rhennir y berchnogaeth.
- Nodir nad datganiad o ran y nifer o dai fforddiadwy newydd fydd angen eu hadeiladu yw hyn gan y byddai'n bosib diwallu cyfran o'r angen drwy ddulliau eraill yn ogystal.

## 7.10 Eiddo gwag

<u>Wardiau sydd â'r mwyaf o eiddo gwag</u>

Mae'r wybodaeth yn y tablau hyn yn cyfeirio at unedau preswyl sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.

<u>Awdurdod Cynllunio Gwynedd</u>[27]

| Ward | Nifer o eiddo gwag |
|---|---|
| Bowydd a Rhiw | 35 |
| Criccieth | 32 |
| Abermaw | 27 |
| Diffwys a Maenofferen | 24 |
| Pwllheli (Gogledd) | 24 |
| Corris / Mawddwy | 23 |
| Teigl | 23 |
| Llanystumdwy | 23 |

Ffynhonnell: Gwasanaeth Tai Sector Breifat, Cyngor Gwyned, 7/1/13

[27] Wardiau ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig

Ynys Môn[28]

| Ardal Cyngor Cymuned | Nifer o eiddo gwag |
|---|---|
| Caergybi | 130 |
| Amlwch | 85 |
| Llangefni | 52 |

Ffynhonnell: Gwasanaeth Tai Cyngor Sir Ynys Môn, 1af Ebrill, 2014

- Mae'r mwyafrif o wardiau / ardaloedd Cyngor Cymuned sydd â'r nifer uchaf o eiddo gwag hir dymor, yn rhai trefol eu natur.
- Mae gwybodaeth gan Wasanaeth Tai Sector Breifat Cyngor Gwynedd (7/1/13) yn nodi bod 1,078 eiddo gwag hir dymor yng Ngwynedd.
- Yn Ebrill 2014, roedd 855 o gartrefi gweigion yn Ynys Môn (gwybodaeth gan Wasanaeth Tai, Cyngor Sir Ynys Môn).
- Mewn astudiaeth gan Shelter Cymru (Gorffennaf 2008), nodwyd mai Gwynedd oedd â'r wythfed nifer uchaf o eiddo gwag hir dymor ym mhlith holl Awdurdodau Lleol Cymru (nododd yr astudiaeth fod 1,308 eiddo gwag yng Ngwynedd). Nodwyd mai Ynys Môn oedd â'r 18fed nifer uchaf o eiddo gwag (716 eiddo gwag).

## 7.11 Tai nas meddiannwyd ac ail gartrefi

7.11.1 Gofodau aelwydydd gyda dim preswylwyr arferol (Gofodau aelwydydd) – Cyfrifiad 2011

| | Gwynedd | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|---|
| Gofodau aelwydydd gyda dim preswylwyr arferol (nifer) | 8,602 | 3,589 | 82,845 |
| Gofodau aelwydydd gyda dim preswylwyr arferol (canran) | 14.1% | 10.5% | 6.0% |
| Holl ofodau aelwydydd | 61,075 | 34,183 | 1,385,521 |

Ffynhonnell: Tabl KS401EW, Cyfrifiad 2011

[28] Tai gwag sydd heb eu dodrefnu ac sydd wedi eu heithrio o dalu Treth y Cyngor (Chwefror 2010)

7.11.2 Detholiad o wardiau penodol – Cyfrifiad 2011[29]

| | Gofodau aelwydydd gyda dim preswylwyr arferol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | GWYNEDD | | YNYS MÔN | |
| | Ward | Canran | Ward | Canran |
| Wardiau gyda'r canrannau uchaf | Abersoch | 54.0 | Rhosneigr | 42.7 |
| | Llanengan | 34.7 | Trearddur | 31.6 |
| | Gorllewin Porthmadog | 33.0 | Moelfre | 25.8 |
| | Aberdaron | 30.1 | Llanbedrgoch | 18.0 |
| | Morfa Nefyn | 28.2 | Llangoed | 15.9 |
| Wardiau gyda'r canrannau isaf | Glyder | 2.4 | Ffordd Llundain | 1.8 |
| | Dewi | 2.7 | Morawelon | 2.4 |
| | Marchog | 2.7 | Tudur | 2.5 |
| | Peblig | 2.9 | Kingsland | 3.3 |
| | Cadnant | 3.0 | Tysilio | 3.8 |

Ffynhonnell: Tabl KS401EW, Cyfrifiad 2011

- Mae'r wybodaeth yn y tabl hwn yn cyfeirio at dai gwag ynghyd ac ail gartrefi/llety gwyliau (wedi eu cyfuno). Ni chafodd y wybodaeth hyn ei rannu yng Nghyfrifiad 2011 fel y gwnaethpwyd yng Nghyfrifiad 2001 (gweler isod).
- Mae'r canran o ofodau aelwydydd sydd heb breswylwyr arferol yng Ngwynedd yn llawer uwch na'r canran cyfatebol ar gyfer Cymru gyfan.
- Mae'r canran o ofodau aelwydydd sydd heb breswylwyr arferol yn Ynys Môn hefyd yn arwyddocaol uwch na'r canran cyfatebol ar gyfer Cymru gyfan.
- Mae'r wardiau gyda'r canrannau isaf o ofodau aelwydydd gyda dim preswylwyr arferol wedi eu lleoli mewn ardaloedd trefol.
- Mae'r wardiau gyda'r canrannau uchaf o ofodau aelwydydd gyda dim preswylwyr arferol wedi eu lleoli, yn gyffredinol, mewn ardaloedd arfordirol poblogaidd.

[29] Dim ond wardiau a leolir o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a ystyriwyd yn y tabl hwn.

7.11.3 Ail Gartrefi –Gwybodaeth Treth y Cyngor, Gwynedd ac Ynys Môn (Tachwedd 2013)[30]

| Awdurdod Lleol | | Canran o ail gartrefi | Awdurdod Lleol | Canran o ail gartrefi |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | | **6.1** | **Ynys Môn** | **8.0** |
| **Detholiad o ardaloedd Cynghorau Cymuned** | | **Canran o ail gartrefi** | **Detholiad o ardaloedd Cynghorau Cymuned** | **Canran o ail gartrefi** |
| Ardaloedd Cynghorau Cymuned gyda'r ganran uchaf o ail gartrefi | Llanengan | 39.8 | Llanfaelog | 25.5 |
| | Aberdaron | 24.5 | Trearddur | 25.3 |
| | Betws Garmon | 22.7 | Rhoscolyn | 21.6 |
| | Llanbedrog | 21.1 | Moelfre | 18.1 |
| | Arthog | 19.6 | Cylch y Garn | 11.8 |
| | Nefyn | 18.6 | Llaneugrad | 11.4 |
| | Pistyll | 16.6 | Llanddona | 10.8 |
| Ardaloedd Cynghorau Cymuned gyda'r ganran isaf o ail gartrefi | Caernarfon | 0.5 | Llangefni | 1.1 |
| | Bontnewydd | 0.8 | Caergybi | 1.5 |
| | Bangor | 0.8 | Llanfairpwllgwyngyll | 1.6 |
| | Bethesda | 1.0 | Trewalchmai | 1.9 |
| | Pentir | 1.5 | Llanfachraeth | 2.0 |

Ffynhonnell: Gwasanaeth Cyllid, Cyngor Sir Ynys Môn ac Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd

- Canran arwyddocaol o ail gartrefi mewn rhai ardaloedd Cynghorau Cymuned yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
- Yn gyffredinol, mae'r ardaloedd Cynghorau Cymuned sydd â'r canrannau uchaf o ail gartrefi yng Ngwynedd ac yn Ynys Môn, wedi eu lleoli mewn mannau arfordirol.
- Ar y cyfan, mae'r ardaloedd Cynghorau Cymuned sydd â'r canrannau isaf o ail gartrefi yn lleoliadau mwy trefol.

[30] Gwybodaeth yn deillio o wybodaeth Treth y Cyngor (Gwasanaeth Cyllid, Cyngor Sir Ynys Môn ac Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd), Tachwedd 2013. Gwybodaeth ar sail ardaloedd Cynghorau Cymuned.

## 7.12 Ariannu tai fforddiadwy

### 7.12.1 Lefelau grant tai cymdeithasol

Gwynedd

| Blwyddyn | Lefel Grant Tai Cymdeithasol |
| --- | --- |
| 2011/12 | £2,046,743.00 |
| 2012/13 | £1,620,102.62 |
| 2013/14 | £1,435,533.97 |
| 2014/15 | £1,435,534.00 |
| 2015/16 | £1,435,000 |

Ffynhonnell: Gwasanaeth Tai, Cyngor Gwynedd

Ynys Môn

| Blwyddyn | Lefel Grant Tai Cymdeithasol |
| --- | --- |
| 2011/12 | £1,096,318 |
| 2012/13 | £1,055,128 |
| 2013/14 | £934,924 |
| 2014/15 | £934,924 |
| 2015/16 | £934,924 |

Ffynhonnell: Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn

### 7.12.2 Sylwadau gan Hwylusydd Tai Gwledig Ynys Môn

- Mae'r lefel Grant Tai Cymdeithasol wedi lleihau yn Ynys Môn. Fodd bynnag mae'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn ddiweddar o ran derbyn grantiau ychwanegol (megis arian llithriad o Grantiau Tai Cymdeithasol). Er enghraifft, yn ei gyfanrwydd roedd y grantiau a gafodd Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y blynyddoedd a nodir uchod fel y ganlyn:

  2011/12: £1,096,318.23
  2012/13: £2,080,382.17
  2013/14: £1,108,263.84
  2014/15: £1,093,924.00

- Noder fodd bynnag nad yw'r arian ychwanegol hyn yn warantedig. Mae lefel y grantiau ychwanegol yn newid o flwyddyn i flwyddyn ac, er enghraifft, ni chafwyd unrhyw grantiau ychwanegol yn 2011/12.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cronfa arall o arian ar gyfer Cymdeithasau Tai, sef y Grant Refeniw. Mae'r arian yma ar gyfer talu llog blynyddol y morgeisi gan gymdeithasau tai ar gyfer datblygu tai cymdeithasol.
- Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi bod yn llwyddiannus gyda cheisiadau am Grant Tai Llai gyda'r posibilrwydd o dderbyn £700,000 ychwanegol yn 2015. Bydd hyn yn galluogi darparu tua 9-10 uned gyda dwy ystafell wely.
- Tra bod y Grant Tai Cymdeithasol yn lleihau, mae'r ffynonellau ariannu eraill yma wedi cynorthwyo i gau'r bwlch. Fodd bynnag, nid yw'r grantiau ychwanegol yn warantedig a rhaid ceisio amdanynt. Yr her felly yw sicrhau fod digon o gynlluniau ar y gweill i gymryd mantais os/pan mae'r arian ar gael.
- I wneud y Grant Tai Cymdeithasol fynd yn bellach mae rhai o'r cymdeithasau tai hefyd wedi datblygu tai rhent canolraddol gyda'r grant yn talu 25% o gost yr uned (yn lle 58% ar gyfer tai cymdeithasol). Mae hyn yn golygu eu bod yn gallu codi mwy o rent. Nid yw cynllun o'r fath yn gweithio yn bob man ac mae'n rhaid edrych ar y galw a'r incwm/fforddiadwyaeth yn lleol. Hefo'r cynlluniau yma mae modd prynu'r eiddo yn llawn yn hwyrach ymlaen (ar ôl tua 5 mlynedd), ond ni fuasai hyn yn gallu digwydd ar safle eithriedig.

7.12.3 Tai fforddiadwy ychwanegol a gyflenwir drwy Gronfa Grant Cyfalaf[31] - Gwybodaeth ar gyfer Cymru gyfan

| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o unedau fforddiadwy a'u cyflenwir** | | | | | |
| **Gydag arian o Gronfa Grant Cyfalaf** | 1,817 | 2,127 | 1,548 | 1,274 | 1,357 |
| **Heb arian o Gronfa Grant Cyfalaf** | 553 | 359 | 884 | 768 | 1,059 |
| **Cyfanswm** | 2,370 | 2,486 | 2,432 | 2,042 | 2,416 |
| **Canran a'u cyflenwir** | | | | | |
| **Gydag arian o Gronfa Grant Cyfalaf** | 77 | 86 | 64 | 62 | 56 |
| **Heb arian o Gronfa Grant Cyfalaf** | 23 | 14 | 36 | 38 | 44 |

[31] Mae Cronfa Grant Cyfalaf yn cynnwys Grant Tai Cymdeithasol, unrhyw Grant Tai Cymdeithasol a'i ail-gylchir, Cronfa Buddsoddiad Cyfalaf Strategol a'r Grant Ariannu Tai, ond fe eithrir yr unedau hynny a'u harianir o ffynonellau eraill.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 |

Ffynhonnell: Adroddiad 'Affordable Housing Provision in Wales 2013-14' (cyhoeddwyd: 23ain Hydref, 2014), Llywodraeth Cymru

7.12.4 Sylwadau o adroddiad 'Innovative financing of affordable housing: International and UK perspectives', Joseph Rowntree Foundation (Mawrth 2013)

- Mewn amgylchiadau ariannol heriol, mae arloesedd ei angen er mwyn ymestyn cymhorthdal cyhoeddus cyfyngedig a chynyddu cyfraniadau preifat i gynorthwyo i ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol.
- Mae'r argyfwng ariannol a'i sgil-effeithiau wedi arwain at ailasesiad sylfaenol o ran sut i ddarparu tai di-farchnad, pwy ellir ei dderbyn ac ar ba delerau. Mae polisi tai fforddiadwy, tra'n ariannol wedi ei leihau'n sylweddol, yn gallu addasu yn hynod effeithiol ac yn destun arloesedd a newydd-deb. Mae'n parhau'n hanfodol fod y fath arloesedd yn gallu cael ei gynnwys yn bendant o fewn fframwaith polisi hir-dymor sydd yn gydlynol, blaengar, yn gynhwysol i'r rhai mewn angen dyrys am dai, ac yn gyson gyda taclo methiannau yn y farchnad.

7.12.5 Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol (YmTiC) Gwynedd arfaethedig – Hyfywedd a'r gallu i ddatblygu

- Mae gwaith wedi ei wneud gan gwmni Resonance Ltd i asesu'r cyfle i ffurfio Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol (YmTiC) i Wynedd – sef sefydliad trosfwaol sydd yn darparu adnoddau i Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol lleol ac unigol i gwrdd ag anghenion tai cymunedol ar safleoedd penodol.
- Mae Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol yn anelu i ddarparu tai ac asedau cymunedol mewn mannau ble nad yw'r angen yn gallu cael ei gwrdd gan fecanweithiau eraill. Maent yn sicrhau fod tai yn fforddiadwy am byth ac yn cael eu gwerthu i'r rhai hynny sydd angen lleol cydnabyddedig. Bydd YmTiC Gwynedd yn anelu i hwyluso'r ddarpariaeth o dai 'marchnad canolraddol' gan, neu ar gyfer, YmTiCau lleol. Mae yna elfen gymunedol gryf i' YmTiC - mae'n anelu i ddod a chymunedau at ei gilydd er mwyn ceisio cwrdd â'r galw lleol am dai fforddiadwy.
- Agwedd benodol ac amlwg o'r cynnig hwn yw fod gan YmTiC Gwynedd y gallu, ble'n angenrheidiol, i greu croes-gymhorthdaliadau drwy ddatblygu a gwerthu cyfran o'r tai a'u cwblheir o fewn cynllun ar y farchnad agored.
- Er mwyn i YmTiC Gwynedd fod yn llwyddiannus, mae'n rhaid i gynlluniau penodol fod yn hyfyw yn ariannol. As na fydd elw, yna ni fydd cynlluniau yn cael eu datblygu. Bydd darparu elfen farchnad agored fychan o fewn cynlluniau penodol yn gymorth i gyflawni hyn ac felly yn fodd o ddarparu tai fforddiadwy i gwrdd ag anghenion lleol. Gan fod cynlluniau penodol yn cael

eu rheoli gan Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol, byddai ganddynt reolaeth dros pwy fydd yn preswylio yn y tai marchnad agored. Dylai'r elw fod yn isel er mwyn gallu darparu y nifer fwyaf bosib o dai fforddiadwy. Dylai'r tai marchnad agored ond gynorthwyo i sicrhau hyfywdra cynlluniau. Bydd yr elw hwn yn cael ei ail-gylchu o fewn YmTiC Gwynedd er mwyn darparu mwy o dai fforddiadwy i gwrdd ag anghenion lleol. Byddai'r elw hwn hefyd yn cynorthwyo i ariannu swyddog i weithio gyda chymuned er mwyn dod a chynllun yn ei flaen.

- Er mwyn dangos pwysigrwydd darparu nifer fechan o dai marchnad i sicrhau hyfywedd cynlluniau, mi ymgymrodd Resonance ag ymarferiad hyfywedd / costau cyffredinol ar gyfer cynlluniau YmTiC posib. Mae dau o'r rhain (manylion penodol ar gyfer y cynlluniau wedi eu dileu) wedi eu nodi isod ac maent yn dangos sut mae darparu nifer fechan o dai marchnad agored mewn amgylchiadau penodol yn helpu i ddarparu unedau tai fforddiadwy.

Esiampl 1: (Ffynhonnell – Resonance Ltd)

| | | | | | | NODIADAU | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | Maint/Math | Nifer | Arwynebedd Mewnol Gros m² | Benthyciad | | | £ |
| Unedau Rhent | | | | 0 | | *1* | 0 |
| | Rhentu 1 ystafell wely | 0 | | 0 | | | 0 |
| | Rhentu 2 ystafell wely | 0 | | 0 | | | |
| | Rhentu 3 ystafell wely | 0 | | 0 | | | 0 |
| Unedau Ar Werth | | | | Gwerth Marchnad Agored | % Gwerth Marchnad Agored | | Gwerthiant ecwiti |
| | Gwerthiant Disgownt 1 ystafell wely | 0 | | 0 | 70% | 2 | |
| | Gwerthiant Disgownt 2 ystafell wely | 0 | | 0 | 70% | | 0 |
| | Gwerthiant Disgownt 3 ystafell wely | 7 | | 225,000 | 60% | | 945,000 |
| | Gwerthiant Disgownt 4 ystafell wely | 0 | | 0 | 70% | | 0 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerthiant Marchnad Agored 1 ystafell wely | 0 | | 0 | 100% | | 0 |
| | Gwerthiant Marchnad Agored 2 ystafell wely | 0 | | 0 | 100% | | 0 |
| | Gwerthiant Marchnad Agored 3 ystafell wely | 2 | | 225,000 | 100% | | 450000 |
| | Gwerthiant Marchnad Agored 4 ystafell wely | 0 | | 0 | 100% | | 0 |
| Grantiau | | | | | | | 0 |
| **CYFANSYMAU** | | 9 | | | | | **1,395,000** |
| **Cyfnod Adeiladu & Gwerthu** | | 12 | Mis | | | | |
| **TIR** | | | Plot m² | Cyfanswm | | £ | |
| | Tir | £30k x 9 | | 270,000 | | | |
| | Prisiad | | 0 | 0 | | | |
| | Cyfreithiol – Pryniant / plot | | 312.5 | 2,813 | | 272,813 | |
| | | | | | | | |
| **CYNLLUNIO/RHEOLIADAU ADEILADU** | | | | | | | |
| | Ffi Gyfreithiol Adran 106 | | | 0 | | | |
| | Ffi Cynllunio | | | 2,970 | | | |
| | Ffi Rheoliadau Adeiladu | | | 3,132 | | 6,102 | |
| | | | | | | | |
| **ADEILADU** | | | £/m² | | | | |
| | Cost Adeiladu | *(Unedau Rhent yn unig)* | | 0 | *3* | | |
| | Cost Adeiladu | *(Unedau i'w gwerthu yn unig)* | | 787,200 | | | |
| | Seilwaith | | | 146,790 | | | |
| | Annormal | | | 0 | | | |
| | Arian Wrth gefn (adeiladu) | | 2.5% | 19,680 | | 953,670 | |
| | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **FFIOEDD** | | | | | | | |
| | Pensaer | | | 6,500 | | | |
| | Eraill (e.e. peiriannydd) | | 0 | 10,500 | | | |
| | Syrfëwr Meintiau / Rheolwr Prosiect / CDM | | 0 | 5,000 | | | |
| | Gwarantau 10 mlynedd | | 1,200 | 10,800 | | 32,800 | 1,265,385 |
| | | | | | | | |
| **ERAILL** | | *Isgyfanswm (Unedau Rhent yn unig)* | 0 | | | | |
| | | *Isgyfanswm (Unedau i'w gwerthu yn unig)* | 992,572 | | | | 992,572 |
| | Ffioedd asiant datblygu YmTiC | | | 0 | | | |
| | Ffi prosiect YmTiC | | 2.50% | 24,814 | | 24,814 | *YMTIC* |
| | | | | | | | |
| **ARIANNU** | | *Isgyfanswm gan gynnwys ffioedd YmTiC* | 1,017,386 | | | | |
| | Ffioedd y banc (trefniant) | | 0.00% | 0 | *4* | | |
| | Llog dros y cyfnod adeiladu | | 4.00% | 41,450 | | | |
| | Cyfreithiol a Phrisiad | | 2.50% | 5,755 | | 47,205 | |
| | | | | | | | |
| **GWERTHIANT** | | *(Unedau i'w gwerthu yn unig)* | | | | | |
| | Asiant NEU | YmTiC yw'r asiant | 0.00% | 0 | | | *YMTIC* |
| | Cyfreithiol | | 857 | 6,000 | | 6,000 | |
| | | | | | | | |
| **TAW** | | | 0% | | | 0 | |
| | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | | **1,343,403** | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| **DROS BEN / DIFFYG** | | | | | | **51,597** | |
| | | | | | | | |
| **ECWITI YMTIC** | | Tŷ Rhannu Ecwiti | | 30.00% | | 283,500 | |
| | | Tŷ Rhent | | | | 0 | |
| **CYFANSWM** | | | | | | 283,500 | |
| *(ON: ddim ond yn bosib yn destun i dermau cytundeb 106)* | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **NODIADAU** | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **1** | 2 dŷ tair ystafell wely a 2 dŷ dwy ystafell wely i'w rhentu ar lefelau rhent Awdurdod Tai Lleol. | | | | | | |
| **2** | 2 dŷ tair ystafell wely a 2 dŷ dwy ystafell wely rhan-ecwiti ar sail 67% o'r Gwerth Marchnad Agored. | | | | | | |
| **3** | Rhagdybir y gost adeiladu yn £1150 y metr sgwâr ond y bydd Cytundeb Dylunio & Adeiladu sydd yn oddeutu £600,000 yn cael ei gytuno gyda chwmni adeiladu. | | | | | | |
| **4** | Cost ariannol o ran adeiladu wedi ei amcangyfrif ar sail mai'r YmTiC yw'r benthyciwr. | | | | | | |

- Gellir gweld felly y byddai'r arian dros ben o gynllun o'r fath yn £51,597 (7 uned fforddiadwy, 2 uned marchnad agored). Fodd bynnag, os byddai'r holl unedau yn rhai fforddiadwy (gyda'r un disgownt a nodwyd ar gyfer yr holl unedau fforddiadwy a'u cynigir), byddai hyn yn arwain at ddiffyg o £128,403. Ni fyddai'r cynllun felly yn hyfyw yn ariannol ac nid yw'n debygol y bydd yn cael ei ddatblygu - ar draul 7 uned fforddiadwy.

<u>Esiampl 2:</u> (Ffynhonnell – Resonance Ltd)

| | | | | | | NODIADAU | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | Maint/Math | Nifer | Arwynebedd Mewnol Gros m² | Benthyciad | | | £ |
| Unedau Rhent | | | | 0 | | *1* | 0 |
| | Rhentu 1 ystafell wely | 0 | | 0 | | | 0 |
| | Rhentu 2 ystafell wely | 0 | | 0 | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhentu 3 ystafell wely | 0 | | 0 | | | 0 |
| Unedau Ar Werth | | | | Gwerth Marchnad Agored | % Gwerth Marchnad Agored | | Gwerthiant ecwiti |
| | Gwerthiant Disgownt 1 ystafell wely | 0 | | 0 | 70% | 2 | |
| | Gwerthiant Disgownt 2 ystafell wely | 0 | | 0 | 70% | | 0 |
| | Gwerthiant Disgownt 3 ystafell wely | 7 | | 185,000 | 70% | | 906,500 |
| | Gwerthiant Disgownt 4 ystafell wely | 0 | | 0 | 70% | | 0 |
| | Gwerthiant Marchnad Agored 1 ystafell wely | 0 | | 0 | 100% | | 0 |
| | Gwerthiant Marchnad Agored 2 ystafell wely | 0 | | 0 | 100% | | 0 |
| | Gwerthiant Marchnad Agored 3 ystafell wely | 2 | | 185,000 | 100% | | 370000 |
| | Gwerthiant Marchnad Agored 4 ystafell wely | 0 | | 0 | 100% | | 0 |
| Grantiau | | | | | | | 0 |
| **CYFANSYMIAU** | | 9 | | | | | **1,276,500** |
| **Cyfnod Adeiladu & Gwerthu** | | 12 | Mis | | | | |
| **TIR** | | | Plot m² | Cyfanswm | | £ | |
| | Tir | £20k x 9 | | 180,000 | | | |
| | Prisiad | | 0 | 0 | | | |
| | Cyfreithiol – Pryniant / plot | | 312.5 | 2,813 | | 182,813 | |
| | | | | | | | |
| **CYNLLUNIO/RHEOLIADAU ADEILADU** | | | | | | | |
| | Ffi Cyfreithiol Adran 106 | | | 0 | | | |
| | Ffi Cynllunio | | | 2,970 | | | |
| | Ffi Rheoliadau Adeiladu | | | 3,132 | | 6,102 | |
| | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ADEILADU** | | | £/m² | | | | |
| | Cost Adeiladu | *(Unedau Rhent yn unig)* | | 0 | *3* | | |
| | Cost Adeiladu | *(Unedau i'w gwerthau yn unig)* | | 787,200 | | | |
| | Seilwaith | | | 146,790 | | | |
| | Annormalau | | | 0 | | | |
| | Arian Wrth gefn (adeiladu) | | 2.5% | 19,680 | | 953,670 | |
| | | | | | | | |
| **FFIOEDD** | | | | | | | |
| | Pensaer | | | 6,500 | | | |
| | Eraill (e.e. peiriannydd) | | 0 | 10,500 | | | |
| | Syrfewr Meintiau / Rheolwr Prosiect / CDM | | 0 | 5,000 | | | |
| | Gwarantau 10 mlynedd | | 1,200 | 10,800 | | 32,800 | 1,175,385 |
| | | | | | | | |
| **ERAILL** | | *Isgyfanswm (Unedau Rhent yn unig)* | 0 | | | | |
| | | *Isgyfanswm (Unedau i'w gwerthu yn unig)* | 992,572 | | | | 992,572 |
| | Ffioedd asiant datblygu YmTiC | | | 0 | | | |
| | Ffi prosiect YmTiC | | 2.50% | 24,814 | | 24,814 | *YMTIC* |
| | | | | | | | |
| **ARIANNU** | | *Isgyfanswm gan gynnwys ffioedd YmTiC* | 1,017,386 | | | | |
| | Ffioedd y banc (trefniant) | | 0.00% | 0 | *4* | | |
| | Llog dros y cyfnod adeiladu | | 4.00% | 41,450 | | | |
| | Cyfreithiol a Phrisiad | | 2.50% | 5,755 | | 47,205 | |
| | | | | | | | |
| **GWERTHIANNAU** | | *(Unedau i'w gwerthu yn unig)* | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Asiant NEU | YmTiC yw'r asiant | 0.00% | 0 | | | *YMTIC* |
| | Cyfreithiol | | 857 | 6,000 | | 6,000 | |
| | | | | | | | |
| **TAW** | | | 0% | | | 0 | |
| | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | | **1,253,403** | |
| | | | | | | | |
| **DROS BEN / DIFFYG** | | | | | | **23,097** | |
| | | | | | | | |
| **ECWITI YMTIC** | | Tŷ Rhannu Ecwiti | | 30.00% | | 271,950 | |
| | | Tŷ Rhent | | | | 0 | |
| **CYFANSWM** | | | | | | 271,950 | |
| *(O.N.: ddim ond yn bosib yn destun i dermau cytundeb 106)* | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **NODIADAU** | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| **1** | 2 dŷ tair ystafell wely a 2 dŷ dwy ystafell wely i'w rhentu ar lefelau rhent Awdurdod Tai Lleol. | | | | | | |
| **2** | 2 dŷ tri ystafell wely a 2 dŷ dwy ystafell wely rhan-ecwiti ar sail 67% o'r Gwerth Marchnad Agored. | | | | | | |
| **3** | Rhagdybir y gost adeiladu yn £1150 y metr sgwâr ond y bydd Cytundeb Dylunio & Adeiladu sydd yn oddeutu £600,000 yn cael ei gytuno gyda chwmni adeiladu. | | | | | | |
| **4** | Cost ariannol o ran adeiladu wedi ei amcangyfrif ar sail mai'r YmTiC yw'r benthyciwr. | | | | | | |

- Gellir gweld felly y byddai'r arian dros ben o gynllun o'r fath yn £23,097 (7 uned fforddiadwy, 2 uned marchnad agored). Fodd bynnag, os byddai'r holl unedau yn rhai fforddiadwy (gyda'r un disgownt a nodwyd ar gyfer yr holl unedau fforddiadwy a'u cynigir), byddai hyn yn arwain at ddiffyg o £87,903. Ni fyddai'r cynllun felly yn hyfyw yn ariannol a nid yw'n debygol y byddyn cael ei ddatblygu – ar draul 7 uned fforddiadwy.

**<u>Sylwadau</u>**

- Grant Tai Cymdeithasol wedi lleihau yn arwyddocaol yn ystod y blynyddoedd diweddar.

- Noder fodd bynnag bod grantiau a ffynonellau eraill o arian ar gael i ariannu unedau fforddiadwy. Fodd bynnag, nid yw'r ffynonellau ariannu hyn yn warantedig. Ni ellir dibynnu arnynt i ariannu prosiectau tai fforddiadwy. Er enghraifft, nodir fod peth o'r grant ychwanegol sydd wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Ynys Môn wedi deillio o arian llithriad o'r Grant Tai Cymdeithasol. Os fydd pob Awdurdod yn defnyddio eu holl arian grant, yna ni fydd yr arian ychwanegol hyn ar gael.
- Mae'n hollbwysig sicrhau ffynonellau eraill i ariannu unedau fforddiadwy newydd i gwrdd â'r angen.
- Arloesedd yn hollbwysig o ran sicrhau unedau fforddiadwy ychwanegol mewn amgylchiadau ble mae lleihad mewn grantiau neu ble mae llai o sicrwydd ynglŷn â derbyn arian grant.
- Cynnydd arwyddocaol yn nifer o unedau fforddiadwy sydd wedi eu darparu heb arian o'r Gronfa Grant Cyfalaf yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diweddar. Y canran o unedau fforddiadwy a'u darperir heb arian grant o'r fath hefyd wedi cynyddu yn arwyddocaol.
- Mae'n bwysig sicrhau ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu unedau fforddiadwy o'r newydd heb orfod dibynnu ar grantiau, yn benodol felly'r Grant Tai Cymdeithasol.
- Mae Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol yn enghraifft o ddull arloesol o'r fath– fodd bynnag mae'n hollbwysig fod cynlluniau yn hyfyw yn ariannol er mwyn gallu darparu'r tai fforddiadwy.

## 7.13 Safleoedd eithrio gwledig[32]

### 7.13.1 Safleoedd eithrio gwledig - datblygiadau a chaniatadau

Gwynedd

| Blwyddyn | Unedau fforddiadwy wedi derbyn caniatâd cynllunio ar safle eithrio gwledig | Unedau fforddiadwy wedi eu hadeiladu ar safle eithrio gwledig |
|---|---|---|
| 2011-12 | 4 | 17 |
| 2012-13 | 2 | 2 |
| 2013-14 | 0 | 2 |
| 2014-15 | 2 | 3 |

[32] Mae safleoedd eithrio gwledig yn fecanwaith darparu tai fforddiadwy. Canolbwyntir yma ar safleoedd eithrio gwledig sydd wedi eu lleoli y tu allan i ffiniau datblygu.

Ynys Môn

| Blwyddyn | Unedau fforddiadwy wedi derbyn caniatâd cynllunio ar safle eithrio gwledig | Unedau fforddiadwy wedi eu hadeiladu ar safle eithrio gwledig |
|---|---|---|
| 2011-12 | 1 | 1 |
| 2012-13 | 22[33] | 0 |
| 2013-14 | 1 | 0 |
| 2014-15 | 18 | 1 |

7.13.2 Gwybodaeth gan Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd

Y nifer o dai fforddiadwy a godwyd gyda grant tai cymdeithasol ar dir eithriedig gan nad oedd modd codi'r tai o fewn y ffin ddatblygu nac i fod yn hyfyw yn ariannol heb grant tai cymdeithasol (2004 - 2015)[34]

| Cyngor Cymuned | Anheddle | Cefndir | Nifer o unedau fforddiadwy wedi cwblhau gyda Grant Tai Cymdeithasol | Angen Grant Tai cymdeithasol i wneud i'r cynllun fod yn hyfyw? |
|---|---|---|---|---|
| Llandderfel | Llandderfel | Safle datblygu tu allan i'r ffin ddatblygu ar dir eithriedig gan nad oedd safle arall ar gael oherwydd mai tai fforddiadwy oedd yn cael ei ystyried. Safleoedd o fewn y ffin ddim yn debygol oherwydd nad oedd y tai marchnad a gafodd ganiatâd wedi eu cwblhau | 5 (tir cyhoeddus) | ✓ |

[33] Mae 11 o'r unedau hyn yn adnewyddiad o ganiatâd cynllunio blaenorol.

[34] Gwybodaeth ar gyfer safleoedd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig

| Cyngor Cymuned | Anheddle | Cefndir | Nifer o unedau fforddiadwy wedi cwblhau gyda Grant Tai Cymdeithasol | Angen Grant Tai cymdeithasol i wneud i'r cynllun fod yn hyfyw? |
|---|---|---|---|---|
| Dolbenmaen | Garndolbenmaen, | Safle datblygu tu allan i'r ffin ddatblygu ar dir eithriedig gan nad oedd safle arall ar gael oherwydd mai tai fforddiadwy oedd yn cael ei ystyried. | 8 (tir cyhoeddus) | ✓ |
| Llanbedrog | Llanbedrog | Tir eithriedig gan nad oedd safle ar gael i godi tai fforddiadwy o fewn ffin y pentref | 12 | ✓ |
| Nefyn / Morfa Nefyn | Morfa Nefyn | Safle ar dir eithriedig preifat a dim tir datblygu ar gael o fewn y ffin. | 14 | ✓ |
| Botwnnog | Botwnnog | Tir eithriedig preifat yn unig oedd ar gael | 12 (Buddsoddiad Cyfalaf Strategol ) | ✓ |
| Abersoch | Abersoch | Tir eithriedig preifat yn unig oedd ar gael | 20 | ✓ |

7.13.3 Sylwadau gan Hwylusydd Tai Gwledig Ynys Môn

- Ddim yn ymwybodol o unrhyw safle eithriedig sydd wedi'i ddatblygu heb gynnwys cymdeithas tai oherwydd nad yw'n hyfyw.
- Y sialens yw adeiladu tai o safon sy'n fforddiadwy i'r incwm lleol. Mae Tai Teg[35] yn dangos fod yna ddiddordeb mewn tai i brynu gan nad yw pawb eisiau tŷ cymdeithasol ond mae'n anodd hybu Tai Teg gan nad oes digon o dai i gynnig.
- Gyda'r gallu i adeiladu nifer fach o dai marchnad i gymorthdalu'r tai fforddiadwy, mae modd darparu mwy o dai fforddiadwy. Ar hyn o bryd y dewis yw 100% tai fforddiadwy neu dim o gwbl. Mae'n bosib hefyd y buasai'n agor y drws i bartneriaeth leol / Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol i allu

[35] Cofrestr annibynnol o bobl gyda diddordeb mewn perchenogaeth tŷ lle nad ydynt ar hyn o bryd yn gallu fforddio prynu yn y farchnad agored gyda'r bwriad i adnabod a chysylltu pobl gyda'r cartrefi sydd ar gael neu yn debygol o fod ar gael neu sydd angen eu datblygu lle mae pobl eisiau byw

datblygu, felly ni ddylid ystyried hyn fel mantais i'r sector breifat yn unig. Er hynny, mae angen sicrhau'r balans cywir o dai marchnad/fforddiadwy i wneud y datblygiad yn hyfyw gyda'r mwyafrif yn fforddiadwy, felly nid i'w weld fel cyfle i wneud elw. Gan ei fod yn safle eithriedig, byddai'n rhaid ymgynghori'n lleol i brofi angen am y tai - marchnad neu fforddiadwy, felly mae'n llai tebygol o fod yn hapfasnachol.

7.13.4 Astudiaeth Tai Fforddiadwy Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn - Diweddariad ar yr Adroddiad Hyfywedd (Hydref 2014), Andrew Golland Associates (Mae'r adroddiad hwn yn ffurfio Papur Cefndir i'r CDLl ar y Cyd)

Sylwadau o ran hyfywdra darparu unedau fforddiadwy

- Dangosai Indecs Prisiau Tai'r Gofrestrfa Dir, sydd yn darparu'r gronfa ddata fwyaf cynhwysfawr ar drosglwyddiadau o fewn y farchnad, fod prisiau tai yn Ynys Môn wedi codi 0.08% (bron i 1%) rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Awst 2014. Mae hwn yn gynnydd bychan iawn, ond eto i gyd yn un cadarnhaol.
- Fodd bynnag, gostwng 2.3% wnaeth y prisiau yng Ngwynedd yn yr un cyfnod. Nid yw'r gostyngiad hwn yn sylweddol, ond, mae'r tuedd hwn yn groes i nifer o ranbarthau'r DU, yn enwedig y rhai hynny yn Ne Lloegr.
- Fodd bynnag, yn ôl Prisiau Tendro RICS BCIS ('Royal Institution of Chartered Surveyors' – 'Building Cost Information Service'), mae'r costau adeiladu wedi cynyddu oddeutu 14% yn ystod yr un cyfnod. Dyma gynnydd sylweddol ac un a all effeithio ar ddarparu rhai cynlluniau tai.
- Ceir gwahaniaethau sylweddol rhwng yr ardaloedd gwerth uwch a'r rhai gwerth is. Mae datblygiad yn yr ardaloedd gwerth is (Dwyrain Gwynedd, Blaenau Ffestiniog a'r Parc Cenedlaethol yn edrych yn ymylol iawn (hyd yn oed heb Dai Fforddiadwy) tra bo gwerthoedd gweddilliol yn uwch na £1.5 miliwn yr hectar yn lleoliadau gwerth uwch yr Ardal Gynllunio ar y Cyd, hyd yn oed gyda chanran Tai Fforddiadwy o 30%.
- Mae effeithiau marchnad dai agored gweddol ddisymud a chostau adeiladu cynyddol wedi peri i'r gwerth gweddilliol ostwng yn gyffredinol, er ymddengys nad yw hynny wedi digwydd yn yr is-ardaloedd gwerth uwch lle mae cynnydd bychan mewn prisiau tai mewn ardal sydd eisoes yn un gwerth uchel i weld yn lleddfu effeithiau'r costau uwch.
- Mae ffynhonnell RICS, BCIS yn rhagdybio cynnydd o 5% o flwyddyn i flwyddyn yng nghostau adeiladu i'r dyfodol.
- Gan ragdybio ymhellach fod costau adeiladu yn cyfrif am oddeutu 60% o brisiau tai, golyga hyn y byddai'n rhaid sicrhau cynnydd o oddeutu 3% mewn prisiau tai i gynnal hyfywedd.

7.13.5 Tai fforddiadwy ychwanegol wedi eu cyflenwi ar safleoedd tai eithriedig - gwybodaeth ar gyfer Cymru gyfan

| | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd o unedau wedi derbyn caniatâd cynllunio** | | | | | | | |
| **Awdurdodau lleol** | 75 | 68 | 82 | 33 | 48 | 87 | 2 |
| **Parciau Cenedlaethol** | 10 | 11 | 42 | 48 | 8 | 4 | 9 |
| **Cyfanswm** | 85 | 79 | 124 | 81 | 56 | 91 | 11 |
| **Nifer o unedau wedi eu cyflenwi** | | | | | | | |
| **Awdurdodau lleol** | 34 | 27 | 10 | 71 | 42 | 88 | 37 |
| **Parciau Cenedlaethol** | 10 | 35 | 33 | 4 | 1 | 12 | 29 |
| **Cyfanswm** | 44 | 62 | 43 | 75 | 43 | 100 | 66 |

Ffynhonnell: Adroddiad 'Affordable Housing Provision in Wales 2013-14' (cyhoeddwyd: 23ain Hydref, 2014), Llywodraeth Cymru

**Sylwadau**

- Nifer gymharol isel o unedau fforddiadwy wedi eu datblygu ar safleoedd eithrio gwledig (y tu allan i ffiniau datblygu) yng Ngwynedd nag yn Ynys Môn ers 2011.
- Yn ogystal, nifer gymharol isel o unedau fforddiadwy sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio ar safleoedd eithrio gwledig yng Ngwynedd ag yn Ynys Môn ers 2011. Mae nifer o'r unedau a'u caniatawyd ar gyfer adnewyddu caniatadau cynllunio blaenorol. Mae hyn yn awgrymu fod diffyg datblygu wedi bod ar rai o'r safleoedd hyn.
- Nifer o unedau fforddiadwy sydd wedi derbyn caniatad cynllunio ar safleoedd eithrio gwledig yng Nghymru gyfan wedi gostwng yn y blynyddoedd diweddar. Nifer o unedau fforddiadwy sydd wedi eu datblygu ar safleoedd o'r fath yn fwy cyson.
- Grant Tai Cymdeithasol wedi bod yn angenrheidiol i ddatblygu nifer o safleoedd eithrio yng Ngwynedd.
- Costau adeiladu wedi cynyddu yn fwy arwyddocaol yn ardal y Cynllun na phrisiau tai. Angen cynnydd o oddeutu 3% mewn prisiau tai i gynnal hyfywedd. Hyn yn broblem mewn rhannau o ardal y Cynllun. Problemau felly o ran darparu tai fforddiadwy ar sail hyfywdra.
- Cyswllt gyda'r hyn a nodir yn rhan 7.12 ('Ariannu tai fforddiadwy') – angen rhoi ystyriaeth i ffyrdd gwahanol ag arloesol o ddarparu tai fforddiadwy. Ystyriaeth i ddarparu peth elfen o dai marchnad agored ar safleoedd eithrio gwledig i groes-ariannu yr elfen fforddiadwy.

**Y PRIF NEGESEUON MEWN PERTHYNAS Â CHYNLLUNIO DEFNYDD TIR**

- Canran arwyddocaol o ofodau aelwydydd a feddiannwyd yng Ngwynedd ac Ynys Môn adeg Cyfrifiad 2011 wedi eu rhentu'n gymdeithasol.
- Tai sydd wedi eu rhentu'n gymdeithasol yn fwy amlwg yn y wardiau trefol o'u cymharu â'r wardiau gwledig.
- Tai neu fyngalos sengl yw'r math o annedd sydd yn fwyaf amlwg yng Ngwynedd ac yn Ynys Môn. Mae'r math hwn o uned yn hynod amlwg yn Ynys Môn. Mae yna nifer arwyddocaol o dai teras yng Ngwynedd.
- Canran sylweddol o stoc dai Gwynedd wedi ei adeiladu cyn 1919.
- Anaddasrwydd tai yn fater sydd yn bwysig i'w ystyried.
- Lleihad amlwg yng ngwerthiant unedau preswyl yn y cyfnod wedi 2007.
- Cynyddodd prisiau tai cyfartalog yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn raddol hyd at ddiwedd 2007, cyn gostwng ac yna sefydlogi wedi hynny.
- Cynyddodd prisiau tai chwartel isaf yng Ngwynedd yn raddol hyd at 2007, cyn gostwng ac yna sefydlogi wedi hynny.
- Gwerthwyd mwy o dai teras yng Ngwynedd yn 2013 nag unrhyw fath arall o uned breswyl. Yn Ynys Môn, gwerthwyd mwy o dai sengl yn 2013 nag unrhyw fath arall o uned breswyl.
- Y categori pris amlycaf o ran gwerthiannau tai (pob math o dai) yng Ngwynedd yn 2013 oedd £100,000-125,000. Yn Ynys Môn, y categori pris amlycaf o ran gwerthiannau tai (pob math o dai) yn 2013 oedd £150,000-175,000.
- Mae'r gwerth y gymhareb fforddiadwyedd ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn yn rhai arwyddocaol.
- Mae yna wahaniaethau amlwg rhwng gwahanol wardiau o fewn awdurdodau cynllunio Gwynedd ac Ynys Môn o safbwynt gwerth y gymhareb fforddiadwyedd.
- Nifer sylweddol o eiddo gwag hir dymor yng Ngwynedd ac yn Ynys Môn. Ar y cyfan, mae mwy o eiddo gwag hir dymor yn amlwg mewn ardaloedd trefol o'i gymharu ag ardaloedd gwledig.
- Mae'r canran o ofodau aelwydydd sydd heb breswylwyr arferol yng Ngwynedd ac yn Ynys Môn (Cyfrifiad 2011) yn uwch na'r canran cyfatebol ar gyfer Cymru gyfan.
- Canran arwyddocaol o ail gartrefi mewn rhai ardaloedd o Wynedd ac Ynys Môn. Yn gyffredinol, mae'r ardaloedd hyn wedi eu lleoli mewn mannau arfordirol.
- Angen sylweddol am dai fforddiadwy yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
- Mae Grant Tai Cymdeithasol wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae grantiau eraill yn llai dibynadwy.
- Pwysig ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu tai fforddiadwy.
- Nifer gymharol isel o unedau fforddiadwy wedi eu hadeiladu ar safleoedd eithrio gwledig yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn ystod y blynyddoedd diweddar.
- Rhoi ystyriaeth i adeiladu peth tai marchnad agored ar safleoedd eithrio gwledig i hwyluso'r ddarpariaeth o unedau fforddiadwy.

# 8. TUEDDIADAU ADEILADU

## 8.1 Unedau preswyl wedi eu cwblhau: 2001-2014[36]

Gwynedd

| Ardaloedd Dalgylch Dibyniaeth | Nifer o unedau preswyl wedi eu cwblhau | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn | | | | | | | | | | | | |
| | 01-02 | 02-03 | 03-04 | 04-05 | 05-06 | 06-07 | 07-08 | 08-09 | 09-10 | 10-11 | 11-12 | 12-13 | 13-14 |
| **Bangor** | 73 | 41 | 72 | 75 | 60 | 33 | 41 | 37 | 27 | 38 | 24 | 72 | 78 |
| **Caernarfon** | 60 | 52 | 54 | 48 | 39 | 40 | 72 | 72 | 38 | 51 | 31 | 39 | 36 |
| **Llŷn** | 28 | 33 | 48 | 95 | 30 | 34 | 49 | 39 | 40 | 53 | 44 | 41 | 35 |
| **Porthmadog** | 26 | 12 | 12 | 27 | 25 | 37 | 42 | 18 | 13 | 12 | 10 | 10 | 6 |
| **Ffestiniog** | 1 | 0 | 3 | 1 | 6 | 8 | 4 | 5 | 4 | 1 | 1 | 2 | 4 |
| **Dolgellau/ Abermaw** | 1 | 1 | 9 | 25 | 6 | 7 | 23 | 4 | 6 | 4 | 8 | 6 | 5 |
| **Bala** | 1 | 2 | 0 | 2 | 8 | 1 | 1 | 5 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 |
| **Tywyn/ Machynlleth** | 14 | 10 | 12 | 19 | 22 | 4 | 18 | 7 | 20 | 2 | 3 | 0 | 11 |
| **Cyfanswm** | **203** | **151** | **210** | **292** | **196** | **164** | **250** | **187** | **149** | **162** | **121** | **171** | **176** |

Ffynhonnell: Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd), Cyngor Gwynedd


Ynys Môn

| Is-ardal | Nifer o unedau preswyl wedi eu cwblhau | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn | | | | | | | | | | | | |
| | 01-02 | 02-03 | 03-04 | 04-05 | 05-06 | 06-07 | 07-08 | 08-09 | 09-10 | 10-11 | 11-12 | 12-13 | 13-14 |
| **Grŵp A5** | 11 | 12 | 12 | 18 | 40 | 38 | 54 | 51 | 48 | 18 | 17 | 22 | 9 |
| **Arfordir dwyreiniol** | 10 | 33 | 19 | 12 | 32 | 6 | 5 | 9 | 18 | 7 | 17 | 40 | 34 |
| **Caergybi** | 37 | 39 | 5 | 12 | 55 | 51 | 33 | 71 | 62 | 15 | 15 | 52 | 34 |
| **Llangefni** | 56 | 39 | 64 | 20 | 46 | 50 | 46 | 81 | 49 | 54 | 22 | 71 | 40 |
| **Afon Menai** | 19 | 37 | 9 | 24 | 16 | 59 | 67 | 25 | 24 | 14 | 14 | 26 | 13 |
| **Gogledd** | 32 | 30 | 41 | 23 | 30 | 47 | 49 | 57 | 19 | 30 | 28 | 7 | 22 |
| **De-Orllewin** | 6 | 14 | 10 | 2 | 0 | 15 | 24 | 13 | 6 | 5 | 5 | 5 | 9 |
| **Cyfanswm** | **171** | **204** | **160** | **111** | **219** | **266** | **278** | **307** | **226** | **143** | **118** | **223** | **161** |

Ffynhonnell: Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd), Cyngor Gwynedd

[36] Adeiladu o'r newydd a throsi adeiladau

Map yn nodi lleoliadau'r Ardaloedd Dalgylch Dibyniaeth (sy'n deillio o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd) a'r Is-ardaloedd Tai (Ynys Môn) [a gyfeirir atynt yn y tablau uchod]




- Nid oes yna unrhyw batrwm amlwg o ran nifer yr unedau preswyl sydd wedi eu cwblhau'n flynyddol yng Ngwynedd nac yn Ynys Môn [unai o ran yr awdurdodau cynllunio yn eu cyfanrwydd neu o ran yr Ardaloedd Dalgylch Dibyniaeth/ Is-ardaloedd Tai penodol].
- Nodir fodd bynnag fod lleihad amlwg yn nifer yr unedau a'u cwblhawyd yn 2011-12 a 2010-11 o'u cymharu â'r pum mlynedd flaenorol. Mae peth cynnydd wedi bod yn y nifer o unedau a'u cwblhawyd ers 2011-12.
- Mae'r tueddiadau yn Ynys Môn yn gyson a'r rhai yng Ngwynedd. Gwelwyd cynnydd blynyddol yn nifer yr unedau a gwblhawyd rhwng 2005 a 2009, gyda gostyngiad amlwg yn y ddwy flynedd wedi hynny.
- Ar gyfartaledd, yn y cyfnod rhwng 2001-02 a 2013-14, cwblhawyd 187 uned preswyl newydd y flwyddyn yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd.
- Ar gyfartaledd, yn y cyfnod rhwng 2001-02 a 2013-14, cwblhawyd 199 uned preswyl newydd y flwyddyn yn Ynys Môn.
- Mae'r ddau gyfartaledd hyn yn ymgorffori cyfnodau o dyfiant ynghyd a dirwasgiad.

## 8.2 Caniatadau cynllunio ar gyfer unedau preswyl

Awdurdod Cynllunio Gwynedd

| Cyfnod | Nifer o unedau a oedd yn berthnasol i'w hystyried ar gyfer arolwg argaeledd tir ar gyfer tai | Nifer o unedau wedi dechrau | Nifer o unedau heb ddechrau | Canran o'r unedau perthnasol nad oedd wedi eu dechrau |
|---|---|---|---|---|
| Ebrill 2014 | 1586 | 357 | 1229 | 77.5% |
| Ebrill 2013 | 1570 | 307 | 1264 | 80.5% |
| Ebrill 2012 | 1550 | 239 | 1190 | 76.8% |
| Ebrill 2011 | 1580 | 255 | 1163 | 73.6% |
| Ebrill 2010 | 1668 | 303 | 1216 | 72.9% |
| Ebrill 2009 | 1551 | 263 | 1101 | 71.0% |
| Ebrill 2008 | 1481 | 271 | 960 | 64.8% |
| Ebrill 2007 | 1224 | 307 | 753 | 61.5% |
| Ebrill 2006 | 1096 | 226 | 674 | 61.5% |

Ffynhonnell: Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)

Ynys Môn

| Cyfnod | Nifer o unedau a oedd yn berthnasol i'w hystyried ar gyfer arolwg argaeledd tir ar gyfer tai | Nifer o unedau wedi dechrau | Nifer o unedau heb ddechrau | Canran o'r unedau perthnasol nad oedd wedi eu dechrau |
|---|---|---|---|---|
| Ebrill 2014 | 2129 | 161 | 1778 | 83.5% |
| Ebrill 2013 | 1906 | 193 | 1490 | 78.2% |
| Ebrill 2012 | 1924 | 253 | 1553 | 80.7% |
| Ebrill 2011 | 2091 | 180 | 1768 | 84.6% |
| Ebrill 2010 | 1912 | 186 | 1630 | 85.3% |
| Hydref 2009 | 1982 | 183 | 1669 | 84.2% |
| Ebrill 2009 | 1985 | 183 | 1669 | 84.1% |
| Hydref 2008 | 2041 | 274 | 1603 | 78.5% |
| Ebrill 2008 | 2002 | 329 | 1530 | 76.4% |
| Hydref 2007 | 2102 | 338 | 1471 | 70.0% |

| Cyfnod | Nifer o unedau a oedd yn berthnasol i'w hystyried ar gyfer arolwg argaeledd tir ar gyfer tai | Nifer o unedau wedi dechrau | Nifer o unedau heb ddechrau | Canran o'r unedau perthnasol nad oedd wedi eu dechrau |
|---|---|---|---|---|
| **Ebrill 2007** | **1661** | **287** | **1296** | **78.0%** |
| **Hydref 2006** | **1663** | **242** | **1227** | **73.8%** |
| **Ebrill 2006** | **1322** | **209** | **1040** | **78.7%** |
| **Hydref 2005** | **1412** | **207** | **1052** | **74.5%** |

Ffynhonnell: Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)

- Gwynedd – Canran uwch o unedau preswyl nad oedd wedi dechrau cael eu hadeiladu ym mis Ebrill 2013 nag yn unrhyw un o'r cyfnodau eraill. Cynnydd arwyddocaol yn y canran o unedau heb eu dechrau ers Ebrill 2006.
- Ynys Môn – Canran uwch o unedau preswyl nad oedd wedi dechrau cael eu hadeiladu ym mis Ebrill 2010 nag yn unrhyw un o'r cyfnodau eraill. Cynnydd arwyddocaol yn y canran o unedau heb eu dechrau ers Hydref 2005.

## 8.3 Dadansoddiad o'r unedau preswyl newydd a gwblhawyd yn y cyfnod rhwng Ebrill 2012 ac Ebrill 2013[37]

| | Awdurdod Cynllunio Gwynedd | Ynys Môn |
|---|---|---|
| Nifer o unedau preswyl newydd a gwblhawyd o fewn yr ardal Awdurdod Cynllunio yn y cyfnod Ebrill 2012 - Ebrill 2013 | 171 | 223 |
| | | |
| Nifer y tai unllawr a gwblhawyd | 30 | 17 |
| Nifer y tai deulawr neu fwy a gwblhawyd | 118 | 108 |
| Nifer y fflatiau a gwblhawyd | 23 | 98 |
| | | |
| Nifer yr unedau a gwblhawyd a ddatblygwyd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (fel y'i diffinnir ym Mholisi Cynllunio Cymru - Argraffiad 7) | 118 | 170 |

Ffynhonnell: Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)

[37] Mae'r wybodaeth hyn yn seiliedig ar arolwg argaeledd tir ar gyfer tai a gynhaliwyd yn ystod mis Ebrill 2013. Mae'r wybodaeth yn cyfeirio at unedau preswyl newydd sydd wedi eu creu. Os yw tŷ wedi ei drosi i ddwy uned breswyl, noder hyn fel un uned breswyl newydd.

- Awdurdod Cynllunio Gwynedd: Roedd y mwyafrif helaeth o unedau preswyl a gwblhawyd yn y cyfnod rhwng Ebrill 2012 ac Ebrill 2013 yn dai deulawr (neu fwy).
- Canran sylweddol (69.0%) o'r unedau preswyl newydd a gwblhawyd yn y cyfnod hwn wedi eu datblygu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen.
- Ynys Môn: Roedd y mwyafrif o unedau preswyl a gwblhawyd yn y cyfnod rhwng Ebrill 2012 ac Ebrill 2013 yn dai deulawr (neu fwy). Cwblhawyd nifer arwyddocaol o fflatiau yn ogystal.
- Canran sylweddol (76.2%) o'r unedau preswyl newydd a gwblhawyd yn y cyfnod hwn wedi eu datblygu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen.

## 8.4 Argaeledd tir ar gyfer tai yn ardal Awdurdodau Cynllunio Gwynedd ac Ynys Môn

| | Cyflenwad tir mewn blynyddoedd | |
|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Gwynedd** | **Ynys Môn** |
| 2007 | 5.26 | 5.26 |
| 2008 | 5.53 | 5.68 |
| 2009 | 6.32 | 5.13 |
| 2010 | 5.13 | 4.57 |
| 2011 | 5.00 | 5.1 |
| 2012 | 4.8 | 5.8 |
| 2013 | 4.5 | 5.3 |
| 2014 | 3.7 | 4.7 |
| 2015 | 3.3 | O dan 5 mlynedd (gweler esboniad isod) |

Ffynhonnell: Cydastudiaeth tir ar gyfer tai (Llywodraeth Cymru)

- Nid oes gan ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd (dyddiad sail: 1af Ebrill, 2015) y cyflenwad 5 mlynedd gofynol o dir ar gyfer tai (gweler paragraff 9.2.3 o Bolisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 8).
- Gan nad oes gan Ynys Môn Gynllun Datblygu Unedol wedi'i fabwysiadu, yn unol â chanllawiau Nodyn Cyngor Technegol 1 a'u diweddarwyd yn Ionawr 2015, nid oes modd dangos fod yno gyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai. Mae tybiaeth felly nad oes gan Ynys Môn (dyddiad sail: 1af Ebrill, 2015) y cyflenwad 5 mlynedd ofynnol o dir ar gyfer tai.

## 8.5 Cyd-astudiaeth argaeledd tir ar gyfer tai – Dosbarthiad yr unedau preswyl

8.5.1 Cyd-astudiaeth argaeledd tir ar gyfer tai (sail 2013) – Perthnasol ar gyfer safleoedd a all ymdopi gyda 5 neu fwy o unedau preswyl

Awdurdod Cynllunio Gwynedd

| | Unedau arfaethedig | Arwynebedd (ha) | Categori[38] | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | C/H | 1 | 2 | 2* | 3(i) | 3(ii) | |
| Sector breifat | 2476 | 86.45 | 114 | 73 | 1482 | 0 | 806 | 1 | 92 |
| Sector gyhoeddus | 127 | 8.6 | 0 | 0 | 85 | 0 | 32 | 10 | 0 |
| Cymdeithasau tai | 58 | 0.95 | 41 | 4 | 17 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | 2661 | 96 | 155 | 73 | 1584 | 0 | 838 | 11 | 92 |

Ffynhonnell: Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Cyngor Gwynedd), 1 Ebrill, 2013

Ynys Môn

| | Unedau arfaethedig | Arwynebedd (ha) | Categori | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | C/H | 1 | 2 | 2* | 3(i) | 3(ii) | |
| Sector breifat | 968 | 38.84 | 62 | 58 | 443 | 0 | 291 | 114 | 72 |
| Sector gyhoeddus | 129 | 4.83 | 0 | 0 | 55 | 0 | 74 | 0 | 0 |
| Cymdeithasau tai | 46 | 1.18 | 10 | 18 | 16 | 0 | 2 | 0 | 63 |
| **CYFANSWM** | 1143 | 44.85 | 72 | 76 | 514 | 0 | 367 | 114 | 135 |

[38] Allwedd (Nodyn Cyngor Technegol 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2006)

**C/H - Safleoedd sy'n cael eu hadeiladu:** Safleoedd neu rannau o safleoedd sydd wrthi'n cael eu hadeiladu (yn cyfeirio at yr union ardal lle mae'r adeiladu'n digwydd yn unig).
**Categori 1:** Safleoedd neu rannau o safleoedd lle gellir dechrau datblygu ar unwaith ac sy'n debygol o gael eu cwblhau ym mlwyddyn gyntaf cyfnod yr astudiaeth.
**Categori 2:** Safleoedd neu rannau o safleoedd lle na ellir dechrau datblygu ar unwaith, ond lle mae'r cyfyngiad ar ddatblygu yn debygol o gael ei godi mewn pryd i gwblhau'r anheddau o fewn 5 mlynedd.
**Categori 2*:** Safleoedd sy'n gallu cael eu datblygu o fewn y cyfnod o 5 mlynedd ond sydd o fewn yr ardaloedd lle mae'r galw yn y farchnad yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd y datblygiad yn digwydd o fewn 5 mlynedd.
**Categori 3:** Safleoedd neu rannau o safleoedd lle mae:
3(i) - datblygiad yn annhebygol o fewn 5 mlynedd oherwydd cyfyngiadau ffisegol mawr neu gyfyngiadau eraill y cytunwyd arnynt; neu
3(ii) - datblygiad yn annhebygol o ddigwydd yn y dyfodol agos oherwydd cyfyngiadau mawr tymor hir.

Ffynhonnell: Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Cyngor Sir Ynys Môn), 1 Ebrill, 2013

8.5.2 Safleoedd a ellir eu datblygu o fewn 5 mlynedd (h.y. diffinnir fel bod yng nghategorïau C/H, 1 a 2 uchod)

Awdurdod Cynllunio Gwynedd

| **Math o ddatblygiad** | | **Nifer o unedau** | **Canran o unedau (o'i gymharu â'r holl unedau a ellir eu datblygu o fewn 5 mlynedd)** |
|---|---|---|---|
| **Safleoedd mawr (h.y. 5+ o unedau)** | Preifat | 1669 | 74.7% |
| | Cyhoeddus | 85 | 3.8% |
| | Cymdeithasau tai | 62 | 2.8% |
| | **Nifer o unedau ar safleoedd mawr a ellir eu datblygu o fewn 5 mlynedd** | **1812** | **81.1%** |
| **Nifer o unedau ar safleoedd bach (h.y. llai na 5 uned) a ellir eu datblygu o fewn 5 mlynedd** | | **421** | **18.9%** |
| **CYFANSWM (h.y. nifer o unedau a ellir eu datblygu o fewn 5 mlynedd)** | | **2233** | **100%** |

Ynys Môn

| **Math o ddatblygiad** | | **Nifer o unedau** | **Canran o unedau (o'i gymharu â'r holl unedau a ellir eu datblygu o fewn 5 mlynedd)** |
|---|---|---|---|
| **Safleoedd mawr (h.y. 5+ o unedau)** | Preifat | 563 | 49.9% |
| | Cyhoeddus | 55 | 4.9% |
| | Cymdeithasau tai | 44 | 3.9% |
| | **Nifer o unedau ar safleoedd mawr a ellir eu datblygu o fewn 5 mlynedd** | **662** | **58.7%** |
| **Nifer o unedau ar safleoedd bach (h.y. llai na 5 uned) a ellir eu datblygu o fewn 5 mlynedd** | | **466** | **41.3%** |
| **CYFANSWM (h.y. nifer o unedau a ellir eu datblygu o fewn 5 mlynedd)** | | **1128** | **100%** |

- Gweler fod caniatadau cynllunio am dai a roddwyd i gyrff cyhoeddus/ Cymdeithasau Tai yn ffurfio cyfran isel o'r unedau preswyl a ystyriwyd yn arolwg argaeledd tir ar gyfer tai Gwynedd (Ebrill 2013).
- Unedau preifat sydd yn ffurfio mwyafrif helaeth o'r cyflenwad o unedau a ellir eu datblygu o fewn cyfnod o 5 mlynedd ar safleoedd o dros 5 uned yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
- Nodir bod cyfran arwyddocaol o'r unedau preswyl a ellir eu datblygu o fewn cyfnod 5 mlynedd ar safleoedd bach (llai na 5 uned), yn enwedig felly yn Ynys Môn. Mae hyn yn dangos y rôl bwysig sydd gan safleoedd bychan yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd o ran cwrdd â'r angen am dai. Mae hefyd yn cysylltu â'r hyn a nodir yn rhan 3.2 o'r papur hwn o safbwynt natur wledig a gwasgaredig yr ardal.

## 8.6 Cyflenwad o dai fforddiadwy 2009-14[39]

| | Gwynedd[40] | | Ynys Môn | |
|---|---|---|---|---|
| | Unedau fforddiadwy wedi eu cyllido gyda Grant Tai Cymdeithasol | Unedau fforddiadwy heb eu cyllido gan Grant Tai Cymdeithasol | Unedau fforddiadwy wedi eu cyllido gyda Grant Tai Cymdeithasol | Unedau fforddiadwy heb eu cyllido gan Grant Tai Cymdeithasol |
| **2009/10** | 37 | 21 | 79 | 25 |
| **2010/11** | 72 | 34 | 68 | 16 |
| **2011/12** | 32 | 30 | 41 | 10 |
| **2012/13** | 57 | 27 | 106 | 13 |
| **2013/14** | 38 | 32 | 25 | 33 |
| **CYFANSWM** | **236** | **144** | **319** | **97** |

Ffynhonnell: Gwasanaeth Tai, Cyngor Gwynedd a Gwasanaeth Tai, Cyngor Sir Ynys Môn

[39] Y nifer o unedau preswyl fforddiadwy newydd a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd a nodir. Mae hyn yn cynnwys unedau o'r newydd ynghyd â chynlluniau eraill i ddarparu unedau fforddiadwy.
[40] Gwybodaeth yn cynnwys ardal Parc Cenedlaethol Eryri yn ogystal.

- Nifer arwyddocaol o unedau fforddiadwy wedi eu cyflenwi yn ardal y Cynllun yn y blynyddoedd dan sylw.
- Canran sylweddol o'r unedau fforddiadwy sydd wedi eu cyflenwi wedi eu cyllido gyda Grant Tai Cymdeithasol.
- Noder y cyswllt gyda'r hyn a nodir yn rhannau 7.12 a 7.13 o ran lleihad yn lefel y Grant Tai Cymdeithasol a pha mor bwysig ydyw i ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu tai fforddiadwy.

**Y PRIF NEGESEUON MEWN PERTHYNAS Â CHYNLLUNIO DEFNYDD TIR**

- Ar gyfartaledd, yn y cyfnod rhwng 2001-02 a 2013-14, cwblhawyd 187 uned preswyl newydd y flwyddyn yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a 199 uned preswyl newydd y flwyddyn yn ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Môn.
- Yn gyffredinol, gweler canran uwch o unedau preswyl a oedd yn berthnasol i'w hystyried ar gyfer arolwg argaeledd tir ar gyfer tai ond nad oedd wedi dechrau cael eu hadeiladu, yn ystod y blynyddoedd diweddar o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol.
- Mae canran sylweddol o'r unedau preswyl newydd a gwblhawyd yn y cyfnod rhwng Ebrill 2012 ac Ebrill 2013 wedi eu datblygu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen.
- Mwyafrif o unedau preswyl a gwblhawyd yn y cyfnod rhwng Ebrill 2012 ac Ebrill 2013 yn dai deulawr (neu fwy).
- Tra fod gan Ynys Môn gyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai, nid oes gan ardal awdurdod cynllunio Gwynedd gyflenwad 5 mlynedd (dyddiad sail: 1af Ebrill, 2013).
- Unedau preifat sydd yn ffurfio mwyafrif helaeth o'r cyflenwad o unedau a ellir eu datblygu o fewn cyfnod o 5 mlynedd ar safleoedd o dros 5 uned yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
- Cyfran arwyddocaol o'r cyflenwad o unedau a ellir eu datblygu o fewn cyfnod o 5 mlynedd wedi eu lleoli ar safleoedd bach (safleoedd gyda llai na 5 uned), yn enwedig felly yn Ynys Môn. Mae hyn yn cysylltu gyda'r wybodaeth o ran natur wledig a gwasgaredig ardal y Cynllun.
- Nifer arwyddocaol o unedau fforddiadwy wedi eu cyflenwi yn ardal y Cynllun yn y cyfnod 2009/10 a 2013/14. Cafodd canran uchel o'r unedau hyn eu cyllido gyda Grant Tai Cymdeithasol.

# 9. CASGLIADAU

## 9.1 Y prif faterion/negeseuon sydd yn deillio o'r papur testun

- Yn ei hanfod, ardal wledig yw ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
- Yn gyffredinol, mae poblogaeth ardal y Cynllun yn heneiddio.
- Mae poblogaeth Gwynedd wedi cynyddu a rhagwelir y bydd yn parhau i gynyddu i'r dyfodol. Mae poblogaeth Ynys Môn yn fwy newidiol. Mae lleihad blynyddol wedi ei brofi yn y cyfnod diweddar ac mae gostyngiad hirdymor yn y boblogaeth yn cael ei ragweld.
- Mudo, yn hytrach na newid naturiol, yw'r rheswm dros y cynnydd cyffredinol yn y boblogaeth.
- Cynnydd graddol yn nifer o aelwydydd yng Ngwynedd ac Ynys Môn hyd at 2013.
- Ar sail mudo, lleihad net yn y boblogaeth sydd yn eu hugeiniau yng Ngwynedd yn y cyfnod 2007-13, gyda chynnydd o ran y boblogaeth yn y grŵp oedran 15-19. Yn Ynys Môn, ar sail mudo, nodir bod lleihad yn y boblogaeth rhwng 15-19 mlwydd oed yn ystod y cyfnod hwn. O bosib fod y gwahaniaethau yn y tueddiadau mudo hyn yn ymwneud ag effaith y Brifysgol ym Mangor. Mae cynnydd nodedig hefyd wedi bod yn y nifer o bobl rhwng 45-64 mlwydd oed yn Ynys Môn yn y cyfnod hwn.
- Mae maint cyfartalog aelwydydd yn lleihau.
- Cynnydd arwyddocaol wedi bod yn nifer yr aelwydydd un person ac aelwydydd gydag un oedolyn â phlant yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Rhagwelir y bydd y tueddiad o ran y cynnydd mewn aelwydydd un person yn parhau.
- Ar gyfartaledd, yn y cyfnod rhwng 2001-02 a 2013-14, cwblhawyd 187 o unedau preswyl newydd y flwyddyn yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a 199 o unedau preswyl newydd y flwyddyn yn Ynys Môn.
- Mae'r nifer o dai sydd angen eu darparu yn flynyddol, yn unol â rhagamcanion aelwydydd sail-2011 Llywodraeth Cymru, yn uwch na'r gyfradd flynyddol ddiweddar o ran cwblhau unedau preswyl newydd yng Ngwynedd ond yn is na'r gyfradd cwblhau ddiweddar yn Ynys Môn.
- Y mwyafrif o ardaloedd sydd a'r nifer uchaf o eiddo gwag yn rhai trefol eu natur.
- Mae'r canran o ofodau aelwydydd sydd heb breswylwyr arferol yng Ngwynedd yn llawer uwch na'r canran cyfatebol ar gyfer Cymru gyfan.
- Canran arwyddocaol o ail gartrefi mewn rhai ardaloedd o Wynedd ac Ynys Môn. Yn gyffredinol, mae'r ardaloedd hyn wedi eu lleoli mewn mannau arfordirol.

- Fforddiadwyedd tai yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn fater o bwys. Mae gwahaniaethau amlwg yng ngwerth y gymhareb fforddiadwyaeth rhwng gwahanol wardiau o fewn ardal y Cynllun.
- Cyfran arwyddocaol o'r cyflenwad o unedau a ellir eu datblygu o fewn cyfnod o 5 mlynedd yn ardal awdurdodau cynllunio Gwynedd ac yn Ynys Môn, wedi eu lleoli ar safleoedd bach (h.y. llai na 5 uned).
- Canolrif incwm Gwynedd ac Ynys Môn yn is na'r ffigwr cyfatebol ar gyfer Cymru gyfan. Mae canran sylweddol o aelwydydd Gwynedd ac Ynys Môn gydag incwm sydd yn is na 60% o ganolrif incwm y Deyrnas Unedig (h.y. diffiniad Llywodraeth y DU o dlodi).
- Tai sydd wedi eu rhentu'n gymdeithasol h.y. gan y Cyngor neu Gymdeithas Dai/Landlordiaid Cymdeithasol cofrestredig, yn fwy amlwg mewn wardiau trefol o'u cymharu â wardiau gwledig.
- Lleihad amlwg yn nifer yr unedau preswyl a werthwyd yn y cyfnod yn dilyn 2007.
- Nid oes gan ardal awdurdod cynllunio Gwynedd nac ychwaith Ynys Môn gyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai (dyddiad sail: 1af Ebrill, 2015).
- Ymddengys fod y stoc tai yng Ngwynedd yn hŷn nag ydyw yn Ynys Môn. O bosib fod hyn yn ymwneud â'r ffaith fod tai teras yn llawer mwy amlwg yng Ngwynedd nag ydyw yn Ynys Môn. Gweler nifer arwyddocaol o dai sengl yn Ynys Môn (er rhaid nodi mai dyma'r math amlycaf o uned breswyl yng Ngwynedd yn ogystal). Nodir fod mwy o dai teras wedi eu gwerthu yng Ngwynedd yn 2013 nag unrhyw fath arall o uned breswyl. Tra yn Ynys Môn, gwerthwyd mwy o dai sengl yn ystod y flwyddyn honno nag unrhyw fath arall o uned breswyl.
- Angen sylweddol am dai fforddiadwy yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
- Mae'n bwysig ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu tai fforddiadwy.

## 9.2 Amcanion ar gyfer tai

Y prif amcanion ar gyfer ardal y Cynllun, yn seiliedig ar y blaenoriaethau a nodir mewn strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, yw:

- hwyluso darpariaeth o unedau preswyl fforddiadwy amrywiol;
- hwyluso darpariaeth ddigonol o unedau preswyl i gyfarch anghenion cymunedau lleol am dai;
- hyrwyddo cyflenwad a darpariaeth o unedau preswyl sydd addas o ran eu lleoliad, math, maint a'u hansawdd;
- sicrhau bod y ddarpariaeth o dai yn cwrdd ag anghenion grwpiau penodol o fewn cymdeithas;
- creu a chynnal cymunedau cytbwys a chynaliadwy;
- hybu bywiogrwydd Canolfannau a chefn gwlad;

- cyfrannu at wella iechyd ac ansawdd bywyd y boblogaeth;
- darparu unedau tai sy'n hygyrch i wasanaethau a swyddi lleol;
- sicrhau bod unedau tai'n cael eu darparu mewn modd cynaliadwy;
- llunio polisïau penodol i gwrdd â heriau ac amgylchiadau sy'n benodol i fannau neilltuol o fewn ardal y Cynllun;
- cwrdd â'r her o ran cartrefu gweithwyr a fyddai'n gyfrifol am ddatblygu atomfa niwclear newydd ar safle Wylfa.